

# Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL

Dr Gwynne Jones  
Prif Weithredwr – Chief Executive  
CYNGOR SIR YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL  
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices  
LLANGFNI  
Ynys Môn - Anglesey  
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500  
Ffacs / fax (01248) 750839

<b>RHYBUDD O GYFARFOD</b>	<b>NOTICE OF MEETING</b>
<b>PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO</b>	<b>PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE</b>
<b>DYDD MAWRTH, 19 GORFFENNAF 2016 am 2.00 o'r gloch y.p.</b>	<b>TUESDAY, 19 JULY, 2016 at 2.00 p.m.</b>
<b>SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGFNI</b>	<b>COUNCIL CHAMBER, COUNCIL OFFICES, LLANGFNI</b>
<b>Swyddog Pwyllgor</b>	<b>Mrs. Mairwen Hughes 01248 752516 Committee Officer</b>

## **AELODAU / MEMBERS**

Cynghorwyr / Councillors:-

### **Annibynnol / Independent**

D R Hughes (Cadeirydd/Chair), W T Hughes, Richard Owain Jones a  
Dafydd Rhys Thomas

### **Plaid Cymru / The Party of Wales**

T Ll Hughes, Carwyn Jones, Alun W Mummery (Is-Gadeirydd/Vice-Chair) a Dylan Rees

### **Heb Ymuno / Unaffiliated**

R.Ll.Jones

### **Plaid Lafur Cymru/Welsh Labour Party**

Sedd Wag/Vacant Seat

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion  
addysg/with voting rights in respect of educational matters)**

**Parch./Rev. Robert Townsend (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales) and  
Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)**

**Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)  
Mr Gerallt Llewelyn Jones ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Mentor Môn)**

## R H A G L E N

### 1 **YMDDIHEURIADAU**

### 2 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

### 3 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno, i'w cadarnau, gofnodion y cyfarfodydd canlynol :-

- Cofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 12 Mai, 2016
- Cofnodion y cyfarfod arbennig a gafwyd ar 13 Mai, 2016

### 4 **SAFLEOEDD SIPSIWN A THEITHWYR DROS DRO - CANOL YR YNYS** (Tudalennau 11 - 64)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai mewn perthynas â'r uchod.

### 5 **SAFLEOEDD SIPSIWN A THEITHWYR DROS DRO - ARDAL CAERGYBI** (Tudalennau 65 - 120)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai mewn perthynas â'r uchod.

### 6 **STRATEGAETH IAITH GYMRAEG 2016 - 2021 (DRAFFT)** (Tudalennau 121 - 174)

Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, y Gymuned a Gwellu Gwasanaethau) mewn perthynas â'r uchod.

### 7 **DATBLYGU SGRIWTINI GAN Y BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS**

Derbyn cyflwyniad gan y Ganolfan Dros Sgrwtini Cyhoeddus mewn perthynas â'r uchod.

### 8 **RHAGLEN WAITH** (Tudalennau 175 - 178)

Cyflwyno adroddiad gan y Swyddog Sgrwtini mewn perthynas â'r uchod.

**PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO**

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mai, 2016**

**PRESENNOL:** Y Cyngorwyr D.R. Hughes, T Ll Hughes, W T Hughes, Carwyn Jones, R Ll Jones, Richard Owain Jones, Alun Mummery, Dylan Rees a Dafydd Rhys Thomas.

**WRTH LAW:** Prif Weithredwr, Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Swyddog Pwyllgor (MEH).

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cyngorydd Bob Parry OBE FRAgS – Cadeirydd y Cyngor Sir

**YMDDIHEURIADA U:** Dim

---

**1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

**2 ETHOL CADEIRYDD**

Etholwyd y Cyngorydd Derlwyn R. Hughes yn Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

**3 ETHOL IS-GADEIRYDD**

Etholwyd y Cyngorydd Alun M. Mummery yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor Partneriaeth ac Adfywio.

**Y CYNGHORYDD BOB PARRY OBE FRAgS  
FEL CADEIRYDD Y CYNGOR SIR**

This page is intentionally left blank

**PWYLLGOR SGRIWTINI  
PARTNERIAETH AC ADFYWIO**

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mai 2016**

**PRESENNOL:**

Y Cynghorydd Derlwyn R Hughes (Cadeirydd)  
Y Cynghorydd Alun W Mummery (Is-Gadeirydd)

Y Cynghorwyr John Griffith, Carwyn Jones, Robert Ll Jones,  
Dylan Rees, Dafydd Rhys Thomas, Trefor Lloyd Hughes

**Aelodau eraill y Cyngor Sir a wahoddwyd i fynychu**

Y Cynghorwyr Lewis Davies, Richard Dew, Jeff Evans,  
Kenneth P Hughes, Victor Hughes,  
Llinos Medi Huws, Aled Morris Jones, Gwilym O Jones,  
R G Parry, OBE, J Arwel Roberts, Alwyn Rowlands,  
Ieuan Williams

**WRTH  
LAW:**

Y Prif Weithredwr  
Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid  
Prosesau Busnes)  
Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, y Gymuned a  
Gwella Gwasanaethau)  
Uwch Swyddog Eiddo (Eiddo) (GJ)  
Rheolwr Gwasanaethau Technegol (Tai) (DR)  
Rheolwr y Strategaeth Tai a Datblygu (LR)  
Swyddog Sgrwtini (GR)  
Swyddog Pwyllgor (SC)

**HEFYD YN BRESENNOL** Mr Mike Evans, Uwch Swyddog Cynllunio (Uned Polisi  
Cynllunio ar y Cyd - Gwynedd ac Ynys Môn)  
Eiriolwr Annibynnol ar gyfer Teithwyr (BH)

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Jim Evans, Hywel Eifion Jones, R Meirion  
Jones, Richard Owain Jones

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol, gan gynnwys y Cynghorydd  
Trefor Lloyd Hughes fel Aelod newydd o'r Pwyllgor Sgrwtini Partneriaeth ac Adfywio.  
Diolchodd hefyd i'r Cynghorydd John Griffith, a oedd yn ymddeol o'r Pwyllgor, am ei  
bresenoldeb a'i gyfraniad dros y blynyddoedd. Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r  
cyfarfod hefyd i Ms Rebecca David Knight. 'Roedd Ms Knight yn cynnal adolygiad o'r  
trefniadau sgrwtini ar draws y Cyngor.

## 1 **YMDDIHEURIADAU**

Fel y nodwyd uchod.

## 2 **DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

## 3 **COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Ebrill, 2016 fel rhai cywir yn amodol ar y canlynol: -

### **Eitem 5 - Cymunedau yn Gyntaf**

Adroddodd y Swyddog Sgriwtni ei fod wedi anfon e-bost at y Sarsiant Non Edwards, Cydlynnydd Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn ynghylch digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Nghaergybi. Rhagwelir y bydd Heddlu Gogledd Cymru yn cydgysylltu â'r Rheolwr Clwstwr ar gyfer Cymunedau'n Gyntaf Môn ynghylch y mater hwn.

## 4 **YMGYNGHORIAD AR SAFLEOEDD SIPSIWN A THEITHWYR YN YNYS MÔN - Y BROSES YMGYNGHORI**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai mewn perthynas â'r uchod.

Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ddarparu safleoedd ar gyfer sipsiwn a theithwyr lle mae angen wedi ei nodi ac i ddarparu digon o safleoedd priodol yn eu Cynllun Datblygu Lleol.

Cynhyrchwyd Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Ynys Môn a Gwynedd 2016 (Yr Asesiad) ar y cyd rhwng Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd, ac fe'i cymeradwywyd gan Bwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn ar 8 Chwefror 2016.

Nododd yr Asesiad newydd yr angen canlynol ar Ynys Môn:

1. Safle preswyl parhaol i gwrdd ag anghenion teithwyr yr oes newydd ar y safle a oddefir yn ffordd Pentraeth;
2. Dau safle i'w defnyddio fel manau aros dros dro ar gyfer sipsiwn a theithwyr ar hyd yr A55, un yng Nghaergybi a'r llall yng nghanol yr Ynys i ddarparu ar gyfer pobl sy'n teithio i Iwerddon ac oddi yno, ynghyd â phobl sy'n teithio o amgylch y Deyrnas Gyfunol yn gyffredinol.

Roedd yr ymarfer ymgynghori yn cynnwys cyfres o gyfarfodydd gyda rhanddeiliaid a chynhaliwyd sesiynau galw i mewn (a fynychwyd gan oddeutu 215 o oedolion); Cyfarfodydd Cynghorau Tref / Cymuned; a mynychodd swyddogion ddau gyfarfod cyhoeddus. Nodwyd yr ystyriwyd safbwyntiau busnesau ar stadau diwydiannol hefyd.

'Roedd y ddogfen ymgynghori gyda mapiau a holiadur ymgynghori ar gael ar wefan y Cyngor ac yn y sesiynau galw i mewn. Anfonwyd copïau at fusnesau, tiffeddianwyr a thenantiaid cyfagos.

Cyflwynwyd Mr Bryn Hall gan y Prif Weithredwr Cynorthwyol. Ef yw'r eiriolwr annibynnol a gyflogir gan Unity, sef sefydliad sy'n arbenigo mewn ymgynghori gyda chymunedau sipiwn a theithwyr. 'Roedd Mr Hall wedi bod yn ymgysylltu â chymunedau teithwyr a sipiwn yn ystod y broses hon, ac mae'r Pwyllgor wedi gofyn am atborth ar y mater.

Crynhodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol y pwyntiau allweddol yn yr adroddiad a'r broses ymgynghori a gynhaliwyd fel a ganlyn: -

- Amlygwyd pwysigrwydd deall cefndir ac anghenion gwahanol sipiwn a theithwyr.
- Ystyriwyd bod yr eiriolwr annibynnol wedi gwella'r cyfathrebu gyda'r gymuned o Deithwyr yr Oes Newydd ar Ffordd Pentraeth, o ran bod yn annibynnol a gwyntyllu eu barn.
- Dylid rhoi gwybod i bobl leol, gan gynnwys ffermwyr, ar unwaith am unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol.
- Mae Uwch Swyddogion a'r Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai wedi gwrandao ar y sylwadau a wnaed mewn cyfarfodydd ac mae gwersi wedi eu dysgu y gellir eu cynnwys mewn prosesau ymgynghori yn y dyfodol.
- Nod y Cyngor yw cynnal ymarfer ymgynghori pellach yn ystod y mis nesaf.

Cododd yr aelodau y materion canlynol: -

- Nid yw'r matrices sgorio yn caniatáu ar gyfer rhoi rhesymau pam mae rhai safleoedd yn anaddas.
- Angen i'r Aelodau fod yn rhan o'r broses ymgynghori o'r cychwyn cyntaf.
- Codwyd cwestiwn ynghylch a oedd yr amserlen ar gyfer adrodd yn ôl ar y broses ymgynghori newydd i'r Cyngor llawn yng nghanol mis Gorffennaf yn rhy uchelgeisiol?  
Ymatebodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol mai un o'r cyfyngiadau oedd y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd gyda Chyngor Gwynedd. Yng ngoleuni hyn, roedd hi'n obeithiol y gellid cwblhau'r gwaith yn awr erbyn diwedd mis Gorffennaf.
- Rhaid rhoi gwybod i'r cyhoedd a busnesau lleol am safleoedd posib cyn gynted ag y bo modd.

Adroddodd y Prif Weithredwr fod llawer o'r gwaith cynllunio wedi ei wneud i baratoi ar gyfer y broses ymgynghori. Mae gan swyddogion wybodaeth ddigonol bellach i gynnal sesiynau ymgynghori mewn gwahanol gymunedau ar yr un nosweithiau.

**PENDERFYNWYD argymell i'r Pwyllgor Gwaith: -**

- **Bod y Pwyllgor yn nodi bod y pryderon a godwyd yn y cyfarfod ym mis Ionawr ynghylch y broses ymgynghori wedi derbyn sylw.**
- **Bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r adroddiad ac yn cytuno bod y Swyddogion yn gweithredu materion a nodwyd i wella ymarferion ymgynghori yn y dyfodol.**

**5. DADANSODDIAD O'R YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD - ARDAL CAERGYBI**

Cyflwynwyd - adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth Tai mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd Rheolwr y Strategaeth Dai a Datblygu fod yr Asesiad a gynhaliwyd yn 2016 o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Gwynedd ac Ynys Môn wedi nodi gwerysilloedd anawdurdodedig yng Nghaergybi, gan greu'r angen am safle aros dros dro.

Canolbwyntiodd y broses ymgynghori ar dri safle: -

- Safle 1 - Plotiau Gwag, Stad Ddiwydiannol Penrhos, Caergybi;
- Safle 2 - Tir yn union i'r dwyrain o B & M, Caergybi;
- Safle 3 - Tir i'r de o Alpoco.

Dywedodd Rheolwr y Strategaeth Dai a Datblygu fod ffactorau arwyddocaol wedi eu hamlygu, a hynny'n dilyn proses ymgynghori drylwyr. 'Roedd y ffactorau hynny'n awgrymu bod y tri safle yn anaddas ar Man Aros Dros Dro i sipsiwn a theithwyr. Adroddodd ymhellach y cynhaliwyd cyfarfodydd gyda Chyngor Tref Caergybi yn ogystal â Chynghorau Cymuned yn y Fali a Threarddur. Dywedodd fod yna dystiolaeth o'r ymarfer ymgynghori fod yr angen i gael safle i sipsiwn a theithwyr yng Nghaergybi yn parhau, a hynny oherwydd y cynnydd yn nifer y teithwyr sy'n mynd drwy'r porthladd.

Cododd yr Aelodau y materion canlynol: -

- Mynegwyd pryder am gymunedau sipsiwn a theithwyr sy'n byw yn lleol, a'r rhagfarnau y maent yn eu hwynebu yn sgil hiliaeth a'r ffaith bod pobl leol yn eu camddeall. Nodwyd bod gan y Cyngor ddyletswydd i leddfu pryderon am ragfarnau ac i atal agweddau hiliol a gododd yn ystod yr ymgynghoriad.



Ymatebodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol nad oedd yr ymateb hwn tuag at sipsiwn a theithwyr yn anarferol, a'i fod yn seiliedig ar gymysgedd o sylwadau dilys, canfyddiadau a rhagfarnau, gan nad yw pob sipsi a theithiwr yn integreiddio i mewn i'r gymuned leol. Bydd yn cymryd amser i oresgyn rhagfarnau ac i ennill ymddiriedaeth. Mae'r teithwyr sipsiwn sy'n aros am noson neu ddwy yng Nghaergybi yn byw yn rhywle arall, ac maent yn ymweld â Chaergybi am gyfnod byr wrth iddynt deithio i Iwerddon; mae'n annhebygol felly y bydd cyfleon yn codi iddynt ddod i adnabod pobl leol, er bod angen i ni barhau i godi ymwybyddiaeth a mynd i'r afael â rhagfarn.

- Nodwyd y byddai angen asesu patrymau teithio rhwng Caergybi ac Iwerddon. Mae cyfrifoldeb ar Stena, sy'n berchen ar lawer o dir yng Nghaergybi, fel awdurdod porthladd, i fod â rhan yn y broses o ddarganfod datrysiad. Bydd y Prif Weithredwr a'r Prif Weithredwr Cynorthwyol yn ceisio cynnal trafodaethau gyda Stena.
- Codwyd cwestiwn ynghylch pam na chafodd y safleoedd yr ystyrir eu bod yn anaddas eu hadnabod fel rhai anaddas yn gynharach. Nodwyd bod y broses wedi dechrau ym mis Ionawr ac 'roedd raid i'r Cyngor lynu wrth yr amserlen ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol.
- Cyfeiriodd Aelodau at y graff sy'n dangos ardal ehangach ar gyfer safle posib y tu allan i ddalgylch tref Caergybi. Cadarnhawyd bod raid i'r safle fod ar goridor yr A55 ac yn agos i Gaergybi.

Cynhelir ymarfer ymgynghori newydd yn y misoedd nesaf i nodi safleoedd addas ar gyfer lle aros dros dro yng Nghaergybi.

**PENDERFYNWYD argymhell i'r Pwyllgor Gwaith ei fod yn cymeradwyo'r 4 argymhelliad a gynhwysir yn yr adroddiad fel y gellir eu gweithredu.**

## **6 DADANSODDIAD O'R YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD – CANOL YR YNYS**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd yr Uwch Swyddog Eiddo (Eiddo) fod dau safle wedi eu hadnabod ar Stad Ddiwydiannol Mona fel rhan o'r broses ymgynghori. Dywedodd y Swyddog fod gweryll anawdurdodedig wedi sefydlu ym Mona yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Nodwyd bod nifer o ffactorau pwysig wedi eu hamlygu o ran iechyd a diogelwch yn ystod y cyfnod ymgynghori, yn bennaf gan y Llu Awyr Brenhinol parthed diogelwch awyrennau a diogelwch personol unigolion sy'n gweryll ar y tir. Cyfeiriodd y Llu Awyr Brenhinol at faterion sy'n ymwneud â thresmasu a sbwriel yn cael eu chwythu o gwmpas a allai achosi damweiniau neu ddifrod i awyrennau.

## **PENDERFYNWYD argymell i'r Pwyllgor Gwaith: -**

- **Bod Pwynt 1 yr adroddiad yn cael ei gyfeirio i'r Pwyllgor Gwaith, h.y. na ddylid bwrw ymlaen gyda'r un o'r ddau safle a gafodd eu cynnwys yn y broses ymgynghori ac na ddylid 'chwaith eu cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol.**
- **Bod pwyntiau 2 a 3 yn cael eu trin fel sylwadau mewn perthynas â'r dasg o nodi safle arall.**

## **7 DADANSODDIAD O'R YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD - ARDAL MENAI**

Cyflwynwyd - adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth Tai mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd yr Uwch Swyddog Cynllunio (Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn) bod angen i'r Cyngor nodi safleoedd sy'n addas i'r pwrpas. Ystyriwyd tir yn y Gaerwen a Phenhesgyn a safle'r gwersyll anawdurdodedig cyfredol ym Mhentraeth fel safleoedd posib, yr oedd angen iddynt fod yn ddigon mawr i gartrefu pedair aelwyd. Nid oedd y safle yn y Gaerwen yn addas oherwydd cost darparu cyflenwad dwr.

Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi dweud nad oes unrhyw broblemau sy'n ymwneud â throstedd ac anhrefn ar y safle ym Mhentraeth. Eu hunig bryder yw materion diogelwch y ffyrdd, os bydd plant yn byw ar y safle.

Cododd yr aelodau y materion canlynol: -

- Mae'r teithwyr wedi dweud y byddai'n well ganddynt aros ar y safle ym Mhentraeth. Roedd yr Aelodau'n bryderus y gallai symud y teithwyr fod yn wastraff arian oni bai eu bod yn fodlon symud i safle newydd.
- Ymatebodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol fod dyletswydd gyfreithiol ar y Cyngor i ddod o hyd i safle addas ar gyfer y teithwyr ac i weithredu mewn ffordd gyfrifol, gan na fyddai'n ddiogel i'w gadael ar y safle ym Mhentraeth.
- Nodwyd bod y safle ym Mhentraeth yn ddatblygiad a oddefir, felly nid oes gan y Cyngor bwerau gorfodi i droi'r teithwyr allan heb baratoi safle addas parhaol yn gyntaf.
- Gofynnwyd cwestiwn ynghylch sut y byddai'r teithwyr yn ymateb i reolau a rheoliadau. Yn seiliedig ar drafodaethau gyda'r teithwyr, 'roedd swyddogion yn teimlo y byddai'r teithwyr yn derbyn y byddai yna reolau ar gyfer safle swyddogol a fyddai'n cael ei fonitro gan y Cyngor, ond ei bod yn bwysig bod y teithwyr yn ymgysylltu'n llawn o ran cytuno'r rheolau gyda'r Cyngor.

Dywedodd yr Eiriolwr Annibynnol ei fod ef a Rheolwr y Strategaeth Dai a Datblygu wedi ymweld â'r teithwyr ym Mhentraeth ac wedi trafod materion gyda nhw. Dywedodd fod y teithwyr wedi cael gwybod am yr ymgynghoriad o adroddiadau papur newydd, a bod ymweliadau gan bobl leol cyn i'r

ymgyngoriad ddechrau wedi eu gofidio, a bod hynny wedi gwneud drwg i'r broses ymgysylltu. Dywedodd ymhellach fod y teithwyr angen sicrwydd gan y Cyngor ac y dylid eu cynnwys yn y broses gynllunio. Cyfeiriodd at y gwaith ymgynghori sydd wedi cael ei wneud a bod sgôp bellach ar gyfer gwella cyfathrebu.

'Rhoddwyd caniatâd i aelodau o'r cyhoedd sef Mr Lawrence Gain, Mr Gareth Morgan, Mr Wyn Jones, Mrs Foulkes a phreswylydd lleol wneud sylwadau yn y cyfarfod ac fe ddaru nhw leisio eu pryderon i'r Pwyllgor.

Pwyntiau a godwyd: -

- Materion lechyd a Diogelwch ynghylch ansawdd aer a llygredd ym Mhenhesgyn;
- Mae angen trafodaethau pellach gyda chymunedau lleol;
- Maint a chost y datblygiad arfaethedig ym Mhenhesgyn;
- Mae'r safle ym Mhentraeth yn flêr;
- Mae mynediad i dir fferm yn gyfyngedig ym Mhentraeth;
- Mae'r Cyngor eisoes yn berchen ar dir yn y Gaerwen.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Nodi'r adroddiad.**
- **Nodi nad oedd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio wedi gwneud argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith mewn perthynas â'r mater hwn oherwydd gwahanol bryderon a fynegwyd yn y cyfarfod.**
- **Bod y penderfyniad yn cael ei wneud gan y Pwyllgor Gwaith yn y man.**

Daeth y cyfarfod i ben am 05:40 pm

**Y CYNGHORYDD DERLWYN R HUGHES  
CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

<b>CYNGOR SIR YNYS MÔN</b>	
<b>Adroddiad i:</b>	Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio Pwyllgor Gwaith
<b>Dyddiad:</b>	19 Gorffennaf 2016 - Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 25 Gorffennaf 2015 Pwyllgor Gwaith
<b>Pwnc:</b>	Ymgynghoriad ar Safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr yn Ynys Môn – Man Aros Dros Dro ar gyfer Canol yr Ynys
<b>Deilydd (ion) Portffolio:</b>	Y Cyngorydd Aled Morris Jones
<b>Pennaeth Gwasanaeth:</b>	Shan L Williams, Pennaeth Gwasanaethau Tai
<b>Awdur yr Adroddiad: Ffôn: E-bost:</b>	Lucy Reynolds, Rheolydd y Strategaeth Dai a Dabtlygu Est2225 lucyreynolds@ynysmon.gov.uk
<b>Aelodau Lleol:</b>	Y Cyng Meirion Jones, Y Cyng Jim Evans, Y Cyng Alun Mummery, Y Cyng Hywel Eifion Jones Y Cyng Victor Hughes, Y Cyng Llinos Medi, Y Cyng Ken Hughes, Y Cyng John Griffith, Y Cyng Bob Parry, Y Cyng Nicola Roberts, Y Cyng Dylan Rees

#### **A - Argymhelliad / Argymhellion a Rheswm / Rhesymau**

**Argymhellion:** wedi dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad a'r ymarferion ar gyfer asesu safleoedd a amlinellir yn yr adroddiad, argymhellir:

1. Y naill neu'r llall o'r 2 safle isod:
  - Safle 1, llain o dir rhwng yr A55/A5 rhwng Llanddaniel a Chroesffordd Star
  - Safle 2, llain o dir mewn mân-ddaliad yn Y Gaerwen

fel y safleoedd a ffeirir i gael eu cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn amodol ar gynnwys argymhelliad 3. Wedi pwysu a mesur, mae swyddogion o'r farn y gellid cynllunio a darparu Safle 1 o fewn amserlen resymol, ond ni fedr roi'r un sicrwydd mewn perthynas â Safle 2.

2. Dylai aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio roi eu barn ynghylch pa un o'r ddau safle yw'r opsiwn a ffeirir ar gyfer ei gynnwys yn y

### Cynllun Datblygu Lleol.

3. Dylai'r cyngor gynnal ymchwiliadau pellach i safleoedd 1 a 2 er mwyn cadarnhau a ydynt yn addas ai peidio. Dylai hyn gynnwys:
  - a) Aseiad o effaith y datblygiad arfaethedig ar yr ardal o gwmpas yr Heneb Gofrestredig sydd gerllaw ac os ystyrir bod yr effaith yn dderbyniol, dylid cynnal archwiliadau archeolegol pellach fel yr argymhellir gan Wasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd i gadarnhau a fyddai'r materion a godwyd gan y gwasanaeth yn gwahardd cynnwys y safle yn y Cynllun Datblygu Lleol.
  - b) Aseiad pellach o unrhyw risgiau i ddiogelwch neu risgiau technegol ar y safle ac ystyried a fyddai modd dylunio'r safle er mwyn datrys y rhain
4. Sylwer: Tir ger yr A5 yn ymyl Fferm Cymunod, Bryngwran, er nad yw wedi cael ei ddiystyru ar sail gynllunio, mae mwy o gyfyngiadau ac ni ddylir symud ymlaen gyda'r safle am faterion diogelwch ffyrdd a nodwyd gan yr angenrheidrwydd i greu mynedfa newydd i'r safle oddi ar yr A5.
5. Dylai CSYM barhau i ddiwallu ei rôl i hyrwyddo cydlyniant cymunedol. Rhaid i hyn sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion y trigolion i deimlo'n ddiogel ac i fod yn rhan o ymgynghoriad ar faterion datblygu a'r gydnabyddiaeth fod gan y Cyngor gyfrifoldebau cyfreithiol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

### **Rhesymau dros yr argymhellion**

Mae swyddogion wedi asesu nifer arwyddocaol o safleoedd amgen ac wedi ystyried canllawiau Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu'r fethodoleg i asesu safleoedd addas posibl. Ystyriwyd mai'r tri safle a gynhwyswyd yn yr ymgynghoriad diweddar oedd y mwyaf addas i gael eu datblygu fel man aros dros dro.

Yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad, cynhaliwyd digwyddiadau Galw Heibio a chyfarfodydd gyda Chynghorau Cymuned yr ardaloedd lle mae'n bosib y bydd y safleoedd yn cael eu lleoli. Trefnodd Cyngor Cymuned Penmynydd a Chyngor Cymuned Bryngwran gyfarfodydd cyhoeddus a daeth cryn dipyn o bobl iddynt. Mynychodd dros 70 o bobl y cyfarfodydd Galw Heibio yn Y Gaerwen a Bryngwran. Cafodd dros 700 o holiaduron eu llenwi ar-lein neu ar bapur. Derbyniwyd 14 o lythyrau mewn perthynas â safleoedd 1-3 gan aelodau o'r cyhoedd neu fusnesau yn ogystal â'r ymatebion gan ymgynghoreion yn y sector cyhoeddus sy'n cael eu cynnwys fel Atodiad. Cyflwynwyd deiseb i'r Cyngor o'r enw "Deiseb yn gwrthwynebu i Gyngor Ynys Môn

leoli safle dros dro ar gyfer Sipsiwn ar dir ger Fferm Cymunod Bryngwran" yn cynnwys 518 o lofnodion. Dylid nodi nad nifer yr ymatebion yw'r ffactor pwysicaf wrth wneud penderfyniad priodol.

Ar gyfer pob un o'r tri safle yn yr ymgynghoriad, daethpwyd ar draws gwrthwynebiad lleol sylweddol yn ystod yr ymgynghoriad er nid oes modd defnyddio hyn fel cyfiawnhad dros beidio â chynnwys safle penodol heb dystiolaeth. Ar hyn o bryd, nid oes safleoedd swyddogol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ar Ynys Môn, felly mae'n ddealladwy bod hwn yn fater sy'n achosi pryder. Mae'r diffyg safleoedd yn ei dro yn rheswm dros y gwerysloedd diawdurdod sy'n achosi tensiynau cymunedol a chanfyddiadau negyddol o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr. Yn anffodus, mewn rhai achosion, roedd y sylwadau a wnaed yn dangos diffyg gwybodaeth am y gymuned Sipsiwn a Theithwyr a'i hanes yn y wlad hon.

Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi cael eu dadansoddi. Mae crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael ei ddarparu yn nes ymlaen yn yr adroddiad. Fodd bynnag, rhaid rhoddi'r pwys mwyaf ar faterion sy'n dangos yn wrthrychol y byddai'r defnydd o safle a nodwyd yn risg corfforol i iechyd a diogelwch preswylwyr neu'r cyhoedd. Yn ogystal, mae'r profiad o'r gwerysloedd diawdurdod presennol a phryderon y gymuned leol mewn perthynas â'r rhain yn tystio i'r ffaith y byddai safle sy'n fwy diarffordd yn lleoliad gwell ar gyfer y math hwn o ddatblygiad. Mae costau sefydlu safle o'r fath yn ffactor o bwys. Mae'r costau amrywiol posibl yn cynnwys caffael tir lle mae'r tir mewn perchnogaeth breifat a chostau creu mynedfa ddiogel i'r briffordd ac unrhyw welliannau angenrheidiol i'r priffyrdd. Ceir cymhariaeth o fanteision ac anfanteision pob safle yn nes ymlaen yn yr adroddiad. Mae'r rhain yn dangos y gellid datblygu pob un o'r 3 safle ond i raddau amrywiol, mae yna gyfyngiadau y dylid ymchwilio iddynt cyn symud ymlaen i gyflwyno cais cynllunio. Yn benodol, mae'r ymateb gan Adran Briffyrdd CSYM yn cadarnhau bod materion ynghylch diogelwch ffyrdd yn ei gwneud yn annhebygol y gellid darparu mynedfa sy'n cwrdd â'r gofynion isaf o safbwynt gwelededd digonol yn Safle 3, Tir ger yr A5 yn ymyl Fferm Cymunod, Bryngwran. Ar sail gronol, mae materion sy'n gysylltiedig â Safle 3 yn fwy arwyddocaol ac o'r herwydd, ystyrir bod y safleoedd eraill yn fwy priodol ar gyfer ymchwilio ymhellach iddynt.

- Mae'r ffactorau o blaid ac yn erbyn y ddau safle sy'n weddill, Safle 2 – Llain o dir mewn mân-ddaliad yn Y Gaerwen a Safle 1, Llain o dir rhwng yr A55/A5 rhwng Llanfairpwll a Chroesfordd Star, yn wahanol iawn, ac yn adlewyrchu gwahanol amgylchiadau a lleoliadau'r 2 safle: Mae mân-ddaliadau Gaerwen ar hyn o bryd yn eiddo i CSYM ac ni fyddai mynediad drwy'r A55 yn effeithio ar bentrefi lleol. Fodd bynnag, rhaid cymryd i ystyriaeth ei agosrwydd at y Parc

Gwyddoniaeth. Er bod Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd wedi nodi Cyfyngiad o Bwys, nid yw hyn yn golygu bod rhaid diystyru'r safle oherwydd, gydag ymchwiliadau archeolegol ynghyd ag ystyriaeth ofalus i ddyluniad y safle, gellid mynd i'r afael â'r pryderon hyn.

- Mae yna lai o bryderon datblygu economaidd a thechnegol mewn perthynas â'r safle yng Nghroesffordd Star. Fodd bynnag, byddai costau ychwanegol ynghlwm oherwydd yr angen i brynu dau ddarn o dir ar wahân gan ddau berchennog.

Wedi pwysu a mesur, mae swyddogion o'r farn y gellid cynllunio a datblygu Safle 1 – Llain o dir rhwng yr A55/A5 rhwng Llanfairpwll a Chroesffordd Star i greu safle addas o fewn cyfnod rhesymol o amser, ac mae llai o sicrwydd y gellid gwneud hynny yn achos safle'r Gaerwen herwydd yr angen am ychwaneg o ymchwiliadau archeolegol.

Yn ystod yr ymgynghoriad, rydym wedi clywed gan nifer o fusnesau sydd â phryderon ynghylch yr effaith ar breimiymau yswiriant sydd, yn ôl eu dealltwriaeth nhw, yn debygol o gynyddu os bydd safle Sipsiwn a Theithwyr awdurdodedig wedi ei leoli gerllaw. Rydym wedi dwyn y pryder hwn i sylw Llywodraeth Cymru gan fod hyn yn debygol o fod yn berthnasol i bob safle Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru a byddai yr un mor berthnasol i fusnesau yng nghyffiniau unrhyw un o'r tri safle arfaethedig. Yn Argraffiad 8 o Bolisi Cynllunio Cymru (2016), nodir polisiâu cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru. Ni fyddai cynnydd mewn premiymau yswiriant ynddo'i hun yn ffactor ac yn ystyriaeth o bwys y gallai'r Awdurdod Cynllunio ei ystyried wrth benderfynu ar gais cynllunio arfaethedig.

### **Cefndir**

Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ddarparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr lle mae angen wedi'i nodi. Mae'r Fframwaith *'Teithio at Ddyfodol Gwell'* gan Lywodraeth Cymru yn disgrifio Sipsiwn a Theithwyr fel un o'r grwpiau mwyaf eithriedig ac ymylol yn y gymdeithas. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i roi sylw i'r anghydraddoldebau y mae Sipsiwn a Theithwyr yn eu hwynebu drwy wella cyfle cyfartal i bawb.

Mae Asesiad Statudol Ynys Môn a Gwynedd o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr 2016, a gynhaliwyd yn unol â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru ar gyfer cynnal Asesiadau Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr, wedi nodi'r angen am safleoedd parhaol a safleoedd dros dro yn ardaloedd y ddau awdurdod lleol.

Yn yr asesiad statudol ar gyfer Ynys Môn a gynhaliwyd yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru, nodwyd bod angen dau o fannau aros dros dro

- Un Man Aros Dros Dro i gwrdd ag anghenion Sipsiwn a Theithwyr sy'n gweryslla



am ychydig o nosweithiau ar i ffordd borthladd Caergybi ac oddi yno.

- Un Man Aros Dros Dro i gwrdd ag anghenion Sipsiwn a Theithwyr sydd â phatrwm traddodiadol o wersylla am gyfnodau o hyd at nifer o wythnosau yng nghanol Ynys Môn

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r ymgynghoriad a gynhaliwyd ar dri safle a allai ddarparu Man Aros Dros Dro yng nghanol Ynys Môn.

Yn ystod y broses ymgynghori, mae'r Cyngor wedi sefydlu cysylltiadau newydd gydag aelodau o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr sydd naill ai wedi bod yn gwersylla ym Mona yn y gorffennol neu sydd yn adnabod Teithwyr sy'n aros ar Ynys Môn. Yn ôl yr adborth a gafwyd gan y cysylltiadau hyn, maent o'r farn y dylai safle dros dro fod yn debyg i'r math o ddarpariaeth a wneir ar gyfer y Sipsiwn a Theithwyr sy'n gwersylla yng nghanol Ynys Môn. Mae safleoedd tramwy yn gyfleusterau parhaol sydd wedi eu dylunio ar gyfer eu defnyddio am gyfnodau dros dro gan y Sipsiwn a Theithwyr sy'n aros yno. Caniateir i ddeiliaid unigol fyw ar y safle am uchafswm o 3 mis ar y tro. Mae hon yn farn newydd sydd wedi dod i'r amlwg ers yr Asesiad o Lety i Sipsiwn a Theithwyr a gynhaliwyd yn 2015. Yn seiliedig ar ein dadansoddiad o batrymau, gan gynnwys sgysiau diweddar gyda rhai'r sy'n aros yn y gwersyll anawdurdodedig ar Stad Ddiwydiannol Mona, rydym yn glir mai safle lle gellir aros am gyfnodau byr o 2 neu 3 wythnos ar y tro sydd ei angen. Er ein bod yn gwerthfawrogi pryderon Sipsiwn a Theithwyr am gael eu troi allan os ydynt yn aros am fwy na'r cyfnod a ganiateir, nid ydym wedi gweld tystiolaeth eu bod yn aros am fwy na 3 wythnos mewn amgylchiadau arferol.

### **Cyfiawnhad dros ffafrio Safle 1 neu Safle 2 fel y safle a ffefrir ar gyfer ei gynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn amodol ar asesiad technegol perthnasol pellach o bob safle**

Mae'r tablau canlynol yn crynhoi manteision ac anfanteision pob safle

#### Safle 1 - Llain o dir rhwng yr A55 / A5 rhwng Llanfairpwll a Chroesffordd Star

<b>Manteision</b>	<b>Anfanteision</b>
<ul style="list-style-type: none"><li>• Mae yma'r cysylltiadau ffordd sy'n angenrheidiol ar gyfer man aros dros dro (h.y. Mynediad uniongyrchol at yr A5 a mynediad rhwydd i'r A55)</li><li>• Mae'r safle yn ffisegol addas fel lleoliad ar gyfer man aros dros dro (os yw'n cael ei gyfyngu i ddau yn hytrach na thri chae er mwyn sicrhau)</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Mae'r safle wrth ymyl ffordd brysur. Dim llwybr troed i mewn i'r ganolfan gwasanaeth agosaf.</li><li>• Gellir sicrhau mynediad diogel i'r A5 o'r safle ond byddai'n rhaid lledu'r llain gwelededd. Byddai angen adroddiadau technegol a dichonoldeb pellach.</li><li>• Mae peth o'r tir a nodwyd yn yr ymgynghoriad yn y parth risg llifogydd</li></ul>

<p>nad yw unrhyw dir sydd mewn perygl o lifogydd yn cael ei gynnwys)</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nid yw'r safle union gerllaw eiddo preswyl gan sicrhau y diogelir preifatrwydd trigolion lleol a defnyddwyr y safle</li> <li>• Nid yw Adain Datblygu Economaidd CSYM yn rhagweld unrhyw broblemau mewn perthynas â'r safle hwn ac yn ei gefnogi mewn egwyddor</li> </ul>	<p>er bod digon o dir ar gael heb orfod defnyddio'r rhan honno o'r tir</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gan fod y safle mewn perchenogaeth breifat, byddai'n golygu costau caffael i'r Cyngor</li> <li>• Pryderon lleol y bydd ddau safle ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu lleoli yn yr un ward. (Mae'r Cyngor wedi dewis tir ym Mhenhesgyn i'w gynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd i ddarparu safle parhaol ar gyfer pedair o aelwydydd Teithwyr Newydd)</li> </ul>
--	--

Safle 2 - Darn o dir mewn mân-ddaliad yn Y Gaerwen

<b>Manteision</b>	<b>Anfanteision</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r safle'n ddigon pell oddi wrth eiddo preswyl i ddiogelu preifatrwydd trigolion lleol a defnyddwyr y safle</li> <li>• Mynediad da i'r A55 ar gyfer carafanau heb i hynny gael effaith ar y gymuned leol.</li> <li>• Mae'r tir yn eiddo i'r Cyngor ac ni fyddai unrhyw gostau caffael tir.</li> <li>• Gellir darparu mynedfa newydd o'r safle i ffordd dawel heb broblemau technegol sylweddol.</li> <li>• Mae lleoliad y safle yn golygu y byddai'n darparu amgylchedd diogel ar gyfer y grwpiau o deulu sydd fel arfer yn defnyddio mannau aros dros dro</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddai angen ymchwiliadau archeolegol fesul cam pellach i sicrhau y gellid symud ymlaen gyda'r safle hwn yn ei flaen heb i hynny effeithio ar heneb gofrestrdig ac ardal a allai fod yn un o bwysigrwydd archeolegol cenedlaethol</li> <li>• Mae'r Parc Gwyddoniaeth yn cael ei ddatblygu yn y Gaerwen. Mynegwyd pryderon y byddai sefydlu man aros dros dro yn y lleoliad arfaethedig yn lleihau apêl y parc gwyddoniaeth a gallai gyfyngu mynediad cyhoeddus i'r Parc.</li> <li>• Byddai effaith weledol y safle pan yn cael ei ddefnyddio yn fwy nag ar gyfer y safleoedd eraill oherwydd ei fod ar dir uchel.</li> </ul>

### Safle 3 - Tir ger yr A5 yn ymyl Fferm Cymonod, Bryngwran


<b>Manteision</b>	<b>Anfanteision</b>
<ul style="list-style-type: none"><li>• Mae ganddo'r cysylltiadau ffordd angenrheidiol ar gyfer man aros dros dro (h.y. Mynediad uniongyrchol i'r A5 a mynediad rhwydd i'r A55)</li><li>• Nid yw'r safle union gerllaw eiddo preswyl gan sicrhau y diogelir preifatrwydd trigolion lleol a defnyddwyr y safle</li><li>• Mae'r safle yn ffisegol addas fel lleoliad ar gyfer man aros dros dro.</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Mae'r fynedfa bresennol i'r tir yn is-safonol o ran gwelededd. Gellid creu mynedfa newydd i'r A5 ond mae yna faterion diogelwch ffyrdd sy'n golygu y byddai'n annhebygol y byddai modd creu mynedfa sy'n cwrdd â'r gofynion isaf. Mae hyn oherwydd y cyfyngir ar welededd oherwydd gelltydd a phantiau dall ar rannau o'r A5.</li><li>• Gan fod y safle mewn perchenogaeth breifat byddai'n golygu caffael i'r Cyngor.</li><li>• Mae gan adain Datblygu Economaidd CSYM bryderon y gallai lleoliad y safle hwn effeithio'r busnesau gwerth uchel sy'n agos iawn a'r cyfleuster Parcio a Theithio posibl ar gyfer Wylfa Newydd.</li></ul>

### **Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad**

#### **Safle 1 - Llain o dir rhwng yr A55 / A5 rhwng Llanfairpwll a Chroesffordd Star**

Cafwyd sylwadau mewn 538 o holiaduron mewn perthynas â'r safle hwn. Yn ogystal, cafwyd 4 llythyr gan aelodau o'r cyhoedd neu fusnesau yn ogystal ag ymatebion gan gyrff cyhoeddus.

Mae'r graff canlynol yn dangos y ganran o ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau ar y safle hwn dan y categorïau Addas iawn, Derbyniol neu Anaddas.



Dyma'r pum mater a grybwyllwyd amlaf fel rhesymau pam nad oedd y safle yn addas:

Rhy agos at ffordd brysur beryglus heb unrhyw lwybrau troed i mewn i bentrefi cyfagos, pryderon am ddiogelwch teithwyr

Gallai'r safle fod yn ddolur llygad ac effeithio ar dwristiaeth yn yr ardal

Mae'r safle mewn ardal lle mae perygl llifogydd ac yn dueddol o gael llifogydd yn y gaeaf

Ofnau y byddai mwy o droseddu yn yr ardal

Yn rhy agos at ardal breswyl (byddai preswylwyr yn teimlo'n anniogel)

Roedd y rhesymau a nodwyd ar gyfer cefnogi'r safle yn cynnwys


Hwylus ac yn agos at yr A55

Ddim yn agos at ysgol neu dai

### Safle 2 - Darn o dir mewn mân-ddaliad yn Y Gaerwen

Cafwyd sylwadau mewn 508 o holiaduron ar y safle hwn. Derbyniwyd 1 llythyr hefyd oddi wrth berchennog busnes yn ychwanegol at ymatebion gan gyrrff cyhoeddus

Mae'r graff canlynol yn dangos y nifer o ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau ar y safle hwn dan y categorïau Addas iawn, Derbyniol neu Anaddas.



Dyma'r pum mater a grybwyllwyd amlaf fel rhesymau pam nad oedd y safle yn addas:

Gallai gael effaith negyddol ar y parc gwyddoniaeth arfaethedig
Ofnau y bydd trosedd yn yr ardal yn cynyddu
Mae'r ffyrdd yn rhy gul a phrysur, pryderon am ddiogelwch teithwyr
Gallai'r safle fod yn ddolur llygad ac effeithio twristiaeth yn yr ardal
Ardal o harddwch naturiol eithriadol a thir ffermio na ddylid ei ddefnyddio
Rhy agos at ardal breswyl (ni fyddai'r trigolion yn teimlo'n ddiogel)


Roedd y materion a grybwyllwyd dros gefnogi'r safle yn cynnwys:

Hwylus ac yn agos at yr A55
Ddim yn rhy agos at ardaloedd preswyl
Y tir yn eiddo i'r Cyngor
Ddim yn agos at ysgol / meithrinfa

### **Safle 3 Tir ger yr A5 yn ymyl Fferm Cymunod, Bryngwran**

Cafwyd sylwadau mewn 524 o holiaduron ar y wefan hon. Cafwyd 9 llythyr hefyd oddi wrth aelodau o'r cyhoedd neu fusnesau yn ogystal ag ymatebion gan gyrff cyhoeddus.

Mae'r graff canlynol yn dangos y nifer o ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau ar y safle hwn dan y categorïau Addas, Derbyniol neu Anaddas.



Y pum mater a grybwyllwyd amlaf fel rhesymau pam nad oedd y safle yn addas:

Ofnau y byddai mwy o droseddu yn yr ardal

Ffordd yn brysur a mynediad i'r safle wrth gyffordd ddall, pryderon am ddiogelwch teithwyr

Effaith negyddol ar yr amgylchedd (sbwriel, sŵn, anifeiliaid yn crwydro) ac iechyd a diogelwch defnyddwyr y ffyrdd

Effaith negyddol ar fusnesau lleol

Yn rhy agos at ardal breswyl (byddai preswylwyr yn teimlo'n anniogel)

Roedd y rhesymau a grybwyllwyd yn cefnogi'r safle yn cynnwys

Ddim yn rhy agos at y pentref / ardaloedd preswyl

Hwylus ac yn agos at yr A55

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Gweler Adroddiadau a chofnodion Pwyllgor Gwaith y Cyngor a gynhaliwyd ar 31 Mai, 2016.

**C - Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr lle mae angen wedi'i nodi.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Amherthnasol

<b>DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?</b>		<b>Beth oedd eu sylwadau?</b>
1	<b>Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)</b> (Gorfodol)	
2	<b>Cyllid / Adran 151</b> (Gorfodol)	
3	<b>Swyddog Cyfreithiol / Monitro</b> (Gorfodol)	
4	<b>Adnoddau Dynol (AD)</b>	
5	<b>Eiddo</b>	Mae Adran Eiddo CSYM wedi bod yn ymwneud yn agos â'r holl broses o nodi safleoedd.
6	<b>Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)</b>	
7	<b>Sgriwtini</b>	



<b>8</b>	<b>Aelodau lleol</b>	Mae'r holl Aelodau Lleol wedi cael y cyfle i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad
<b>9</b>	<b>Unrhyw gyrff allanol / arall (eraill)</b>	Heddlu Gogledd cymru Cyfoeth Naturiol Cymru Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd Cyngor Cymuned Bodedern Cyngor Cymuned Llanfihangelesceifiog Prifysgol Bangor SPARC Adrannau CSYM: Adain Briffyrdd Adain Ddraenio Adran Reoleiddio (Datblygu Economaidd, Cynllunio, Iechyd yr Amgylchedd)

<b>E - Risgiau ac unrhyw gamau liniaru (os yn berthnasol)</b>		
<b>1</b>	<b>Economaidd</b>	
<b>2</b>	<b>Gwrth-dlodi</b>	
<b>3</b>	<b>Trosedd ac Anhrefn</b>	Gweler Atodiad – Ebst gan Heddlu Gogledd Cymru
<b>4</b>	<b>Amgylcheddol</b>	
<b>5</b>	<b>Cydraddoldebau</b>	Mae'r adroddiad yn cydnabod bod rhaid i'r Cyngor, wrth nodi safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, fod yn ymwybodol o'i ddyletswyddau dan Ddeddf Cydraddoldebau 2010, a rhaid iddo gymryd camau cadarnhaol i hyrwyddo cydlyniant cymunedol ac atal gwahaniaethu, aflonyddu, neu erlid Sipsiwn a Theithwyr sy'n grŵp a ddiogelir dan y Ddeddf.
<b>6</b>	<b>Cytundebau Canlyniadau</b>	
<b>7</b>	<b>arall</b>	Risgiau y bydd hyn yn peri oedi o ran mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd sy'n esblygu.  Risg i enw da'r Cyngor.

<b>F - Atodiadau:</b>	
Llythyrau oddi wrth:	

Heddlu Gogledd Cymru  
Adnoddau Naturiol Cymru  
Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd  
Adain Priffyrdd  
Adain Ddraenio  
Adran Rheoleiddio  
Cyngor Cymuned Bodedern  
Cyngor Cymuned Llanfihangelesceifiog  
Prifysgol Bangor  
SPARC  
Dwr Cymru  
Rhestr hir o safleoedd

**Papurau cefndir (cysylltwch â'r awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach) - FF:**

1. Dogfen Ymgynghori, Ymgynghori ar safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr ar Ynys Môn, Chwefror 2016.
2. Aseiad Gwynedd ac Ynys Môn o Lety i Sipsiwn a Theithwyr Chwefror 2016 Pwyllgor Gwaith 08/02/16 a'r Pwyllgor Partneriaeth a Datblygu Economaidd 02/02/16.
3. Cyflwyniad a chofnodion Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn dyddiedig 20/11/15 'Diwallu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr yn y Cynllun'.
4. Dogfen Ymgynghori, Ymgynghori ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr ar Ynys Môn, Mehefin -1<sup>af</sup> Gorffennaf, Papurau Pwnc 2016.
5. Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd, Adroddiadau i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd 29/01/2016
6. Adroddiad Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd: Adroddiad Pwnc 18A Nodi Safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr - diweddariad 2016
7. Rhestr hir o safleoedd a nodwyd gan Swyddogion Cyngor Sir Ynys Môn

sent from my iPad

origin forwarded message:

**From:** "Harrison, Nigel S (T/Chief Superintendent 1710)" <Nigel.Harrison@northwales.pnn.police.uk>  
**Date:** 20 June 2016 at 11:58:37 BST  
**To:** "Caroline Turner (CarolineTurner@ynysmon.gov.uk)" <CarolineTurner@ynysmon.gov.uk>  
**Subject:** Temporary Stopping Places for Gypsies and Travellers on Anglesey'

Caroline

Below I have annotated North Wales Police response to the Consultation on 'Temporary Stopping Places for Gypsies and Travellers on Anglesey'. The geographical suitability or not of each proposed location is something that is not one for the police to comment on without supporting evidence. However we make the general points about all and some are duplicated from our previous comments on proposed permanent sites

- We recognise the need for Temporary Stopping Places (TSP) on Anglesey and from our records it would indicate hitherto unregulated TSPs have been apparent along the A55 corridor most prevalent in and around Mona and Holyhead.
- When entering the planning phase that our Community Safety department is given the opportunity to pass comment on the design to seek to minimise the risk of Crime and Disorder.
- We would also be keen that the TSPs do not expand and/or become permanent sites. The areas of land identified in some of the proposals are fairly large so limiting size will be required to prevent unexpected expansion. To this end we need to understand how the time limitations and numbers of individuals attending is going to be managed.
- We seek to be sighted on any management plans put in place for the chosen sites. We are specifically interested in what out of hours provision will be provided by the Local Authority to enable good management of these locations?
- We note a number of the sites are adjacent to either A5 and / or A55 as such Child Safety will need to form part of any risk assessment to prevent egression onto these fast roads.

Nigel Harrison  
Prif Uwcharolygydd Dros Dro - T / Chief Superintendent  
Estyniad/Extension: 24440  
Llinell Union/Direct Line: 01407 724440





**Cyfoeth  
Naturiol  
Cymru  
Natural  
Resources  
Wales**

Ein cyf/Our ref: CAS-19851-H4T5  
Eich cyf/Your ref:

Llwyn Brain,  
Ffordd Penlan,  
Parc Menai,  
Bangor,  
Gwynedd.  
LL57 4DE

Ebost/Email:  
[angharad.crump@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:angharad.crump@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)  
Ffôn/Phone: 03000 655 232

Mr Mike Evans,  
Uwch Swyddog Cynllunio,  
Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd  
(Gwynedd a Mon)

13/06/2016

Dear Mr Evans,

### **Possible Temporary Stopping Places for Gypsy Traveller for Assessment**

Thank you for consulting Natural Resources Wales (NRW) with regards to the above.

Please note that our comments are without prejudice to any comments we may wish to make when consulted on any subsequent strategy consultations or formal planning application/environmental permit application. At the time of any other consultation there may be new information available which we will need to take into account in making a formal response.

We have specific comments for each site below. In addition please refer to the 'Advisory comments' section at the end of the detailed comment that are applicable for each site.

#### **Site 1 – Strip of land between A55 / A5 between Llanfairpwll and Star Crossroads**

##### *- Flood Risk*

Part of this site is within zone C2 as per the Development Advice Maps accompanying TAN15: development & Flood Risk. The TAN suggests that highly vulnerable developments should not be permitted within a C2 zone. Your authority should refer to Section 6 of the TAN along with the *Dear Chief Planning Officers* letter from Welsh Government (<http://gov.wales/topics/planning/policy/dear-cpo-letters/flood-risk-and-insurance-changes/?lang=en>) which reinforces planning policy on flood risk along with what is required to be acceptable for highly vulnerable developments and flood risk.

This area has been subject to flooding previously from the adjacent Afon Braint; our flood zone maps indicate that part of the site is within zone 2 & 3. Our flood zone maps are based on a nationalised modelling technique.

We would suggest that should you be able to justify the location of the development (as per section 6 of the TAN), then detailed hydrology and hydraulic modelling should be carried out to establish the actual flood risk. The hydrology must include the catchment as a whole which will include a watercourse diverted to accommodate the construction of the A55 trunk road at this location. The hydraulic modelling should include various flood event scenarios with sensitivity testing along with blockage scenarios on various culvert (railway culvert, A5 and the A55 culvert).

- *Main River*

This site runs adjacent to the Afon Brain, a main river. We would expect any formal application to include suitable pollution prevention measures and be agreed with Natural Resources Wales to ensure no contamination of the watercourse.

We advise that a flood risk activity permit may be required from as the work is to take near a main river. We can advise further on this matter should the proposed site be progressed and a FCA provided for our review.

- *Aquifers Typology*

This site is located within the Central Anglesey Shear Zone and Berw Shear Bedrock Topology Secondary B Aquifer.

Secondary Aquifers are rocks that can provide modest amounts of water, but the nature of the rock or the aquifer's structure limits their use. They support water supplies at a local rather than strategic scale (such as for private supplies) and remain important for rivers, wetlands and lakes. They have a wide range of water permeability and storage.

**Dylan Roberts  
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Eiddo a Champws**

**PRIFYSGOL BANGOR  
ADEILAD FFRIDDOEDD,  
HEOL VICTORIA,  
BANGOR, GWYNEDD  
LL57 2EN, UK**


FFÔN: (01248) 382775  
FFACS: (01248) 383501

**BANGOR UNIVERSITY  
FFRIDDOEDD BUILDING,  
VICTORIA DRIVE,  
BANGOR, GWYNEDD  
LL57 2EN, UK**

TEL: (01248) 382775  
FAX: (01248) 383501

**DYLAN ROBERTS, BSc BArch RIBA  
CYFARWYDDWR GWASANAETHAU EIDDO  
A CHAMPWS  
DIRECTOR OF PROPERTY AND CAMPUS  
SERVICES**






Cwmni Prifysgol Bangor  
A Bangor University Company

Y Ganolfan Reolaeth  
Pfordd y Coleg  
BANGOR  
Gwynedd  
LL57 2DG  
01248 382175

[www.m-sparc.com](http://www.m-sparc.com)

14 Mehefin 2016

Rheolwr Strategaeth a Datblygu Tai  
Cyngor Sir Ynys Môn  
Swyddfeydd y Cyngor  
Llangefni  
Ynys Môn  
LL77 7TW



### YMGYNGHORIAD SAFLEOEDD SIPSIWN A THEITHWYR YN YNYS MÔN

Fe gofiwch i ni gysylltu â chwi ym mis Mawrth eleni i ymateb i ymgynghoriad y Cyngor ar y cynnig i sefydlu parc parhaol i sipsiwn a theithwyr ar dir yn eich meddiant yn y Gaerwen. Yn dilyn yr ymgynghoriad penderfynodd y Cyngor i beidio mynd ymlaen a'r cynnig hwnnw.

Erbyn hyn fodd bynnag mae'r Cyngor wedi cyhoeddi ymgynghoriad pellach, y tro hwn ar gyfer Mannau Stopio Dros Dro, ac mae safle'r Gaerwen (safle 2) yn un o'r safleoedd yr ymgynghorir arnynt. 'Rydym yn hynod o siomedig fod y safle yma wedi'i chynnwys unwaith yn rhagor. Er mai safle dros dro sydd yn cael ei gynnig y tro hwn, mae'r rhesymau a roddwyd gennym dros wrthwynebu'r safle y tro cyntaf yr un mor ddilys.

Sylwn fod y ddogfen ymgynghorol yn cyfeirio at yr angen ar gyfer safle i 15 o garafanau (2.2.1) Nid yw'n glir o gwbl beth a olygir gan safle 'dros dro'. Yng nghymal 3, o dan y pennawd 'Mannau Stopio Dros Dro, cyfeirir at deithwyr yn aros am gyfnod byr a fydd ddim mwy na 28 diwrnod. Yng nghymal 4.2 cyfeirir at deithwyr sy'n codi gwerylloedd am 'nifer o wythnosau'. Ac yna yng nghymal 5.1.7 cyfeirir at y bwriad i ganiatáu i'r teithwyr aros at hyd at bythefnos mewn cyfnod o 4 mis-sef uchafswm o 6 wythnos mewn blwyddyn. Yn ein barn ni mae'r amwystr hwn yn taflu cysgod dros yr ymgynghoriad am nad ydyni yn gwybod i sicrwydd faint o ddefnydd a wneir o'r safle.

Yn ein llythyr gwreiddiol cyfeiriasom at statws gynllunio'r safle fel a ganlyn:-

**Pan oeddem yn ystyried safle yn y Gaerwen yn wreiddiol, 'roeddem wedi gofyn i'r Cyngor Sir roi ystyriaeth i'r tir sy'n awr yn cael ei ystyried fel safle parhaol ar gyfer teithwyr a sipsiwn. Fe'i gwnaed yn ddigon clir i ni gan swyddogion cynllunio'r cyngor na fyddai modd sicrhau caniatâd cynllunio ar y safle, gan ei fod yn rhy bell o anheddiad y pentref. Yn wir y Cyngor a'n cyfeiriodd ni i'n safle presennol gan ddweud ei bod yn fwy addas ar gyfer ei ddatblygu. Syndod o'r mwyaf felly oedd deall fod y cyngor (cymal 4.1 yn y ddogfen ymgynghori) yn rhagweld y gallai'r safle 'nawr fod yn dderbiniol o safbwynt cynllunio.**

Credwn fod yr un rhesymau'n bodoli yn achos safle dros dro. Yn ychwanegu at y rhesymau uchod, gellid ychwanegu fod y safle mewn lle amlwg ar y tirwedd.

Bydd adran Datblygu Economaidd ac Eiddo'r Cyngor yn ymwybodol ein bod wedi ystyried tri safle ar yr ynys cyn penderfynu ar safle M-SParc, gan gynnwys safleoedd Tŷ Mawr yn Llanfairpwll a Lledwigan yn Llangefni. Un o'r rhesymau y penderfynwyd ar safle Cefn Du oedd y ffaith ein bod yn hyderus, bryd hynny, y gallem ddatblygu ein prosiect ar leoliad ple gellid sefydlu 'ethos' angenrheidiol parc Gwyddoniaeth; sef sicrhau safle agored mewn lleoliad parcedir a fyddai'n denu buddsoddwyr sylweddol. 'Roeddem wedi ceisio sicrwydd na fyddai datblygiad arall yn y cylch a fyddai'n amharu neu yn andwyol i'n bwriad ac fe gawsom y sicrwydd hynny.

Yr ofn mawr yw y bydd hi nawr yn anoddach i ddenu'r buddsoddwyr sylweddol os oes safle sipsiwn a theithwyr yn gyfagos, gan fod ardal wledig a thawel yn ddeniadol iddynt o ran diogelwch. Byddid yn niweidio'r apêl yn sylweddol pe sefydlid safle preswyl parhaol neu dros dro gerllaw.

Yr ydym ar adeg gritigol yn natblygiad y parc o safbwynt y gwaith sydd angen ei wneud ar y fynedfa a'r tirlun. Yr ydym yn awyddus iawn i wneud y parc mor agored â phosibl i'r gymuned leol, a chreu llwybr cerdded o'r pentref i'r safle yn ogystal â llecynnau i eistedd a chael gardd fechan. Yr ydym yn ogystal wedi dod i ddealltwriaeth ynglŷn â'r lefel o ddiogelwch fydd angen ar y safle. Byddai cael safle mor agos i'r datblygiad yn ein gorfodi i ail feddwl ar lefelau diogelwch a pha mor agored y gallai'r safle fod. Byddai cyfyngu ar allu'r gymuned i ddod i'r safle yn ergyd drom i ni ac i'r gymuned leol.

Dyma ein hymateb i'r pwyntiau â nodir yng nghymal 6 o'r ymgynghoriad:-

**Perchenogaeth ac Argaeledd:** Synnwn fod y Cyngor yn rhoi cymaint o bwyslais ar y ffaith fod yr eiddo hwn ym mherchenogaeth y Cyngor. Addasrwydd y safle ddylai fod y ffactor pwysicaf, nid pwy yw'r perchennog.

**Amgylchedd:** Synnwn fod y Cyngor yn dweud 'efallai y bydd sŵn traffig o'r A55 yn broblem.' Mi fydd sŵn traffig yn broblem gan fod y safle yn union uwchben yr A55. Byddai angen gwaith sgrinio costus i leddfu problem sŵn.

**Hygyrchedd:** Deallir fod angen i'r safle fod yn agos at siop a chyfleusterau (1.6.3). Mae'n safle anhygyrch a pheryglus i gerddwyr gan fod yn rhaid croesi'r A55 gan ddefnyddio pont uwchben ac nid oes palmant am ddarn go helaeth o'r ffordd i gyrraedd chyfleusterau ym mhentref y Gaerwen. Ni ellir cael mynediad i drafndiaeth gyhoeddus heb wneud yr un daith gerdded.

**Defnydd Cyfagos:** mae'r cyngor yn honi fod safle'r Parc Gwyddoniaeth rai cannoedd o fetrau i ffwrdd. Nid yw hynny yn ffeithiol gywir. Yr unig ffordd i gael mynediad i'r chyfleusterau yn y Gaerwen ydi heibio i brif fynedfa'r Parc ac ar hyd y palmant i'r pentref lle mae'r llwybr cerdded arfaethedig i'r parc i'w leoli. Y tebygrwydd yw y bydd ffordd a llwybrau'r parc yn cael eu defnyddio fel llwybr byr i'r pentref. Byddai'n siomedig gweld safle dros dro ger safle parth menter ddynodedig.

Fel o'r blaen mae M-SParc yn gwrthwynebu'r bwriad i sefydlu safle dros dro yn y Gaerwen yn gryf. Yn ein barn ni, mi fyddai yn cael effaith andwyol ar ein bwriad i sefydlu Parc Gwyddoniaeth lwyddiannus, ac yn ei gwneud hi bron yn amhosibl i ddatblygu'r 'ethos'. Byddai sefydlu safle mor agos yn gostwng pris safle'r Parc yn sylweddol, ac mae perygl gwirioneddol y byddai'n rhaid i'ni ail-ystyried ein cynlluniau ar gyfer y safle.

Edrychwn ymlaen at glywed gennych mewn ymateb i'n sylwadau.

Yn gywir



**Yr Athro John G Hughes PhD FBCS FLSW**  
Cadeirydd Parc Gwyddoniaeth Menai Cyf.



**Ieuan Wyn Jones LL.B.**  
Cyfarwyddwr Gweithredol Parc Gwyddoniaeth Menai Cyf



## **APPENDIX 11**

### **EMAIL FROM DWR CYMRU**

**From:** Griffiths Dewi [<mailto:Dewi.Griffiths@dwrwymru.com>]

**Sent:** 16 June 2016 11:01

**To:** Evans John Michael (Rh-CTGC)

**Subject:** Anglesey Consultation June 2016

Dear Mr Evans

Please find Welsh Water's representation on the June 2016 consultation on Temporary Stopping Places for Gypsies and Travellers. I have also submitted these comments via the online questionnaire.

#### **Temporary stopping place, centre of Anglesey:**

##### Site 1 – A5/A55 Star/Llanfair PG

- 90mm & 9" water main nearby. No issues with water supply.
- 150mm sewer approx. 70 metres to the west of the site.
- No issues in accepting the flows at Llanfairpwll WwTW.

##### Site 2 – A5/A55 Gaerwen

- Closest water main is approx. 500 metres away in Gaerwen on the other side of A55. Welsh Water would not support the laying of new water mains across the A55. Alternative water main located 700 metres to the north of the site, new water mains would be needed to make a connection.
- Closest public sewers approx. 750 metres away, in Gaerwen, on the other side of the A55 therefore non-mains sewerage would be required.

##### Site 3 – Adjacent A5 Bryngwran

- 12" water supply nearby. No issues with water supply.
- Closest public sewers approx. 800 metres away therefore non-mains sewerage would be required.

#### **Temporary stopping place, Holyhead:**

##### Site 4 – Off Cyttir Road, Holyhead

- 110mm water main nearby. No issues with water supply.
- 150mm sewer approx. 120 metres north-west of the site.
- No issues in accepting the flows at Holyhead WwTW.

##### Site 5 – Tyddyn Lantern Farm, Holyhead

- 110mm water main nearby. No issues with water supply.
- 1800mm sewer located just outside the site.
- Rising main sewer crossing the site near its southern boundary. Welsh Water has rights of access to its assets at all times. Where we have sewers/water mains crossing sites then protection measures in respect of these assets will be required, usually in the form of an easement width or in some instances a diversion of the asset.
- No issues in accepting the flows at Holyhead WwTW.

The following points are applicable to all sites:

- Where there are no public sewerage facilities available in close proximity to sites the use of non-mains sewerage may be required. In such cases the provisions of Circular 10/99 “Planning Requirement in respect of the Use of Non-Mains Sewerage in New Development” apply and consultation with Natural Resources Wales would be required.
- Water mains and/or sewerage required for any potential development can be acquired through the requisition provisions of the Water Industry Act 1991 (as amended). The benefit to a developer of being able to use the requisition process is that the cost of a scheme is offset by the income generated to Welsh Water through customer bills from the development over a period of 12 years. Should the income that Welsh Water receives be greater than the cost of the scheme, then there is a nil contribution from the developer. Conversely, should the income received fall short of the scheme cost, a developer would be required to make up the shortfall.

The information contained within the consultation document suggests that the number of caravans/pitches to be accommodated is fairly low, as such the income received by Welsh Water from these sites is unlikely to substantially offset the cost of laying the distance of watermains/sewers that may be needed to connect some of the proposed sites to the network. As such the cost of laying services to serve those sites furthest away from the network may prove to be prohibitively expensive.

(Please note that improvements to the sewerage network, laying of new sewers, water mains etc can benefit from requisition, but improvements to WwTWs cannot).

- Welsh Water has rights of access to its assets at all times. Where we have sewers/water mains crossing sites then protection measures in respect of these assets will be required, usually in the form of an easement width or in some instances a diversion of the asset.

Regards

Dewi Griffiths



**Dewi Griffiths**

**Forward Plans Officer | Developer Services | Dwr Cymru Welsh Water**

Kinmel Park Depot | Royal Welch Avenue | Bodelwyddan | Denbighshire | LL18 5TQ |  
0800 9172652

If we've gone the extra mile to provide you with excellent service, let us know. You can nominate an individual or team for a Diolch award through our [website](#)

APPENDIX 12 LONGLIST OF SITES FOR TEMPORARY STOPPING PLACES

Location	Accessibility	Comments on accessibility	The Site	Comments on the Site	Environment	Comments on environment	Availability	Comments on availability	Adjoining usage	Comments on adjoining usage	Total Score
Smallholding land immediately North of A55 Junction 7, Gaerwen	4	Access onto A5152 leading immediately to junction with A55	3.5	Level site currently pasture. Suitable site access available.	3.5	Some traffic noise from A55.	4	Council ownership	3.5	No residential or business properties in close proximity. Science Park to be located across A55 - not adjoining.	18.5
Land between A55 and A5 West of Llys Meirion, Star	3	Direct access onto A5. Junction of A55 less than 2 miles.	3.5	Level site. Currently Overgrown. Site level with road.	3	Traffic noise.	2	Private ownership	2	Residential properties adjacent or overlooked.	13.5
Land between A55 and A5 immediately West of Llys Meirion, Star	3	Direct access onto A5. Junction of A55 less than 2 miles.	3.5	Level site. Currently Overgrown. Site level with road.	3	Traffic noise.	2	Private ownership	2	Residential properties adjacent or overlooked.	13.5
Land between A55 and A5 East of Star Crossroads	3	Direct access onto A5. Junction of A55 less than 2 miles.	3.5	Level site. Currently Overgrown. Site level with road.	3	Traffic noise.	2	Private ownership	3	Residential properties less than 400m. No properties overlooked.	14.5
Land between A55 and A5 East of Star Crossroads	3	Direct access onto A5. Junction of A55 less than 2 miles.	3.5	Level site. Currently Overgrown. Site level with road.	3	Traffic noise.	2	Private ownership	3	Residential properties less than 400m. No properties overlooked.	14.5
Land between A55 and A5 East of Star Crossroads	3	Direct access onto A5. Junction of A55 less than 2 miles.	3	Level site. Currently pasture. Slight drop in level from road to land.	2	Traffic noise and safety issues as adjacent to railway	2	Private ownership	3	Residential properties less than 400m. No properties overlooked.	13
Land South of A5 and East of Star Crossroads	3	Direct access onto A5. Junction of A55 less than 2 miles.	3	Level site. Currently pasture. Slight drop in level from road to land.	2	Traffic noise and safety issues as adjacent to railway	2	Private ownership	3	Residential properties less than 400m. No properties overlooked.	13
Land South of A5 and East of Star Crossroads	3	Direct access onto A5. Junction of A55 less than 2 miles.	3	Level site. Currently pasture. Slight drop in level from road to land.	2	Traffic noise and safety issues as adjacent to railway	2	Private ownership	2	Residential properties adjacent or overlooked.	12
Land South of A5 and East of Peninsula Windows, Star Crossroads	3	Direct access onto A5. Junction of A55 less than 2 miles.	3	Level site. Currently pasture. Slight drop in level from road to land.	2	Traffic noise and safety issues as adjacent to railway	2	Private ownership	2	Residential properties adjacent or overlooked.	12
Land South of A5 and West of Peninsula Windows, Star Crossroads	3	Direct access onto A5. Junction of A55 less than 2 miles.	3	Level site. Currently pasture. Slight drop in level from road to land.	2	Traffic noise and safety issues as adjacent to railway	2	Private ownership	2	Residential properties adjacent or overlooked.	12
Land South of A5 and East of Parry's Furniture, Star	2	Direct access onto A5. Safe access may be impacted by bend in road near site. Junction of A55 less than 2 miles.	3	Level site. Currently pasture. Slight drop in level from road to land.	2	Traffic noise and safety issues as adjacent to railway	2	Private ownership	2	Residential properties adjacent or overlooked.	11
Land South of A5 and East of Parry's Furniture, Star	2	Direct access onto A5. Access would need to be via business units land. Junction of A55 less than 2 miles.	3	Level site. Currently pasture. Slight drop in level from road to land.	2	Traffic noise and safety issues as adjacent to railway	2	Private ownership	2	Adjacent business properties.	11
Land South of A5 and East of Parry's Furniture, Star	2	Approx from 1.5 miles from A55 junction but access would be made via narrow lane and via the village of Gaerwen, which could issues.	4	Handstanding in place. Fencing would be required. Existing access onto site.	3	Old quarry site which could present Health and Safety issues. Quiet environment.	1	Enquiry to owner made. Told not available as currently leased	3	Not directly adjacent to residential properties but are several in vicinity.	13

Location	Accessibility	Comments on accessibility	The Site	Comments on the Site	Environment	Comments on environment	Availability	Comments on availability	Adjoining usage	Comments on adjoining usage	Total Score
Land adjacent to Bwlch Gwyn Quarry, Gaerwen	2	Approx from 1.5 miles from A55 junction but access would be made via narrow lane and via the village of Gaerwen, which could issues.	3	No hardstanding. No existing access onto site	3	Near to old quarry site which could present Health and Safety issues. Quiet environment.	1	Private ownership	2	Adjacent to a few residential properties.	12
Land on Eastern boundary within Anglesey Showground	3	Access direct to A5 with junction 2 to A55 approx 3 miles.	2	Liable to flood - marshy	3	Limited road noise. Noise from aircraft.	2	Private ownership	2	Adjacent Anglesey Showground. Mona airfield directly across road. Businesses at Mona industrial estate in vicinity.	12
Land immediately East of Gadiys, Tollgate, Gwalchmai	2.5	Access direct to A5. Likely access to A55 would be via Gwalchmai to A55 junction	3.5	Level, Not cultivated	3.5	Limited road noise.	2	Private ownership	2	Several residential properties adjacent.	13.5
Land immediately to the rear and West of Ty Newydd, Tollgate, Gwalchmai	2.5	Access direct to A5. Likely access to A55 would be via Gwalchmai to A55 junction	3.5	Level, not cultivated	3.5	Limited road noise.	2	Private ownership	2	Several residential properties adjacent.	13.5
Land between A55 and A5 North of Cymruod Farm, Bryngwran	3.5	Straightforward access onto A5 and approx 1 mile from A55	3.5	Level, screened from A55	3	Road noise from A5 and A55	2	Private ownership	3	Directly adjacent A55. Residential properties not directly adjacent but further down access lane	15
Land South of Dalar Hir, Bodedern	3.5	Layby which accesses direct onto A5 and close to Dalar Hir A55 junction.	3.5	Some existing hardstanding but additional pasture would require hardstanding	3	Road noise from A5 and A55	2(7)	Partial private ownership	4	Directly adjacent A55. No business or residential properties immediately adjacent.	16
Land East of Heulfre, Caergeiliog	3.5	Easy access to junction with A55.	2.5	Small (perhaps 6 caravans), pasture. Proximity to drainage	3	Road noise from A5 and A55	2	Private ownership	4	Directly adjacent A55. No business or residential properties immediately adjacent.	15
Land adjacent and West of Gwaelod Bach, Caergeiliog	3.5	Easy access to junction with A55.	3	Pasture	3.5	Limited road noise.	2	Private ownership	3	Adjacent ruined property. Further residential properties back from other side of road	15
Land opposite and South of Cerrig Baban, Caergeiliog	3.5	Easy access to junction with A55.	3	Pasture	3.5	Limited road noise.	2	Private ownership	3	Residential properties back from other side of road	15
Land East of Bryn Ednyfed, Caergeiliog	3.5	Easy access to junction with A55.	3	Pasture	3.5	Limited road noise.	2	Private ownership	2.5	Residential properties across adjacent fields.	14.5
Property North of Dol Eithin, Caergeiliog (Iarlhangael Yn Nllowyr)	2.5	Access via single track onto Mllffordd Road to nearby junction of A55.	3	Old factory with hardstanding around. Building would have to be made safe and	3	The old factory site would have potential health and safety issues.	2	Private ownership	2	Adjacent to residential housing estate.	12.5
Land at Cytiti Road, Holyhead (South East of Kingsland School)	1	Access via narrow lane to one side of Kingsland School. Work would be needed to improve access, subject to Highways approval.	4	Flat site.	4	Few environmental concerns.	3	Private ownership	2	Access means passing residential dwellings and school.	14
Fish dock, Turkey Shore Road, Holyhead Port	3.5	Access to Ferry terminal via narrow but quiet road.	4	Hardstanding and existing boundaries in place. Existing access from road.	2	Close proximity to edges of dock is a concern from Health and Safety perspective.	2	Leased by IACC but lease in process of being given up.	3	Business operate from units near the site. No residential dwellings in close proximity.	14.5



APPENDIX 12 LONGLIST OF SITES FOR TEMPORARY STOPPING PLACES

Location	Accessibility	Comments on accessibility	The Site	Comments on the Site	Environment	Comments on environment	Availability	Comments on availability	Adjoining usage	Comments on adjoining usage	Total Score
Tyddyn Lantern, Fordd Tudur, Hohlhead	3.5	Access to Ferry Terminal via narrow but quiet road.	2	Steep gradient may make creation of access to site problematic. Ground is only level in parts. Rocky outcrops.	3	Generally suitable but not far from dock which may raise health and safety concerns.	2	Private ownership	3.5	On basis of using bottom corner of the plot which is furthest from homes/ community centre at top of rise.	14



<b>CYNGOR SIR YNYS MÔN</b>	
<b>Adroddiad i'r:</b>	Pwyllgor Sgrwtini Partneriaeth ac Adfywio Y Pwyllgor Gwaith
<b>Dyddiad:</b>	19 Gorffennaf, 2016 25 Gorffennaf, 2016
<b>Pwnc:</b>	Ymgynghoriad 2 ar Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn Ynys Môn – Mannau aros dros dro yn ardal Nghaergybi.
<b>Aelod(au) Portffolio:</b>	Y Cyngorydd Aled M Jones
<b>Pennaeth Gwasanaeth:</b>	Shan L Williams, Pennaeth Gwasanaethau Tai
<b>Awdur yr Adroddiad:</b> Ffôn: E-bost:	Mike Evans, Uwch Swyddog Cynllunio, Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd. 01286 679825 mikeevans@gwynedd.gov.uk
<b>Aelodau Lleol:</b>	Dafydd Rhys Thomas Jeffrey M Evans Trefor Lloyd Hughes J Arwel Roberts Raymond Jones Robert Llewelyn Jones

#### **A – Argymhelliad(ion) a rheswm/rhesymau**

Argymhellion: ar ôl dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghori a'r ymarferion asesu safleoedd a amlinellir yn yr adroddiad, argymhellir :

1. Na ddylid bwrw ymlaen gyda'r naill na'r llall o'r ddau safle a gafodd eu cynnwys yn yr ymgynghoriad fel lle aros dros dro yng nghyffiniau Caergybi ac ni ddylid cynnwys yr un ohonynt yn y Cynllun Datblygu Lleol.
2. Dylai CSYM wneud gwaith pellach i ddod o hyd i safleoedd amgen i gwrdd â'r angen am le aros dros dro yn ardal Caergybi fel y nodir yn yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr a gynhaliwyd gan y Cyngor yn 2016 er mwyn cydymffurfio â dyletswyddau'r Cyngor o dan Ran 3 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.
3. Dylai CSYM wneud gwaith pellach i ddeall yn well faint o ddefnydd a wneir o borthladd Caergybi gan Sipsiwn a Theithwyr a nifer y gwersylloedd anawdurdodedig sy'n digwydd o ganlyniad i deithio i'r Porthladd ac oddi yno. Hyn i gynnwys trafodaethau pellach gyda'r Heddlu, Awdurdodau Porthladd, Llywodraeth Cymru a chydranddeiliaid eraill.

4. Fel datrysiad tymor byr, bod CSYM yn ystyried gosod biniau mewn lleoliad addas i ostwng nifer yr achosion o gael gwared ar wastraff domestig yn anghyfreithlon a fu'n gysylltiedig â gwersylloedd anawdurdodedig yng Nghaergybi.
5. Dylai CSYM barhau i gyflawni ei rôl i hyrwyddo cydlyniant cymunedol. Rhaid i hyn gydbwyso anghenion cymunedau lleol a Sipsiwn-Teithwyr sy'n ymweld er mwyn iddynt deimlo'n ddiogel, a dylid ymgynghori â nhw ar faterion datblygu, gan gydnabod bod yn rhaid i'r Cyngor weithredu yn erbyn agweddau hiliol a herio sylwadau ymfflamychol.

### **Rhesymau dros yr Argymhellion**

Cafwyd gwrthwynebiad sylweddol yn y gymuned leol i'r ddau safle yr ymgynghorwyd arnynt. Ni fedrir defnyddio gwrthwynebiad lleol sylweddol nad oes tystiolaeth ar ei gyfer fel cyfiawnhad dros benderfynu peidio â chynnwys safe penodol. Ceir crynodeb o'r ymgynghoriad yn nes ymlaen yn yr adroddiad. Fodd bynnag, fel yr amlinellir isod, codwyd rhai materion hollbwysig sy'n golygu na ellir ystyried bod y safleoedd hyn yn addas ar gyfer eu cynnwys fel dyraniad yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd sy'n esblygu ac ar gyfer symud ymlaen i gais cynllunio.

### **Rhesymau dros argymhelliad 1**

#### **Safle 4 - Tir hen fferm, oddi ar Ffordd Cyttir, Caergybi (i'r de o Ysgol Kingsland)**

Mae'r tir yn rhan o Barth Menter Llywodraeth Cymru. Mae Adain Datblygu Economaidd y Cyngor ac Is-adran Eiddo Llywodraeth Cymru yn pryderu y gallai'r defnydd dros dro arfaethedig rwystro buddsoddiad pellach sy'n creu swyddi yn yr ardal. Mae'r polisiâu yng nghynllun Adneuol y Cyngor yn cefnogi'r ddadl hon, h.y. mae polisi CYF2, Defnydd Ategol o Dir Cyflogaeth, yn cadarnhau'r angen i warchod tir cyflogaeth ac na fydd tir ar gyfer defnydd ategol ond yn cael ei ryddhau o dan amgylchiadau eithriadol. Mae polisi CYF4, Defnyddiau Amgen o Safleoedd Cyflogaeth hefyd yn datgan mai dim ond mewn amgylchiadau arbennig y caniateid gwneud defnydd amgen o dir sydd wedi ei neilltuo ar gyfer Dosbarthiadau Defnydd B1, B2 neu B8. Mae Llywodraeth Cymru, fel cydberchennog y safle hwn, o'r farn y dylai ei holl dir ym Mharc Cybi gael ei ddiogelu ar gyfer defnyddiau cyflogaeth i'r dyfodol ac nid yw'n fodlon i'r safle gael ei ddefnyddio gan y Cyngor fel safle dros dro i Sipsiwn a Theithwyr, hyd yn oed am gyfnod interim. Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod ffordd yn gwahanu'r safle hwn oddi wrth brif safle Parc Cybi a bod y mynediad i'r safle ar hyn o bryd trwy ran wahanol o'r dref ac nad yw'n arbennig o amlwg oherwydd y coed a'r gwrychoedd aeddfed sydd yno'n barod.

Mae llawer o'r gwrthwynebwyr o'r farn y byddai'n amhriodol lleoli safle dros dro i Sipsiwn a Theithwyr wrth ymyl ysgol a meithrinfa i blant. Er nad yw pryderon am ddiogelwch personol a chymunedol wedi'u cefnogi gan dystiolaeth ffeithiol, ystyrir ei bod yn ddilys i gymryd rhywfaint o ystyriaeth o ofnau canfyddedig pobl leol. Byddai'r mynediad i'r safle ar gyfer cerbydau yn golygu y byddai cerbydau sy'n tynnu carafannau yn gorfod gyrru drwy ardal breswyl a heibio'r fynedfa i'r ysgol. Er y gellid gwneud rhai gwelliannau i'r briffordd, mae'r rhwydwaith ffyrdd ger yr ysgol yn dueddol o weld tagfeydd yn enwedig pan fydd plant yn cael eu gollwng neu eu codi o'r ysgol. Ystyrir y gallai defnyddio Safle 5 olygu na fyddai cerddwyr mor barod efallai i ddefnyddio'r llwybrau troed cyfagos i gael mynediad i siopau cyfagos ac i ddibenion hamdden.

Er y gellid mynd i'r afael â rhai o'r pryderon y cyfeiriwyd atynt a'u lliniaru trwy ddylunio a rheolaeth briodol, ar y cyfan, ystyrir na ddylid argymhell y safle fel un sy'n addas i'w datblygu fel safle dros dro i Sipsiwn a Theithwyr. Gallai defnyddio'r safle hwn i Sipsiwn a Theithwyr gael effaith andwyol ar fusnesau a thrigolion lleol i raddau annerbyniol.

### **Safle 5 - Tir yn Fferm Tyddyn Lantern, Caergybi**

Mae Adain Datblygu Economaidd y Cyngor a'r busnesau sy'n gweithredu yng nghyffiniau'r safle hwn wedi mynegi cryn bryder ynghylch effaith safle yn y lleoliad hwn ar fusnesau sy'n bodoli eisoes. Nid yw'r safle hwn wedi ei neilltuo yng Nghynllun Lleol Ynys Môn ar gyfer defnyddiau cyflogaeth, ond mae gwrthdaro posibl â neilltuo'r safle hwn i ddibenion cyflogaeth yn y Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd, a'r polisïau yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd sy'n esblygu. Mae Canolfan Cymunedol Gwelfor a Meithrinfa Morlo sydd yn agos i Safle 5, ynghyd â thrigolion a busnesau lleol, wedi codi nifer o wrthwynebiadau i'r defnydd posibl o'r safle hwn, gan gynnwys niweidio dyfodol y ganolfan gymunedol a chau'r feithrinfa o bosib; risgiau iechyd a diogelwch canfyddedig i'r gymuned gyfagos; materion mynediad a niwed posibl i rywogaethau o blanhigion a warchodir. Mae Ymgynghorydd Ecolegol ac Amgylcheddol y Cyngor wedi cyfeirio at werth natur a bywyd gwyllt y safle hwn. Mynegwyd pryder hefyd ynghylch y cynnig yn niweidio mwynhad y rheini sy'n defnyddio'r rhan hon o'r Llwybr Arfordirol sy'n ffinio â'r safle.

Er y gellid mynd i'r afael â rhai o'r pryderon y cyfeiriwyd atynt a'u lliniaru trwy ddylunio a rheolaeth briodol, ar y cyfan, ystyrir na ddylid argymhell y safle fel un sy'n addas i'w datblygu fel safle dros dro i Sipsiwn a Theithwyr. Gallai defnyddio'r safle o bosib fel safle i Sipsiwn a Theithwyr gael effaith andwyol ar fusnesau a thrigolion lleol i raddau annerbyniol.

## **Y rheswm dros Argymhelliad 2**

Mae'n rhaid i'r Cyngor barhau i chwilio am safle addas er mwyn cyflawni ei ddyletswydd dan ran 3 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Mae gan Lywodraeth Cymru bwerau i gyfarwyddo'r Cyngor i weithredu os na wneir cynnydd rhesymol. Mae'n rhaid i'r Cyngor hefyd gynnwys digon o safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd neu wynebu'r risg na fydd y cynllun datblygu'n cael ei gymeradwyo gan nad yw'n ddigon cadarn.

Mae'r heddlu (gweler Atodiad 2) wedi cefnogi'r angen am Fannau Aros Dros Dro yn Ynys Môn ar gyfer pobl sy'n disgwyl, hyd y gwyddont, am y fferi i Iwerddon.

## **Y rheswm am Argymhelliad 3**

Mae'r ymgynghoriad wedi dechrau deialog rhwng swyddogion y Cyngor a thrigolion, cynrychiolwyr preswylwyr a busnesau am y sefyllfa bresennol mewn perthynas â Sipsiwn a Theithwyr yn pasio trwy'r dref. Mae angen i'r ymgynghoriad barhau fel y gellir darganfod dull priodol i ddeall a mynd i'r afael â materion sy'n codi. Mae'r Awdurdod Porthladd wedi cael ei nodi fel corff sy'n chwarae rhan hanfodol yn y broses hon.

## **Y rheswm am Argymhelliad 4**

Gall darparu biniau mewn mannau addas a gwneud trefniadau ar gyfer casglu sbwriel domestig ostwng nifer yr achosion o gael gwared ar wastraff yn anghyfreithlon a fu'n gysylltiedig o bryd i'w gilydd â gwersylloedd anawdurdodedig yng Nghaerdydd. Gall camau o'r fath ostwng costau clirio posib a helpu i amddiffyn yr amgylchedd a mwynderau lleol ar gyfer trigolion a busnesau cyfagos.

## **Y rheswm dros Argymhelliad 5**

Mae Sipsiwn a Theithwyr yn lleiafrif ethnig cydnabyddedig ac felly'n cael eu diogelu gan ddarpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae gan y Cyngor rôl bwysig i'w chwarae o ran creu dealltwriaeth ac ymdrin â rhagfarn tuag at y lleiafrif ethnig hwn. Roedd tystiolaeth bod sibrydion a chamsyniadau ynghylch math a maint y safle arfaethedig wedi bod yn datblygu yn ystod y cyfnod ymgynghori. Roedd rhai o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn waradwyddus ac yn anghywir.

## **Cefndir**

Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ddarparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr lle mae angen wedi'i nodi. Mae Teithio at Ddyfodol Gwell gan Lywodraeth Cymru yn disgrifio Sipsiwn a Theithwyr fel un o'r grwpiau mwyaf difreintiedig ac ymylol mewn cymdeithas ers tro byd. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i unioni'r anghydraddoldeb a wynebir gan Sipsiwn a Theithwyr trwy wella cyfle cyfartal i bawb.

Mae Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Gwynedd ac Ynys Môn a gynhaliwyd yn 2016 yn unol â'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru wedi nodi bod angen safleoedd aros parhaol a dros dro ar yr Ynys.

Mae cynigion ar gyfer Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr bron bob amser yn codi gwrthwynebiadau croch gan y rhai sy'n gweld 'bygythiad' gan y math hwn o ddatblygiad, boed yn fygythiad i edrychiad ardal neu i'w chymeriad cymdeithasol. Efallai bod rhai gwrthwynebiadau o'r math hwn yn seiliedig ar ragfarn neu anwybodaeth, yn aml yn seiliedig ar brofiadau gwael neu achlust – mae hynny'n ei gwneud yn anodd iawn i'r Awdurdod Lleol a'i aelodau i fod yn wrthrychol ar y mater.

Mae'r posibilrwydd o droseddoldeb wedi cael ei godi mewn perthynas ag effaith safle arfaethedig i Sipsiwn a Theithwyr yng Nghaergybi neu'r cyffiniau. Fodd bynnag, ychydig iawn o bwys y gellir ei roi ar bryderon cyffredinol ynghylch troseddu, oni bai eu bod yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r deiliaid i'r dyfodol.

Derbynnir y gall dod o hyd i safleoedd addas ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr fod yn fater emosiynol yn ystod y broses gynllunio. Fodd bynnag mae angen gwneud penderfyniadau er budd y cyhoedd ehangach ac mewn ffordd resymegol, ar sail tystiolaeth, gan gydbwysu'r materion hyn yn erbyn ffactorau eraill. Cyn datblygu safle awdurdodedig i Sipsiwn a Theithwyr rhaid cael caniatâd cynllunio. Bydd y cam hwn yn y broses yn rhoi manylion a sicrwydd ynghylch materion megis mynediad i gerbydau, cynllun a dyluniad y safle a gwaith tirweddu. Felly, bydd cyfle i bartïon â diddordeb gyflwyno sylwadau ar unrhyw gais cynllunio yn y dyfodol cyn iddo gael ei benderfynu.

### **Math a maint y safleoedd y mae angen eu darparu**

Mae'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Ynys Môn a Gwynedd yn nodi bod angen lle aros dros dro ar gyfer hyd at 12 o garafannau yng nghyffiniau Caergybi. Y dystiolaeth dros hyn oedd y patrwm a gofnodwyd o wersylloedd anawdurdodedig sy'n digwydd yn ardal Caergybi. Mae rhai Theithwyr a Sipsiwn sy'n defnyddio'r gwasanaeth fferi i lwerddon yn dewis aros am gyfnodau byr (1-2 diwrnod) yn agos at y Porthladd tra'n aros i ddal fferi neu ar ôl cyrraedd o lwerddon.

### **Safleoedd posib yn ardal Caergybi y cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus yn eu cylch rhwng 11 Chwefror, 2016 a 11 Mawrth, 2016:**

Cafodd y safleoedd canlynol eu cynnwys yn yr ymgynghoriad fel safleoedd posib ar gyfer rhestr fer o safleoedd yng Nghaergybi,

- Plotiau Gwag, Stad Ddiwydiannol Penrhos, Caergybi
- Tir yn union i'r dwyrain o B & M (Homebase gynt), Caergybi
- Tir i'r de o Alpoco.

Cyfarfu Pwyllgor Gwaith y Cyngor ar 31 Mai a phenderfynwyd na ddylid bwrw ymlaen gydag unrhyw un o'r safleoedd uchod ac na ddylid cynnwys yr un ohonynt yn y Cynllun Datblygu Lleol;

Penderfynodd y Pwyllgor hefyd y dylid gwneud gwaith pellach i nodi safleoedd amgen i gwrdd â'r angen am le aros dros dro yn ardal Caergybi.

### **Ymgynghoriad pellach rhwng 2 Mehefin ac 1 Gorffennaf 2016 ynghylch dau fan aros dros dro posib ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn Ardal Caergybi.**

Mae swyddogion wedi asesu nifer sylweddol o safleoedd amgen (gweler Atodiad 3) ac wedi cymryd canllawiau Llywodraeth Cymru i ystyriaeth wrth ddatblygu ei fethodoleg i asesu safleoedd addas. Ystyriwyd bod gan y ddau safle a gawsant eu cynnwys yn yr ymgynghoriad diweddar y potensial i gael eu datblygu fel Mannau Aros Dros Dro ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr.

Rhwng 2 Mehefin ac 1 Gorffennaf 2016, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus helaeth ynghylch dau fan aros dros dro posib ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn Ardal Caergybi. Y ddau safle posib oedd :

- Safle 4 - Tir yn hen fferm, oddi ar Ffordd Cyttir, Caergybi (i'r de o Ysgol Kingsland)
- Safle 5 - Tir yn Fferm Tyddyn Lantern, Caergybi

'Roedd dogfen ymgynghori gyda mapiau a holiadur ymgynghori ar gael ar wefan y Cyngor ac mewn sesiwn galw heibio a gynhaliwyd yn y Clwb Dinasyddion Hŷn yn Ffordd Llundain, Caergybi ar 15 Mehefin 2016 lle cafwyd presenoldeb da. Anfonwyd copïau hefyd at fusnesau, tîrfeddianwyr a thrigolion sydd union gyfagos i'r safleoedd. Anfonwyd y ddogfen ymgynghori hefyd at y Ffederasiwn Busnesau Bach, Undeb Amaethwyr Cymru ac Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, Heddlu Gogledd Cymru, Awdurdod Tân Gogledd Cymru, Gwasanaeth Ambiwylans Cymru, Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, Adnoddau Naturiol Cymru, a Dŵr Cymru.


Drwy gydol y cyfnod ymgynghori, arddangoswyd gwybodaeth yn amlwg ar wefan y Cyngor a'i gyfrifon facebook a twitter.

### **Dadansoddi'r Ymatebion**

Derbyniodd y Cyngor 707 o holiaduron a 21 o lythyrau a negeseuon e-bost ac 1 ddeiseb a lofnodwyd gan 729 o unigolion. 'Roedd 554 o'r ymatebion hynny ynghylch Safle 4 - tir ar hen fferm, oddi ar Ffordd Cyttir, Caergybi (i'r de o Ysgol Kingsland) a 535 o ymatebion ynghylch Safle 5 - Tir yn Fferm Tyddyn Lantern, Caergybi.



**Safle 4 - Tir ar hen fferm, oddi ar Ffordd Cyttir, Caergybi (i'r de o Ysgol Kingsland)  
Crynodeb o'r prif ymatebion i'r ymgynghoriad**



'Roedd 486 o'r ymatebwyr o'r farn bod y safle hwn yn anaddas. Nid oedd yr ymatebwyr a oedd o'r farn bod y safle yn addas iawn neu'n dderbyniol yn byw yn agos i'r safle hwn.

Y prif resymau a nodwyd gan drigolion, busnesau a sefydliadau eraill dros wrthwynebu i'r safle hwn oedd

- Yn rhy agos at ysgolion a meithrinfa
- Yn rhy agos at ardaloedd preswyl (byddai preswylwyr yn teimlo'n anniogel)
- Ofn cynnydd mewn lefelau troseddu

ac wedyn bryderon ynghylch

- Addasrwydd y ffordd ac effaith mwy o draffig
- Agweddau iechyd a diogelwch megis sbwriel, mwg a fyddai'n effeithio ar yr A55 ac anifeiliaid sy'n crwydro
- Effeithiau amgylcheddol.
- Niweidiol i fusnes a thwristiaeth leol


Mynegodd lleiafrif o'r ymatebwyr bryderon ynghylch materion gan gynnwys costau i'r Cyngor, yr effaith ar werth eiddo, effaith ar ysbryd cymunedol a dim angen i safle arfaethedig fod mor agos at y porthladd.

Dylid cadw mewn cof na fyddai rhai o'r rhesymau a roddwyd dros wrthwynebu yn cael eu hystyried i fod yn ystyriaethau cynllunio perthnasol pe bai cais cynllunio yn cael ei wneud. Er enghraifft, ni fyddai ofnau nad oes tystiolaeth i'w cefnogi ynghylch cynnydd mewn lefelau troseddu na'r effaith ar werth eiddo yn ffactorau y gellid eu cymryd i ystyriaeth wrth benderfynu cais cynllunio.

### **Safle 5 - Tir yn Fferm Tyddyn Lantern, Caergybi. Crynodeb o'r prif ymatebion i'r ymgynghoriad**

Cyflwynwyd deiseb hefyd i'r Cyngor ynghylch Safle 5 - Tir yn Fferm Tyddyn Lantern. Mae'r ddeiseb wedi cael ei harwyddo gan 729 o unigolion sydd yn cymeradwyo'r datganiad canlynol ar frig y ddeiseb.

" This petition is to oppose the proposed Temporary Stopping Places for Gypsies and Travellers at Site 5 – Land at Tyddyn Lantern Farm, Holyhead. We are starting the petition as we feel this is an unsuitable area due to the large number of families, businesses and houses. We hope that Anglesey Council will use this petition to see how strongly local people feel regarding the situation".



'Roedd 428 o'r ymatebwyr o'r farn bod y safle hwn yn anaddas. Nid oedd y nifer fechan o ymatebwyr a oedd yn ystyried bod y safle yn addas iawn neu'n dderbyniol yn byw yn agos i'r safle.

Y prif resymau a nodwyd gan drigolion, busnesau a sefydliadau eraill dros wrthwynebu i'r safle hwn oedd

- Yn rhy agos at ysgolion a meithrinfa
- Yn rhy agos at ardaloedd preswyl (byddai preswylwyr yn teimlo'n anniogel)

a ddilynwyd gan bryderon ynghylch

- Addasrwydd y ffordd ac effaith mwy o draffig
- Ofn mwy o droseddu
- Effeithiau amgylcheddol negyddol
- Niweidiol i fusnes a thwristiaeth leol

Mynegodd lleiafrif o ymatebwyr bryderon ynghylch materion gan gynnwys y costau i'r Cyngor, yr effaith ar werth eiddo, dim angen i'r safle arfaethedig fod mor agos i'r porthladd.

Dylid cadw mewn cof na fyddai rhai o'r rhesymau a nodwyd dros wrthwynebu yn cael eu hystyried i fod yn ystyriaethau cynllunio perthnasol pe bai cais cynllunio yn cael ei wneud. Er enghraifft, ni fyddai ofnau nad oes tystiolaeth i'w cefnogi ynghylch cynnydd mewn lefelau troseddu na'r effaith ar werth eiddo yn ffactorau y gellid eu cymryd i ystyriaeth wrth benderfynu cais cynllunio.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Gweler Adroddiadau a chofnodion Pwyllgor Gwaith y Cyngor a gynhaliwyd ar 31 Mai, 2016.

**C - Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr lle mae angen wedi'i nodi.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

<b>D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?</b>
Ydi

<b>DD - Pwy wnaethoch chi ymgynghori a nhw?</b>		<b>Beth oedd eu sylwadau?</b>
<b>1</b>	<b>Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (SLT)</b> (Gorfodol)	
<b>2</b>	<b>Swyddog Cyllid / Adran 151</b> (Gorfodol)	
<b>3</b>	<b>Swyddog Cyfreithiol / Monitro</b> (Gorfodol)	
<b>5</b>	<b>Adnoddau Dynol (AD)</b>	
<b>6</b>	<b>Eiddo</b>	Mae Adran Eiddo CSYM wedi bod yn ymwneud agos â'r holl broses o nodi safleoedd.
<b>7</b>	<b>Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)</b>	
<b>8</b>	<b>Sgriwtini</b>	
<b>9</b>	<b>Aelodau lleol</b>	Mae pob Aelod Lleol wedi cael y cyfle i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad.
<b>10</b>	<b>Unrhyw gyrff allanol / eraill</b>	Heddlu Gogledd Cymru Cyfoeth Naturiol Cymru Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd Cyngor Tref Caergybi Adrannau CSYM: Adain Priffyrdd Adain Draenio Adran Rheoleiddio (Datblygu Economaidd, Cynllunio, Iechyd yr Amgylchedd)

<b>E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)</b>		
<b>1</b>	<b>Economaidd</b>	
<b>2</b>	<b>Gwrth-dlodi</b>	
<b>3</b>	<b>Troseddau ac Anhrefn</b>	Gweler Atodiad 2 – Ebst gan Heddlu Gogledd Cymru
<b>4</b>	<b>Amgylcheddol</b>	Gweler Atodiad 2
<b>5</b>	<b>Cydraddoldebau</b>	Mae'r adroddiad yn cydnabod bod nodi

		safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn fater lle mae'n rhaid i'r Cyngor fod yn ymwybodol o'i ddyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a rhaid iddo gymryd camau cadarnhaol i hyrwyddo cydlyniant cymunedol ac atal gwahaniaethu, atal aflonyddu ac atal erlid Sipsiwn a Theithwyr sy'n grŵp a ddiogelir o dan y Ddeddf.
<b>6</b>	<b>Cytundebau Canlyniadau</b>	
<b>7</b>	<b>Arall</b>	Risgiau o ran oedi gyda mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.  Risg i enw da'r Cyngor os yw'n methu â chydymffurfio â gofynion statudol.

#### **F - Atodiadau:**

Atodiad 1 - Ymatebion gan ymgynghorwyr ffurfiol

Atodiad 2

Llythyrau gan:

Meithrinfa Morlo

Canolfan Gymunedol Gwelfor

Dŵr Cymru

Heddlu Gogledd Cymru

Adnoddau Naturiol Cymru

Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd

Adran Rheoleiddio CSYM

Adain Briffyrdd CSYM

Adain Ddraenio CSYM

Atodiad 3: Y rhestr hir o safleoedd a nodwyd gan Swyddogion Cyngor Sir Ynys Môn

#### **G. Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach)**

1. Dogfen Ymgynghori, Ymgynghori ar Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr ar Ynys Môn, Chwefror 2016.
2. Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Gwynedd ac Ynys Môn, Pwyllgor Gwaith 08/02/16 a'r Pwyllgor Sgrwtini Partneriaeth ac Adfywio Economaidd 02/02/16 .
3. Cyflwyniad a chofnodion Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn dyddiedig 20/11/15 'Cwrdd ag anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr yn y Cynllun'.
4. Dogfen Ymgynghori, Ymgynghori ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr ar Ynys Môn, Mehefin 1 - Gorffennaf, Papurau Pwnc 2016.
5. Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd - Adroddiadau i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd 29/01/2016
6. Adroddiad Pwnc 18A Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd Nodi safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr – diweddariad 2016
7. Dogfen Ymgynghori, Ymgynghori ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr ar Ynys Môn, Mehefin 2016.
8. Rhestr hir o safleoedd a nodwyd gan Swyddogion Cyngor Sir Ynys Môn

Atodiad 1

<b>Safle 4 – Tir hen fferm, oddi ar Ffordd Cytir, Caergybi (i'r de o Ysgol Kingland)</b>			
<b>Safle</b>	<b>Mater</b>	<b>Crynodeb o sylwadau'r ymgynghoreion</b>	<b>Ymateb swyddogion i'r sylwadau</b>
Adnoddau Naturiol Cymru	Materion amgylcheddol	<p><b>Math y dyfrhaenau</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Efallai y bydd unrhyw dir a neilltuir ar gyfer ei ddatblygu o fewn y Ddyfrhaen Eilaidd yn dderbyniol, ond byddai CNC angen manylion pellach ynghylch sut y ceid gwared ar ddŵr budr er mwyn medru rhoi sylwadau pellach ar ba mor dderbyniol yw'r safle.</li> </ul> <p><b>Tirwedd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae safle'r cais wedi'i leoli ger Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn.</li> <li>Mae dyletswydd o dan Adran 85 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (2000) i ystyried dibenion gwarchod a gwella harddwch naturiol yr AHNE.</li> </ul>	Nodwyd yr holl sylwadau (Angen cymryd i ystyriaeth gynnwys y llythyrau yn eu cyfanrwydd os yw'r safle'n debygol o symud ymlaen i'r cam cais cynllunio)
Adain Briffyrdd CSYM	Diogelwch y Ffyrdd	<ul style="list-style-type: none"> <li>Pryderu y gallai'r datblygiad fod yn niweidiol i ddiogelwch y briffordd a'i defnyddwyr.</li> <li>Byddai angen diwygio'r gorchymyn traffig cyfredol. Mae'n debygol y byddai angen lledu'r ffordd bresennol.</li> <li>Mae'r safle yn agos at ganol tref Caergybi sydd â chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus rhagorol.</li> </ul>	Fel yr uchod
Peiriannydd Draenio Adain Briffyrdd CSYM	Draenio	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r cynnig o fewn ardal a wasanaethir gan systemau draenio dŵr budr a dŵr wyneb;</li> </ul>	Fel yr uchod



		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r carthffosydd cyfun cyhoeddus ar stad Maes Cytir gerllaw. Fodd bynnag, gall bod angen defnyddio system bwmpio i gysylltu â'r rhwydwaith hwn ac felly byddai caniatâd yr ymgwymerwr carthffosiaeth, Dwr Cymru Welsh Water.</li> <li>• Dim cofnod o lifogydd dŵr wyneb ar y tir hwn. Fodd bynnag, efallai y bydd angen cynllun i reoli dŵr sy'n rhedeg i lawr o dir uwch cyfagos.</li> </ul>	
Ymgynghorydd Ecolegol ac Amgylcheddol, Cyngor Sir Ynys Môn	Materion Ecolegol	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymddengys ei fod yn safle tir llwyd gyda llawer o goed a llystyfiant arall. Byddai angen cymryd adar sy'n nythu ac efallai ystlumod i ystyriaeth os ydynt yn defnyddio coed penodol i glwydo. Cynghorir cynnal arolwg sylfaenol i sefydlu natur y cynefin ecolegol a nodi a fyddai ystlumod yn medru defnyddio'r coed o bosib i glwydo, gan ddwyn sylw at unrhyw anghenion eraill (ar gyfer ystlumod, ymlusgiaid neu debyg).</li> </ul>	Fel yr uchod
Dŵr Cymru	Cyfleustodau	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Prif bibell ddŵr 110mm gerllaw. Dim problemau gyda chyflenwad dŵr.</li> <li>• Carthffos 150mm tua 120 metr i'r gogledd-orllewin o'r safle.</li> <li>• Dim anawsterau o ran derbyn y llif yn y Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff yng Nghaergybi.</li> </ul>	Fel yr uchod
This site is to the north of the Parc Cybi development area. The development on the Parc Cybi site led to the discovery of extensive, multiphase archaeological remains of national significance, including a Neolithic house, later prehistoric settlement, Bronze Age multi-chambered barrow and a medieval cemetery. As such the Cyttir road site retains some potential for similar remains to survive. However, the Cyttir Road site comprises an already developed area in which it is likely that buried archaeological remains or deposits may have been disturbed and in which less extensive ground works might be required in order to facilitate the development of any proposed traveller site. As such there are some archaeological implications for this site but they would appear limited.

### Site 5 Tyddyn Lantern Farm, Holyhead – No Known Restraint

It appears unlikely that a proposed development here would have any significant archaeological implications.

I have included an attachment with this letter which sets out how we define the level of constraint when responding to consultations from the JPPU.

I hope that the information provided here is clear, however if you have any questions or require further advice please do not hesitate to contact me.

Yours sincerely,

Ashley Batten  
Senior Planning Archaeologist

ASHLEY BATTEN

*Ashley*



### Gwynedd Archaeological Planning Service Responses to JLDP Candidate Sites

Archaeological Restraint	Archaeological Recommendation
None known	<b>No reason for not allocating in JLDP</b>
<b>Minimal Restraint</b>	Conditions may be placed on planning consent. <b>No reason for not allocating in JLDP</b>
<b>Restraint</b>	May require desk-based assessment prior to planning permission being granted. <b>No reason for not allocating in JLDP</b>
<b>Fairly Significant Restraint</b>	Will need archaeological evaluation prior to planning permission being granted. <b>Allocation could be included in JLDP but subject to results of archaeological evaluation.</b>
<b>Significant Restraint</b>	Extensive archaeological work will be required prior to any positive determination of any planning application. <b>If this site was to be included in JLDP archaeological evaluation would be required prior to its inclusion.</b>
<b>Major Restraint</b>	<b>The area should not be allocated in JLDP</b>

ASHLEY BATTEN

Planning Archaeologist

Cadeiryddes/Chair - Yr Athro/Professor Nancy Edwards, B.A., Ph.D, F.S.A. Prif Archaeolegydd/Chief Archaeologist - Andrew Davidson, B.A., M.I.F.A.

Ma:







**CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL**

**Safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr  
Ymateb i'r Ymgynghori ar Fannau Aros Dros Dro ar gyfer  
Sipsiwn a Theithwyr ar Ynys Môn**

**Mehefin 2016**

**Statws: Swyddogol Sensitif**

**Paratowyd gan:**

Sara Evans

Gwasanaeth Adfywio Economaidd a Chymunedol

## MANNAU AROS DROS DRO AR GYFER SIPSIWN A THEITHWYR

### **1.0 Diben y Papur**

- 1.1 Diben y papur hwn yw darparu sylwadau o safbwynt Datblygu Economaidd ar gynigion ar gyfer manau aros dros dro posibl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ar Ynys Môn, sydd allan ar hyn o bryd i ymgynghoriad.
- 1.2 Gweler Atodiad A a B os gwelwch yn dda am sylwadau pellach a ddarparwyd gan yr adrannau Cynllunio ac Iechyd yr Amgylchedd.
- 1.3 Bydd y papur hwn hefyd yn rhoi crynodeb a chasgliad o farn yr adain am y safleoedd, ynghyd â rhai argymhellion.
- 1.4 Wrth lunio'r ymateb hwn, mae'r adran Datblygu Economaidd yn derbyn mai'r maen prawf ar gyfer dewis safle yw'r waelodlin, yn enwedig o gofio'r gofynion sy'n gysylltiedig â'r safle.

### **2.0 Cefndir**

- 2.1 Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ddarparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr lle mae angen wedi'i nodi.
- 2.2 Yn dilyn yr ymgynghoriad cyntaf ym mis Mawrth 2016, derbyniodd y Pwyllgor Gwaith argymhelliad na ddylid ystyried ymhellach unrhyw un o'r Manau Aros Dros Dro arfaethedig yr ymgynghorwyd yn eu cylch. Mae gwaith pellach wedi cael ei wneud i nodi lleoliadau posibl ar gyfer y manau aros dros dro ac, o ganlyniad, mae rhestr fer o safleoedd wedi cael ei llunio ac mae bellach yn rhan o'r ymgynghoriad hwn.

<b><u>SAFLE</u></b>	<b><u>Sylwadau</u></b>
Safle 1 - Llain o dir rhwng yr A55 / A5 rhwng Llanfairpwll a Chroesffordd Star	<ul style="list-style-type: none"><li>• Mae'r adran Datblygu Economaidd yn gefnogol mewn egwyddor - dim yn rhagweld unrhyw broblemau mawr o safbwynt Datblygu Economaidd.</li></ul>
Safle 2 - Darn o dir mewn mân-ddaliad yn Y Gaerwen	<ul style="list-style-type: none"><li>• Mae gan yr adran Datblygu Economaidd bryderon y gallai'r safle, oherwydd ei agosrwydd at ddatblygiad Parc Gwyddoniaeth Menai sydd werth £20m, gael effaith negyddol (yn weledol) ar y cynllun.</li></ul>
Safle 3 - Tir ger yr A5 ger Fferm Cymunod, Bryngwran	<ul style="list-style-type: none"><li>• Mae gan yr adran Datblygu Economaidd bryderon ynghylch y safle oherwydd mae busnesau lleol a chanddynt eiddo gwerth uchel wedi eu lleoli yn agos at y safle arfaethedig.</li><li>• Hitachi hefyd wedi nodi safle posibl cyfagos ar gyfer cyfleuster Parcio a Theithio, yn gysylltiedig â</li></ul>

## MANNAU AROS DROS DRO AR GYFER SIPSIWN A THEITHWYR

	datblygiad Wylfa Newydd. Disgwylir y byddai man aros dros dro ar gyfer sipsiwn a theithwyr ger y safle hwn yn cael effaith ar y cynnig hwn.
Safle 4 - Tir hen fferm, oddi ar Ffordd Cyttir Caergybi (I'r de o Ysgol Kingsland)	<ul style="list-style-type: none"><li>• Mae gan yr adran Datblygu Economaidd bryderon ynghylch agoswydd y safle at Barthau Menter Parc Cybi a Phenrhos oherwydd mae'n debygol y câi effaith negyddol sylweddol ar ddatblygiadau yn y dyfodol yn sgil y buddsoddiadau a ddisgwylir o safbwynt ynni.</li><li>• Mae Stad Ddiwydiannol Penrhos gerllaw hefyd yn arwyddocaol ac o ran nifer y busnesau a'r bobl a gyflogir yno, mae hefyd yn lleoliad pwysig iawn. Mae'r safle'n cael ei gydnabod a'i ystyried fel 'hyb busnes' oherwydd ei statws fel Parth Menter.</li></ul>
Safle 5 - Tir yn Fferm Tyddyn Lantern, Caergybi	<ul style="list-style-type: none"><li>• Mae'r Gwasanaeth DE&amp;A yn pryderu ynghylch agoswydd y safle i fusnesau ydd wedi'u lleoli yn Noc Pysgod Caergybi.</li></ul>

### **3.0 Casgliadau ac Argymhellion**

- 3.1 Am y rhesymau a amlinellwyd uchod, mae'r adran Datblygu Economaidd o'r farn nad yw'r darn o dir yn yr hen fferm, oddi ar Ffordd Cyttir Caergybi (i'r de o Ysgol Kingsland) yn lleoliad addas ar gyfer safle Sipsiwn a Theithwyr.
- 3.2 Mae'n bosib y byddai lleoli safleoedd aros dros dro ar gyfer sipsiwn a theithwyr yn ymyl tir cyflogaeth o bwys, yn cael effaith sylweddol ar ffyniant yr Ynys yn y dyfodol ac y byddai perygl o niweidio dyheadau rhaglen Ynys Ynni Môn.
- 3.3 Mae pryderon mewn perthynas â'r safle yn Y Gaerwen, yr un ger yr A5 yn ymyl Fferm Cymunod Bryngwran, a'r ddau safle yng Nghaergybi ac argymhellir bod y rhain yn cael sylw cyn rhoi ystyriaeth bellach i'r safleoedd.

**Atodiad A**

**Ymateb yr Adran Gynllunio**

**4.0**

<b>SITE</b>	<b>Sylwadau</b>
Safle 1 - Llain o dir rhwng yr A55 / A5 rhwng Llanfairpwll a Chroesffordd Star	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mewn lleoliad cefn gwlad ac yn weladwy o'r A5 gyfagos. Dim gwrthwynebiad mewn egwyddor o safbwynt cynllunio ond byddai angen camau lliniaru o ran y dirwedd.</li> </ul>
Safle 2 - Darn o dir mewn mân-ddaliad yn Y Gaerwen	<ul style="list-style-type: none"> <li>Lleoliad cefn gwlad, dim gwrthwynebiadau cynllunio mewn egwyddor ond yn ei ffafrio'n llai na safle 1 oherwydd ei leoliad uchel a'r posibilrwydd y câi effaith ar y dirwedd ehangach. Byddai angen ymgorffori camau lliniaru ar gyfer y dirwedd.</li> </ul>
Safle 3 - Tir ger yr A5 yn ymyl Fferm Cymunod, Bryngwran	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mewn lleoliad cefn gwlad ac yn weladwy o'r A5 gyfagos: dim gwrthwynebiadau cynllunio mewn egwyddor ond byddai angen cynnwys camau lliniaru ar gyfer y dirwedd.</li> </ul>
Safle 4 - Tir yn hen fferm, oddi ar Ffordd Cyttr Caergybi (i'r de o Ysgol Kingsland)	<ul style="list-style-type: none"> <li>'Eglurder' o ran mynediad i'r safle yn anodd. Mae yn yr Ardal o Harddwch Naturiol (AHNE) ac yn agos at Lwybr Troed Cyhoeddus. Nid yw ei ddynodiad fel AHNE yn dyngedfennol o ystyried y cyd-destun y safle, ond byddai'n rhaid gwarchod cyfeiriad / cyfanrwydd y llwybr troed.</li> <li>Yng Nghynllun Lleol Ynys Môn (y cynllun datblygu), mae'r safle wedi ei glustnodi'n rhannol ar gyfer 'Cyflogaeth' ac 'Isadeiledd Ffisegol a Chynigion Amgylcheddol', fe'i dyrennir yn y Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd ar gyfer 'Cyflogaeth' ac yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd sy'n esblygu, fel safle 'Cyflogaeth'.</li> <li>O safbwynt cynllunio, y safle hwn yw'r un a ffefrir leiaf o'r ddau yng Nghaergybi.</li> </ul>
Safle 5 - Tir yn Fferm Tyddyn Lantern, Caergybi	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae Llwybr Cyhoeddus ar derfyn y safle ac mae angen diogelu ei gyfeiriad a'i gyfanrwydd. Nid yw'r safle wedi ei ddyrannu yng Nghynllun Lleol Ynys Môn; fodd bynnag mae gwrthdaro posibl ar y safle hwn gyda'r Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd lle clustnodir y safle ar gyfer 'Cyflogaeth' a'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd sy'n</li> </ul>

**Atodiad B**

**Ymateb yr Adain Iechyd yr Amgylchedd**

**5.0**

<b>SAFLE</b>	<b>Sylwadau</b>
Safle 1 - Llain o dir rhwng yr A55 / A5 rhwng Llanfairpwll a Chroesfordd Star	<ul style="list-style-type: none"> <li>Nid oes unrhyw eiddo wrth ymyl y safle hwn yn uniongyrchol – dim problemau o ran mynediad.</li> </ul>
Safle 2 - Darn o dir mewn mân-ddaliad yn Y Gaerwen	<ul style="list-style-type: none"> <li>Nid oes unrhyw eiddo wrth ymyl y safle hwn yn uniongyrchol – dim problemau o ran mynediad.</li> </ul>
Safle 3 - Tir ger yr A5 yn ymyl Fferm Cymunod, Bryngwran	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r safle hwn â therfyn cyfyng rhwng yr A5 a'r A55 ac nid oes unrhyw eiddo preswyl union gerllaw. Dylai'r ddau ffactor hyn fod o gymorth i leihau rhai o'r effeithiau amgylcheddol posibl a all godi yn sgil defnyddio safleoedd o'r fath.</li> </ul>
Safle 4 - Tir yn hen fferm, oddi ar Ffordd Cytir Caergybi (I'r de o Ysgol Kingsland)	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dim ond ar hyd hen Lôn Trefignath sydd wedi ei chau fyddai modd cael at y safle hwn a byddai'n rhaid i draffig fynd heibio ysgol gynradd a stad o dai preswyl a gallai achosi problemau tagfeydd a thraffig ychwanegol.</li> <li>Mae'r ffordd, er ei bod wedi ei chau, yn cael ei defnyddio gan drigolion Kingsland fel llwybr uniongyrchol i gerddwyr i Barc Manwerthu Penrhos. Ystyrir bod y ffordd sydd wedi ei chau yn peri problemau oherwydd gellid ei defnyddio fel lle i adael sbwriel yn anghyfreithlon a gallai hefyd gael ei defnyddio fel maes parcio gorlif posibl ar gyfer unrhyw deithwyr a fyddai'n aros y safle.</li> <li>Mae agosrwydd y safle at eiddo preswyl ac ysgol gynradd yn cynyddu'r tebygolrwydd o gwynion am niwsans / llygredd petai achosion ymddygiad nad yw'n cydymffurfio â rheolau, fel llosgi neu sŵn o'r safle.</li> <li>Gallai teithwyr sy'n mynd ar y fferi i lwerddon yn hwyr gyda'r nos / yn gynnar yn y bore achosi styrbans ychwanegol.</li> </ul>

## MANAU AROS DROS DRO AR GYFER SIPSIWN A THEITHWYR

	<p>esblygu fel safle 'Cyflogaeth'.</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Ar hyn o bryd, hwn fyddai'r safle y byddir yn ei ffafrio fwyaf yng Nghaerdybi. Fodd bynnag, unwaith y caiff y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ei fabwysiadu, bydd gwrthdaro gyda'r 'cynllun datblygu' a bydd angen cyfiawnhau'n llawn y rhesymau dros ddewis y safle hwn.</li></ul>
--	--

4.1 Mae yna hefyd sylwadau cyffredinol sy'n berthnasol i bob safle na fydd modd efallai eu rheoli dan ddeddfwriaeth 'gynllunio', ond serch hynny, mae angen eu hystyried yn ystod y cam hwn:

- Defnydd: Sut y byddir yn rheoli/gorfodi cydymffurfiaeth gyda'r cyfnodau hiraf y caniateir i deithwyr aros ar y safle (a'r cyfnodau dim hawl i ddychwelyd)?
- Cynnal a Chadw: Sut bydd y safleoedd yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau nad ydynt yn dod yn ddolur llygad e.e. a fydd toiledau cludadwy / biniau sbwriel yn cael eu symud oddi ar y safle yn ystod cyfnodau pan fydd neb yn ei ddefnyddio?
- Diogelwch: Sut bydd cael mynediad i, a defnydd o'r safleoedd yn cael eu rheoli drwy gydol y flwyddyn er mwyn sicrhau nad yw cael ei ddefnyddio i ddibenion amhriodol / anawdurdodedig?

4.2 Dylid hefyd nodi nad oes cyfeiriad yn y ddogfen ymgynghori at ddarparu goleuadau artiffisial yn y safleoedd. Os cynigir hyn, yna mae angen cymryd i ystyriaeth yr effeithiau ychwanegol posibl ar y dirwedd.

**MANNAU AROS DROS DRO AR GYFER SIPSIWN A THEITHWYR**

Safle 5 - Tir yn Fferm Tyddyn Lantern, Caergybi	<ul style="list-style-type: none"><li>• Ymddengys bod y safle wedi ei wahanu rhywfaint (ar ffurf datblygiadau diwydiannol) oddi wrth yr eiddo preswyl agosaf a allai weithredu fel byffer rhag problemau posib. Fodd bynnag, mae'n rhaid mynd drwy ardaloedd o dai preswyl i gael at y safle a gallai hynny achosi rhai materion o ran sŵn traffig, yn enwedig pan fydd teithwyr yn cyrraedd yn ystod y nos neu'n gadael yn gynnar yn y bore.</li><li>• Mae cyfyngder lled Ffordd Turkey Shore hefyd yn achosi problemau ar brydiau oherwydd y traffig a'r bysiau gwennol sy'n defnyddio'r maes parcio arhosiad byr. Mae'r safle'n agos at Ganolfan Gymunedol, lle cyn chwarae ac amwynder pwysig Caeau Peibio a'r Llwybr Arfordirol/Llwybr Arfordirol Cymru a allai hynny effeithio'n andwyol ar amwynder.</li><li>• Mae'r ffordd fynediad i'r safle â nifer o lecynnau ychwanegol gyda'r potensial i ddarparu lleoedd gorlif ychwanegol os yw'r safle'n llawn. Gall hyn gael effaith o safbwynt traffig ar drigolion lleol a theithwyr fferi.</li><li>• Gallai'r llefydd ychwanegol sydd ar gael ar y priffyrdd o gwmpas ardaloedd y doc yn ymyl y safle ynddo'i hun ddarparu llecynnau lle gallai sbwriel cyffredinol hel a lle gallai'r teithwyr adael gwastraff yn anghyfreithlon. Byddai hyn yn arwain at broblemau amwynder cyffredinol i drigolion lleol a defnyddwyr y Porthladd.</li></ul>

Rheoleiddio a Datblygu Economaidd Gwasanaethau, CSYM Mehefin 2016





## **Mannau Stopio dros dro posibl ar gyfer Teithwyr Sipsi ar gyfer eu hasesu**

### **Safle 1 - Llain o dir rhwng yr A55/A5 rhwng Llanddaniel a Chroesffordd Star**

Er nad yw manylion mynedfa'r safle wedi'u cyflwyno, byddai'r Awdurdod Priffyrdd yn disgwyl llain gweledd sydd o leiaf 2.4 metr x 215 metr er mwyn i'r fynedfa gydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol. Mae'r safle yn agos i bentref Llanfairpwll sydd â chysylltiadau trafndiaeth da. Mae safle bws ger y safle gyda throedffordd wedi'i leoli yng Ngogledd Orllewin y safle sy'n mynd i fyny tuag at y safle bws.

Mae'r rhwydwaith priffyrdd sy'n arwain at y safle yn un o safon dda a gallai ymdopi'n hawdd â'r defnydd ychwanegol a ragwelir.

Nid yw'r safle mewn lleoliad da ar gyfer cysylltiadau cerdded i Lanfairpwll neu Gaerwen a gan fod y briffordd yn hynod o brysur gyda thraffig yn teithio'n gyflym, gallai hyn effeithio ar ddiogelwch defnyddwyr y safle petai nhw'n dymuno cerdded i'r pentref agosaf.

### **Safle 2 - Llain o dir mewn mân-ddaliad yn Y Gaerwen**

Yn dilyn ymweliad safle a gynhaliwyd gan Swyddogion Priffyrdd CSYM ar 31.3.2016 fel rhan o'r asesiad safleoedd parhaol, nodwyd y sylwadau canlynol:

Ystyriwyd fod y llain gweledd wrth ymuno â'r Briffordd Di-ddosbarth yn ddigonol. Fodd bynnag, byddai angen tynnu cael gwared ag ardal o lystyfiant / gordyfiant sydd wedi'i lleoli o fewn ffiniau'r briffordd er mwyn sicrhau gweledd.

Er mwyn sicrhau llif traffig rhydd i'r ddau gyfeiriad byddai angen creu man pasio rhwng mynedfa bresennol y cae a'r bont sy'n mynd dros yr A55.

O ran cysylltiadau trafndiaeth, does dim troedffordd yn cysylltu'r safle arfaethedig â phentref Gaerwen a'r safle bws agosaf. Nid ydym yn ystyried hon yn opsiwn cynaliadwy.

### **Safle 3 - Tir ger yr A5 yn ymyl Fferm Cymunod, Bryngwran**

Mae'r fynedfa bresennol hon i'r llecyn hwn o dir o'r ffordd ddi-ddosbarth sy'n arwain o'r A5 tuag at Cymunod. Mae'r fynedfa yn is-safonol o ran gweledd, yn enwedig i'r dde, lle mae rhwystr i weledd o ganlyniad i dro yn y ffordd ac ategwaith y bont dros yr A55. Os defnyddir y safle hwn, byddai'n rhaid ystyried mynedfa arall. Yn anffodus, mae'r ffyrntiad i'r ffordd ochr ddi-ddosbarth yn rhy fyr i adleoli'r fynedfa i ddarparu lefel isaf y gweledd angenrheidiol. Yr unig ffyrntiad arall yw i'r A5 a gan fod hon yn Ffordd Dosbarth 1, byddai angen llain gweledd sydd o leiaf 2.4 metr x 215 metr er mwyn bodloni'r canllawiau presennol. Fodd bynnag, o ganlyniad i natur donnog aliniad fertigol yr A5 yn y lleoliad hwn, nid oes modd gweld ymhell o'ch blaen o ganlyniad i droadau a phantiau yn y ffordd, a bwysleisir gan y ddwy linell wen yng nghanol y bffordd. O ystyried natur y dopograffeg yma, mae'n annhebygol y byddai'n bosibl darparu mynedfa a fyddai'n bodloni isafswm y gofynion diogelwch.

Does dim cysylltiadau troedffordd na thrafnidiaeth ger y safle ac mae'r safle bws agosaf wedi'i leoli ym Mryngwran a'r orsaf drenau agosaf wedi'i lleoli yn Y Fali.

#### **Safle 4 - Tir hen fferm, oddi ar Ffordd Cyttir, Caergybi**

Mae'r briffordd sy'n arwain at y safle hwn yn brysur iawn yn ystod yr amseroedd prysuraf gan fod rhieni yn danfon ac yn casglu plant o'r ysgol gyfagos yn Kingsland. Byddai'r traffig ychwanegol a gynigir drwy'r defnydd hwn yn gwaethygu'r sefyllfa a fyddai'n niweidio diogelwch y briffordd a'i defnyddwyr.

Nid yw'r trac sy'n arwain i'r safle o'r man troi ar ben y ffordd yn briffordd ar gyfer cerbydau ar hyn o bryd, mae wedi'i israddio gan Orchymyn Traffig er mwyn cyfyngu'r defnydd i gerddwyr a beicwyr. Os cynigir mynediad drwy'r trac hwn, byddai angen adolygu'r defnydd presennol a byddai angen gwneud darpariaeth er mwyn didoli cerddwyr/beicwyr a'r cerbydau arfaethedig. Byddai'n rhaid diwygio'r gorchymyn traffig presennol. Mae'n debygol y byddai'n rhaid lledaenu'r ffordd bresennol.

Mae'r safle yn agos i ganol tref Caergybi sydd â chysylltiadau trafndiaeth rhagorol.

#### **Safle 5 - Tir yn Fferm Tyddyn Lantern, Caergybi**

Ceir mynedfa i'r safle hwn oddi ar draffordd sydd tua 6.3 metr o led. Mae hyn yn ddigon llydan i 2 gerbyd masnachol allu pasio ei gilydd yn rhwydd. Mae yna hefyd droedffordd dros y ffordd i'r safle sy'n arwain i ganol y dref.

Fe ddylai'r fynedfa a gynigir fod â llain gwelededd o 2.4 metr x 43 metr. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen lleihau'r terfyn i 1.0metr o uchder o fewn y llain gwelededd. Mae'r tir yn briffordd felly bydd angen gosod wal gynnal, yn amodol ar gymeradwyo'r dyluniad a'r strwythur.

Mae'r safle yn agos i ganol tref Caergybi sydd â chysylltiadau trafndiaeth rhagorol.

## **ATODIAD 5 – PRIFFYRDD (DRAENIAD)**

**Gan: Kevin Dogan**

**Anfonwyd: 14 Mehefin 2016**

**At: Evans John Michael**

**Pwnc: Mannau Stopio Posibl ar gyfer Sipsiwn**

Mike,

Cyfeiriaf at eich e-bost dyddiedig 6 Mehefin, 2016 a'r cynlluniau lleoliad atodedig sy'n ymwneud â'r ymholiad uchod.

Rydw i bellach wedi cael y cyfle i adolygu'r safleoedd posibl a nodaf fy sylwadau fel a ganlyn:

### **a) Map Rhif 1 - Tir rhwng yr A55/A5 rhwng Llanddaniel a Chroesffordd Star**

Mae'r cynnig o fewn ardal a wasanaethir gan garthffosydd, fodd bynnag efallai y byddai angen gosod system bwmpio er mwyn gallu cysylltu â'r rhwydwaith.

Mae'r safle wedi'i ffinio i'r dwyrain gan brif afon sy'n gylfat o dan yr A5, ni wyddir a yw'r tir yn dueddol o ddiodef llifogydd ond byddai'n fuddiol cysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru er mwyn darganfod a yw'r cae o dan sylw yn gweithredu fel gorlifdir yn ystod tywydd eithafol.

Dylid cyfeirio dŵr wyneb sy'n rhedeg i ffosydd cerrig priodol neu fel arall, gellid darparu arllwysfa i'r cwrs dŵr.

Dylid cymryd gofal er mwyn sicrhau nad oes unrhyw systemau draenio tir na ffosydd yn cael eu rhwystrol o ganlyniad i unrhyw waith, byddai angen caniatâd ffurfiol dan y Ddeddf Draenio Tir i greu cylfat neu ddargyfeirio unrhyw ffosydd.

### **b) Map Rhif 2, llain o dir mewn mân-ddaliad yn Y Gaerwen**

Mae'r safle y tu allan i'r ardal garthffosiaeth a byddai'n rhaid iddo gael ei wasanaethu gan system garthffosiaeth nad yw'n rhan o'r prif gyflenwad.

Nid oes cofnod o lifogydd dŵr wyneb ar y tir hwn, fodd bynnag, byddai'n fuddiol cysylltu â pherchennog y tir.

Dylid cyfeirio dŵr wyneb sy'n rhedeg i ffosydd cerrig priodol neu fel arall, gellid darparu arllwysfa i'r cwrs dŵr.

Dylid cymryd gofal er mwyn sicrhau nad oes unrhyw systemau draenio tir na ffosydd yn cael eu rhwystrol o ganlyniad i unrhyw waith, byddai angen caniatâd ffurfiol dan y Ddeddf Draenio Tir i greu cylfat neu ddargyfeirio unrhyw ffosydd.

c) **Safle 3 - Tir ger yr A5 yn ymyl Fferm Cymunod, Bryngwran**

Mae'r safle y tu allan i'r ardal garthffosiaeth a byddai'n rhaid iddo gael ei wasanaethu gan system garthffosiaeth nad yw'n rhan o'r prif gyflenwad.

Mae'r tir yn cael ei ffinio i'r gorllewin gan gwrs dŵr ac er nad oes cofnod o lifogydd dŵr wyneb ar y tir hwn, fodd bynnag, byddai'n fuddiol cysylltu â pherchennog y tir.

Dylid cyfeirio dŵr wyneb sy'n rhedeg i ffosydd cerrig priodol neu fel arall, gellid darparu arllwysfa i'r cwrs dŵr.

Dylid cymryd gofal er mwyn sicrhau nad oes unrhyw systemau draenio tir na ffosydd yn cael eu rhwystrol o ganlyniad i unrhyw waith, byddai angen caniatâd ffurfiol dan y Ddeddf Draenio Tir i greu cylfat neu ddargyfeirio unrhyw ffosydd.

d) **Map Rhif 4 - Tir hen fferm, oddi ar Ffordd Cyttir, Caergybi**

Mae'r cynnig o fewn ardal a wasanaethir gan systemau draenio dŵr wyneb a dŵr budur; er nad yw'r rhwydweithiau wedi'u diffinio ar y mapiau carthffosydd terfynol fel carthffosydd cyhoeddus. Y ddealltwriaeth yw bod y systemau draenio hyn yn dal ym mherchnogaeth Llywodraeth Cymru ac y byddai angen eu caniatâd ar gyfer unrhyw gysylltiadau dilynol.

Mae carthffosydd cyfunol cyhoeddus wedi'u lleoli yn Stad Maes Cyttir dros y ffordd, fodd bynnag efallai y bydd unrhyw gysylltiad â'r rhwydwaith hon angen system bwmpio a byddai angen caniatâd yr ymgwymerwr carthffosiaeth, Dŵr Cymru.

Nid oes unrhyw lifogydd dŵr wyneb wedi'i gofnodi ar y tir hwn, fodd bynnag efallai y bydd angen cynllun er mwyn rheoli unrhyw ddŵr sy'n rhedeg oddi ar y tir uwch cyfagos.

Dylid cyfeirio dŵr wyneb sy'n rhedeg i ffosydd cerrig priodol neu fel arall, gellid darparu arllwysfa i'r rhwydweithiau draenio presennol.

e) **Safle 5 - Tir yn Fferm Tyddyn Lantern, Caergybi**

Mae'r safle o fewn ardal a wasanaethir gan garthffosydd cyhoeddus cyfunol a byddai angen i unrhyw gysylltiadau arfaethedig gael eu cytuno arnynt gyda'r ymgwymerwr carthffosiaeth, Dŵr Cymru.

Byddai angen cynllun wedi'i ddylunio'n briodol sy'n defnyddio ffosydd cerrig, neu gellid darparu arllwysfa i'r môr, er mwyn i'r dŵr wyneb allu rhedeg oddi ar y tir.



LONGLIST OF SITES FOR TEMPORARY STOPPING PLACES

Location	Accessibility	Comments on accessibility	The Site	Comments on the Site	Environment	Comments on environment	Availability	Comments on availability	Adjoining usage	Comments on adjoining usage	Total Score
Land adjacent to Bwlch Gwyn Quarry, Gaerwen	2	Approx from 1.5 miles from A55 junction but access would be made via narrow lane and via the village of Gaerwen which could issues.	3	No hardstanding. No existing access onto site	3	Near to old quarry site which could present Health and Safety issues. Quiet environment.	1	Private ownership	2	Adjacent to a few residential properties.	12
Land on Eastern boundary within Anglesey Showground	3	Access direct to A5 with junction to A55 approx 3 miles.	2	Liable to flood - marshy	3	Limited road noise. Noise from aircraft.	2	Private ownership	2	Adjacent Anglesey Showground. Mona airfield directly across road. Businesses at Mona industrial estate in vicinity.	12
Land immediately East of Gady's Tŷllgate, Gwalchmai	2.5	Access direct to A5. Likely access to A55 would be via Gwalchmai to A55 junction	3.5	Level, Not cultivated	3.5	Limited road noise.	2	Private ownership	2	Several residential properties adjacent.	13.5
Land immediately to the rear and West of Ty Newydd, Tŷllgate, Gwalchmai	2.5	Access direct to A5. Likely access to A55 would be via Gwalchmai to A55 junction	3.5	Level, not cultivated	3.5	Limited road noise.	2	Private ownership	2	Several residential properties adjacent.	13.5
Land between A55 and A5 North of Cymnod Farm, Bryngwran	3.5	Straightforward access onto A5 and approx 1 mile from A55	3.5	Level, screened from A55	3	Road noise from A5 and A55	2	Private ownership	3	Directly adjacent A55. Residential properties not directly adjacent but further down access lane.	15
Land South of Dalar Hir, Bodedern	3.5	Layby which accesses direct onto A5 and close to Dalar Hir A55 junction.	3.5	Some existing hardstanding but additional pasture would require hardstanding	3	Road noise from A5 and A55	2(?)	Partial private ownership	4	Directly adjacent A55. No business or residential properties immediately adjacent.	16
Land East of Heulfre, Caergeiliog	3.5	Easy access to junction with A55	2.5	Small (perhaps 6 caravans), pasture. Proximity to drainage	3	Road noise from A5 and A55	2	Private ownership	4	Directly adjacent A55. No business or residential properties immediately adjacent.	15
Land adjacent and West of Gwaelod Bach, Caergeiliog	3.5	Easy access to junction with A55	3	Pasture	3.5	Limited road noise.	2	Private ownership	3	Adjacent ruined property. Further residential properties back from other side of road.	15
Land opposite and South of Cerrig Baban, Caergeiliog	3.5	Easy access to junction with A55	3	Pasture	3.5	Limited road noise.	2	Private ownership	3	Residential properties back from other side of road.	15
Land East of Bryn Ednyfed, Caergeiliog	3.5	Easy access to junction with A55	3	Pasture	3.5	Limited road noise.	2	Private ownership	2.5	Residential properties across adjacent fields.	14.5
Property North of Dol Eithin, Caergeiliog (Llanfihangel Yn Nhowyn)	2.5	Access via single track onto Minffordd Road to nearby junction of A55.	3	Old factory with hardstanding around. Building would have to be made safe and	3	The old factory site would have potential health and safety issues.	2	Private ownership	2	Adjacent to residential housing estate.	12.5
Land at Cyttr Road, Holyhead (South East of Kingsland School)	1	Access via narrow lane to one side of Kingsland School. Work would be needed to improve access, subject to Highways approval.	4	Flat site.	4	Few environmental concerns.	3	Private ownership	2	Access means passing residential dwellings and school.	14
Fish dock, Turkey Shore Road, Holyhead Port	3.5	Access to Ferry terminal via narrow but quiet road.	4	Hardstanding and existing boundaries in place. Existing access from road.	2	Close proximity to edges of dock is a concern from Health and Safety perspective.	2	Leased by IACC but lease in process of being given up.	3	Business operate from units near the site. No residential dwellings in close proximity.	14.5

LONGLIST OF SITES FOR TEMPORARY STOPPING PLACES

Location	Accessibility	Comments on accessibility	The Site	Comments on the Site	Environment	Comments on environment	Availability	Comments on availability	Adjoining usage	Comments on adjoining usage	Total Score
Tyddyn Lantern, Ffordd Tudur, Holyhead	3.5	Access to Ferry terminal via narrow but quiet road.	2	Steep gradient may make creation of access to site problematic. Ground is only level in parts. Rocky outcrops.	3	Generally suitable but not far from dock which may raise health and safety concerns.	2	Private ownership	3.5	On basis of using bottom corner of the plot which is furthest from homes/ community centre at top of rise.	14





This page is intentionally left blank

<b>CYNGOR SIR YNYS MÔN</b>	
<b>PWYLLGOR:</b>	<b>Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>19 Gorffennaf, 2016</b>
<b>PWNC :</b>	<b>Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021 (drafft)</b>
<b>AELODAU PORTFOLLIO( AU):</b>	<b>Y Cynghorydd Ieuan Williams</b>
<b>PENNAETH GWASANAETH:</b>	<b>Annwen Morgan</b>
<b>AWDUR YR ADRODDIAD</b>	<b>Carol Wyn Owen</b>
<b>Rhif Ffôn:</b>	<b>01248 752561</b>
<b>E-bost:</b>	<b>Carol Wyn@ynysmon.gov.uk</b>

## **1.0 ARGYMHELLION**

Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ystyried cynnwys y Strategaeth Iaith Gymraeg (drafft) a chyflwyno unhyw sylwadau.

## **2.0 CEFNDIR**

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn galluogi gweinidogion i bennu safonau ymddygiad sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Yn yr Hysbysiad Cydymffurfio â'r Safonau, pennwyd Safonau 145 a 146 mewn perthynas â chreu Strategaeth Iaith Gymraeg. Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth, rhaid i'r Cyngor Sir fabwysiadu Strategaeth Iaith Gymraeg pum mlynedd a'i chyhoeddi ar ei wefan erbyn 30 Medi, 2016.

Bydd y Strategaeth hon yn amlinellu sut y bwriedir mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach o fewn yr ardal ac yn gosod targed ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg erbyn diwedd y cyfnod o bum mlynedd o dan sylw. Bum mlynedd ar ôl cyhoeddi'r Strategaeth, bydd angen cyhoeddi fersiwn diwygiedig ohoni yn ogystal ag asesiad o'i chyflawniad.

Mae Fforwm Iaith Strategol Ynys Môn wedi bod yn cydweithio'n fwriadus dros y misoedd diwethaf i gynhyrchu'r Strategaeth Iaith Gymraeg partneriaethol (drafft) hon sy'n gosod y weledigaeth a'r cynllun gweithedu ar gyfer y flwyddyn gyntaf. Y bwriad ydi cynhyrchu cynllun gweithredu ar gyfer yr ail flwyddyn cyn diwedd blwyddyn gyntaf y Strategaeth. Cyfrifoldeb y Fforwm Iaith Strategol fydd monitro cynnydd yn erbyn targedau'r Strategaeth.

Awdur: Carol Wyn Owen  
Teitl Swydd: Rheolwr Polisi a Strategaeth  
Dyddiad: 7 Gorffennaf, 2016

ATODIAD - Strategaeth Iaith Gymraeg (drafft)
--

# **Strategaeth Iaith Gymraeg 2016 - 2021**

**DRAFFT**

**Fforwm Strategol Iaith Ynys Môn**

**Dyddiad Cyhoeddi: Medi 2016**

## Y Fforwm Strategol Iaith

Mae Fforwm iaith partneriaethol yn bodoli ar lefel sirol er mwyn rhoi ffocws strategol i'r iaith Gymraeg ar yr Ynys. Y Fforwm sy'n gyfrifol am adnabod blaenoriaethau a llunio'r Strategaeth hon. Aelodaeth y Fforwm Strategol iaith:

Derec Llwyd Morgan - Cadeirydd annibynnol

Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr  
Consortiwm Addysg ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn  
Cymdeithas yr Iaith  
Cyngor Gwynedd  
Cyngor Sir Ynys Môn  
Ffermwyr Ifanc  
Grŵp Llandrillo Menai  
Heddlu Gogledd Cymru  
Medrwn Môn  
Menter Iaith Môn  
Menter Môn  
Môn CF  
Mudiad Meithrin  
Prifysgol Bangor  
Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (Gwynedd a Môn)  
Unllais Cymru  
Llys Eisteddfod Môn  
Llywodraeth Cymru  
YGanolfan Cymraeg i Oedolion  
Yr Urdd



**Manylion cyswllt:**

Carol Wyn Owen  
Swyddog Iaith  
Gwasanaethau Democrataidd  
Busnes y Cyngor  
Cyngor Sir Ynys Môn  
Swyddfa'r Sir  
Llangefni  
Ynys Môn  
LL77 7TW

Rhif Ffôn : 01248 752561  
Rhif Ffacs : 01248 750839  
E-bost : [CarolWyn@ynysmon.gov.uk](mailto:CarolWyn@ynysmon.gov.uk)

Rydym yn hapus i ddarparu'r wybodaeth hon mewn fformatau eraill ar gais – defnyddiwch y manylion cyswllt uchod os gwelwch yn dda.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Saesneg.  
This document is available in English.

<b>Rhagarweiniad</b> .....	5
<b>Deddfwriaeth a Chyd-destun Polisi</b> .....	6
Iaith Fyw: Iaith Byw 2012-2017 .....	6
Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg 2010 .....	7
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 .....	7
Datganiad Polisi Cenedlaethol Cyffredinol am Ynni – EN-1 (2011) .....	8
Datganiad Polisi Cenedlaethol ynglŷn â Chynhyrchu Pŵer Niwclear – EN-6 (2011) .....	8
 <b>Darlun o sefyllfa'r Gymraeg yn Ynys Môn</b> .....	9
Trosolwg o'r ardal leol .....	9
Prif ganlyniadau Cyfrifiad 2011 .....	10
Gwlad geni .....	11
Wardiau Etholiadol .....	11
Siaradwyr Cymraeg fesul oedran .....	14
Mudo .....	16
<b>Ffocws y Strategaeth</b> .....	17
 <b>Maes Blaenoriaeth 1 – Plant a Phobl Ifanc / Y Teulu</b>	
Y nod, y canlyniad a ddymunir a'r dangosyddion perthnasol .....	18
Trosglwyddiad iaith .....	19
Cynllun Addysg Gymraeg Ynys Môn.....	20
Addysg Bellach .....	21
Defnydd Cymdeithasol Plant a Phobl Ifanc o'r Gymraeg.....	23
 <b>Maes Blaenoriaeth 2 – Y Gweithle, Gwasanaethau Cymraeg, Y Seilwaith</b>	
Y nod, y canlyniad a ddymunir a'r dangosyddion perthnasol .....	25
Y Gymraeg yn y gweithle .....	25
Argaeledd gwasanaethau Cymraeg .....	27
 <b>Maes Blaenoriaeth 3 – Y Gymuned</b>	
Y nod, y canlyniad a ddymunir a'r dangosyddion perthnasol .....	28
Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ar lefel gymunedol .....	29
Y Cynllun Datblygu Lleol .....	29
Tai .....	31
Materion economaidd-cymdeithasol .....	32
Twristiaeth .....	33
Rhaglen Ynys Ynni .....	34
<b>Atodiad: Cynllun Gweithredu – Blwyddyn 1</b>	

## Rhagarweiniad

Cyflwynir y Strategaeth Iaith Sirol ger eich bron. Croesewir y ffaith ei bod hi yn ofynnol i Gyngor Sir Ynys Môn baratoi strategaeth o'r fath.

Mae'r strategaeth hon yn ffrwyth llafur y Cyngor ynghyd â nifer o'i bartneriaethau sydd wedi cyfarfod yn gyson dan yr enw Fforwm Iaith Ynys Môn. Ar gyfer y strategaeth gyntaf hon, cytunodd y fforwm i ganolbwyntio ar dair thema sef:

- **Plant a Phobl Ifanc a'r Teulu**
- **Y Gweithlu, Gwasnaethau Cymraeg, Y Seilwaith**
- **Y Gymuned**

Mae Ynys Môn yn y blynyddoedd nesaf yn wynebu llawer o heriau, gan gynnwys heriau ieithyddol. Yn yr un modd bydd cyfleoedd i gryfhau'r Gymraeg ac mae'n hynod o bwysig ein bod yn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd drwy gydweithio gyda'n gilydd ym Môn. Rhaid bod yn realistig gan ymdrechu i fod mor rhagweithiol â phosib.

Yn ogystal â'r Strategaeth, paratowyd Cynllun Gweithredu blwyddyn sy'n canolbwyntio i gychwyn ar y camau ymarferol pwysicaf a gwneud hynny o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Y Cynllun hwn sy'n rhoi ein Strategaeth ar waith a'r bwriad yn ystod 2016-17 ydyw monitro cynnydd y camau gweithredu yng nghyfarfodydd y Fforwm Iaith yn ystod 2016-17.

Heb os, gall pob un ohonom sy'n darllen y Strategaeth a'r Cynllun nodi yn ddidrafferth sawl peth arall y mae angen ei wneud i sicrhau fod y Gymraeg yn ffynnu yn Ynys Môn. Ein nod ydyw canolbwyntio ar lai a sicrhau y gwneir gwahaniaeth.

Ein gweledigaeth ar gyfer Cyfrifiad 2021 ydyw gweld cynnydd yn y nifer sy'n siarad y Gymraeg a bod y ganran yn codi i o leiaf 60.1% fel ag yr ydoedd yn 2001. O gydweithio a chymryd camau ymarferol, y mae hynny yn gyraeddadwy.



## Deddfwriaeth a chyd-destun polisi

Yn ôl yn 1993 pasiwyd Deddf yr Iaith Gymraeg oedd yn gosod yr egwyddor y dylid trin y Gymraeg yn gyfartal â'r Saesneg wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru. Prif ofynion y ddeddf oedd:

- gorfodi cyrff cyhoeddus yng Nghymru i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg ac i baratoi cynllun i ddangos sut maent yn bwriadu defnyddio'r iaith
- rhoi hawl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn llys barn yng Nghymru
- creu Bwrdd yr Iaith i oruchwyllo defnydd o'r iaith gan gyrrff cyhoeddus ac i gymeradwyo cynlluniau iaith cyrff cyhoeddus.

Ar sail y ddeddf, fe wnaeth Cyngor Sir Ynys Môn fabwysiadu'r egwyddor o drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal ac fe gymeradwywyd pedwerydd argraffiad Gynllun Iaith Gymraeg y Cyngor gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg o dan Adran 14(1) y Ddeddf ar 26 Mawrth, 2012.

Deunaw mlynedd yn ddiweddarach, fe greuwyd fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer y Gymraeg gyda phasio Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'r Mesur yn cynnwys:

- sicrhau statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru
- sefydlu swydd Comisiynydd y Gymraeg
- creu trefn o gyflwyno dyletswyddau ar ffurf safonau iaith
- creu darpariaeth ar gyfer hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg

Nod y Mesur Iaith newydd yw cynnig mwy o eglurder a chysondeb i siaradwyr Cymraeg o ran y gwasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn yn y Gymraeg. Mae'r Mesur yn seiliedig ar yr egwyddorion a ganlyn:

- ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

### Iaith Fyw: Iaith Byw 2012-2017

Yn 2003, fe gyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei fframwaith strategol ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg sef 'Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwylieithog'.

Yn ystod 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymraeg ddatganiad polisi drafft, '*Iaith fyw: iaith byw - Bwrw mlaen*' sy'n amlinellu sut y bwriedir canolbwyntio ar weithredu'r strategaeth '*Iaith fyw: iaith byw*' dros y tair blynedd nesaf. Y nod strategol yw cynyddu nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg ac ehangu'r defnydd cyffredinol a wneir o'r Gymraeg.

Er mwyn cyflawni hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi gosod chwe nod, sef:

- annog a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd
- cynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc a chynyddu eu hymwybyddiaeth o werth yr iaith
- cryfhau safle'r Gymraeg o fewn y gymuned
- cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle
- cynyddu a gwella gwasanaethau Cymraeg i ddinasyddion
- cryfhau'r seilwaith ar gyfer yr iaith, gan gynnwys technoleg ddigidol.

Er mwyn gwireddu'r nodau hyn yn llwyddiannus, cydnabyddir gan y Llywodraeth bod angen mewnbwn gan nifer o sefydliadau ledled Cymru. Mae'r egwyddorion gogyfer gwireddu'r weledigaeth yn seiliedig ar ddau faes sef '**caffael yr iaith**' a '**defnyddio'r iaith**'. Er mwyn annog plant a phobl i gaffael yr iaith, anogir trosglwyddo'r iaith ar yr aelwyd a chynyddu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg. I gynyddu'r defnydd o'r iaith rhoddir pwyslais ar gynyddu cyfleoedd i'w defnyddio ar lefel cymdeithasol, yn gymunedol, yn y gweithle a thrwy gyfrwng gwasanaethau cyfrwng Cymraeg. Byddai hyn yn ei dro yn cynyddu hyder pobl a'u rhuglder yn yr iaith ac yn cryfhau sefyllfa'r Gymraeg o fewn ein cymunedau.

### **Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg 2010**

Roedd cyhoeddi'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg ym mis Ebrill 2010 yn garreg filltir bwysig yn hanes datblygiad addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghymru. Am y tro cyntaf gosododd Llywodraeth Cymru ei gweledigaeth i gael '*system addysg a hyfforddiant sy'n ymateb mewn ffordd wedi'i chynllunio i'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg ... ac sy'n sicrhau cynnydd yn nifer y bobl o bob oedran a chefnidir sy'n rhugl yn y Gymraeg ac sy'n gallu defnyddio'r iaith gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle.*' Mae'r Strategaeth hefyd yn nodi'r cyfeiriad ar gyfer gwella safonau addysgu a dysgu'r Gymraeg fel iaith, ac yn benodol, Cymraeg ail iaith.

Mae'r cyfnod cychwynnol pum mlynedd o weithredu bellach wedi dod i ben ac mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi datganiad polisi, sef '*Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: y camau nesaf*' sy'n amlinellu'r ffordd ymlaen ar gyfer datblygu addysg cyfrwng Cymraeg a'r iaith Gymraeg rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017.

Mae hefyd yn bwysig cofio bod y Strategaeth yn eistedd ochr yn ochr â Strategaeth Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru- *Iaith fyw: iaith byw* (2012). Mae rhyngddibyniaeth clir rhwng y ddwy strategaeth gan fod cyfraniad pwysig gan y sector addysg a sgiliau i'w wneud i gefnogi'r nod ehangach o weld yr iaith yn ffynnu ac i gynyddu caffaeliad a defnydd o'r Gymraeg.

### **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Bydd yn helpu'r cyrff cyhoeddus perthnasol i feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a'i gilydd, ceisio atal problemau a dilyn dull gweithredu cyson. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus sicrhau eu bod yn ystyried yr effaith a gaiff eu penderfyniadau ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol.

Mae 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu' yn un o'r saith nod llesiant o fewn y Ddeddf y disgwylir i gyrrff cyhoeddus eu gwireddu a gwneud y cyfraniad gorau tuag atynt. Disgrifir y nod yma fel:

*'Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden'.*

### **Datganiad Polisi Cenedlaethol Cyffredinol am Ynni: EN-1 (2011)**

Mae'r Datganiad Polisi Cenedlaethol hwn yn rhestru'r meini prawf a ddefnyddir wrth benderfynu ynghylch ceisiadau sy'n ymwneud â phrosiectau seilwaith cenedlaethol eu harwyddocâd. Mae GNN Wylfa yn brosiect o'r fath. Mae'r Datganiad yn argymhell yr hyn y dylid canolbwyntio arno yn y Datganiad Amgylcheddol a gyflwynir gyda'r cais. Mae'r Datganiad Polisi Cenedlaethol (ym mhara 5.12.3) yn dweud y dylai Datganiadau Amgylcheddol ystyried pob effaith gymdeithasol-economaidd, a allai gynnwys:

- Creu cyfleoedd am swyddi a hyfforddiant;
- Darparu gwasanaethau lleol ychwanegol a gwella'r seilwaith lleol, gan gynnwys darparu cyfleusterau addysgol a chyfleusterau i ymwelwyr;
- Effeithiau ar dwristiaeth;
- Effaith y nifer amrywiol o weithwyr sy'n llifo i mewn i'r ardal yn ystod gwahanol gamau'r gwaith adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r seilwaith ynni. Gallai hyn newid deinameg y boblogaeth leol ac fe allai newid y galw am wasanaethau a chyfleusterau yn yr aneddiadau sydd agosaf at y gwaith adeiladu (gan gynnwys cyfleusterau cymunedol a seilwaith ffisegol megis ynni, dŵr, trafndiaeth a gwastraff). Fe allai hyn hefyd effeithio ar gydlyniant cymdeithasol a dibynnu ar sut y bydd poblogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir yn newid yn sgîl y datblygiad;
- Effeithiau cronnos - petai caniatâd datblygu yn cael ei roi ar gyfer nifer o brosiectau mewn rhanbarth a'r rhain yn cael eu datblygu fwy neu lai o fewn yr un cyfnod, fe allai hynny greu nifer o effeithiau negyddol tymor byr, er enghraifft, diffyg gweithwyr adeiladu o bosibl i ddiwallu anghenion diwydiannau eraill a phrosiectau mawr yn y rhanbarth.
- Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

### **Datganiad Polisi Cenedlaethol ynglŷn â Chynhyrchu Pŵer Niwclear: EN-6 (2011)**

Gyda golwg yn benodol ar Orsaf Niwclear Newydd Wylfa, mae Cyfrol II o'r Datganiad Polisi Cenedlaethol yn dweud bod pryder am ddylanwad mewnlfif o weithwyr i'r ardal ar yr iaith, ar ddiwylliant ac ar les.

## Darlun o sefyllfa'r Gymraeg yn Ynys Môn

### Trosolwg o'r ardal leol

Mae Ynys Môn yn cael ei chyfrif yn un o gadarnleoedd y Gymraeg ac mae'r iaith Gymraeg yn elfen naturiol o fywyd pob dydd yr ynys ac mae'n adlewyrchiad o'i thraddodiadau a'i diwylliant. Ynghlwm â hyn mae hanes a diwylliant Cymreig cyfoethog yn diffinio'r ardal a'i thrigolion. Mae cynaliadwyedd yr iaith Gymraeg yn ddibynnol ar y broses o wella cymunedau Cymraeg trwy ddarparu digon o gyfleoedd addysgol, diwylliannol a chymdeithasol i ddefnyddio'r iaith o ddydd i ddydd. Ceir y cyfleoedd hyn trwy'r dulliau ffurfiol megis y gyfundrefn addysg a dosbarthiadau iaith ar gyfer dysgwyr a thrwy dulliau anffurfiol megis cymdeithasau, mudiadau a chlybiau.

### Prif ganlyniadau Cyfrifiad 2011

Y ffynhonnell bwysicaf o ganfod ystadegau am sefyllfa'r Gymraeg yw'r Cyfrifiad a dengys ffigyrau Cyfrifiad 2011 bod gostyniad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn Ynys Môn o 38,893 (60.1%) yn 2001 i 38,568 (57.2%) yn 2011. Mae'r gostyngiad hwn o 325 o unigolion yn gyfystyr â gostyngiad o 0.8% yn nifer siaradwyr Cymraeg y Sir. Yn 2011, roedd 45.6% yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg a 10.7% yn deall Cymraeg yn unig<sup>1</sup>. Doedd dim sgiliau gan 30.4%. Serch hynny, mae gan Ynys Môn yr ail gyfradd uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru.

Nifer y siaradwyr Cymraeg yn Ynys Môn 2011						
	Poblogaeth dros dair blwydd oed	Siarad Cymraeg ond nid yn darllen na'i hysgrifennu	Siarad a darllen Cymraeg ond nid yn ei hysgrifennu	Siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg	Cyfuniad arall o sgiliau	Dim gwybodaeth o'r Gymraeg
		%	%	%	%	%
Ynys Môn	67,403	7	4.3	45.6	1.9	30.4
Cymru	2,955,841	2.7	1.5	14.6	2.5	73.3

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

Dengys yr arolwg ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg, 'Y Defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru, 2013-15 isod niferoedd a chanrannau'r bobl sydd yn siarad Cymraeg bob dydd ym Môn o'i gymharu â Chymru gyfan. Gwelwn o'r tabl isod y newid ers Arolygon Defnydd Iaith 2004-06.

<sup>1</sup> Llywodraeth Cymru, Cyflwyniad i Fforwm Strategol Ynys Môn 24/09/13

<b>Siaradwyr Cymraeg yn siarad yr iaith bob dydd</b>						
	<b>2004-06</b>		<b>2013-15</b>		<b>Gwahaniaeth</b>	
	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>	<b>Nifer</b>	<b>Pwynt Canrannol</b>
<b>Ynys Môn</b>	31,500	87	29,500	77	-2000	-9
<b>Cymru</b>	342,300	63	360,900	53	18,600	-9

Mae'r arolwg 'Y Defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru, 2013-15' yn nodi bod cyswllt clir rhwng rhuglder ac amllder defnydd y Gymraeg. Mae mwy o gyfleoedd i siarad yr iaith yn yr ardaloedd lle ceir y crynodiadau uchaf o siaradwyr Cymraeg, megis Ynys Môn ac mae'n hynod bwysig bod y strategaeth hon yn adnabod cyfleoedd pellach i drigolion ddefnyddio'r Gymraeg.

Dengys y tabl isod fod nifer y bobl yn Ynys Môn sydd yn gallu siarad Cymraeg wedi gostwng o 80% yn 1951 i 57% erbyn 2011.

<b>Newidiadau yn y nifer a'r % o Siaradwyr Cymraeg ers 1951</b>		
<b>Blwyddyn</b>	<b>Ynys Môn</b>	<b>Cymru</b>
1951	38,443 (80.0%)	714,700 (28.9%)
1961	37,101 (75.0%)	656,000 (26.0%)
1971	37,135 (66.0%)	542,400 (20.8%)
1981	39,229 (61.0%)	508,200 (18.9%)
1991	41,240 (61.9%)	500,000 (18.5%)
2001	38,893 (60.1%)	582,368 (20.7%)
2011	38,568 (57.2%)	562,016 (19%)

Er y bu dirywiad sylweddol yn y canran o siaradwyr Cymraeg, mae'n ddiddorol nodi bod y nifer o siaradwyr Cymraeg yn 2011 (38,568) ychydig yn uwch na'r nifer yn 1951 (38,443). Mae'n debyg bod hyn yn adlewyrchu'r twf cyffredinol yn y boblogaeth yn sgîl datblygiadau gweithfeydd mawr yn y 1960au megis Gorsaf Ynni Niwclear Wylfa a gwaith mwyndoddi Alwminiwm Môn.

Mae Arolwg o'r Defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru 2013-2015 ar y cyd rhwng Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg yn dangos mwy o ostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl yn Ynys Môn yn 2013-15 nag oedd yn 2004-06. Roedd y gostyngiad hwn yn 2,600 ac yn cyd-fynd â'r patrwm cenedlaethol lle gwelwyd y gostyngiadau mwyaf o siaradwyr Cymraeg rhugl mewn ardaloedd awdurdodau lleol gyda'r canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg.

Mae nifer o ffactorau demograffig yn gyfrifol am y gostyngiad hwn megis effaith mewnfudo ar y boblogaeth, lleihad yn y niferoedd o gartrefi pobl hŷn yn siarad Cymraeg ac allfudo'r ifanc i ddilyn cyrsiau addysgol ac i ddilyn gyrfaoedd. Yn ogystal, mae'r economi wan a'r orddibyniaeth ar y sector gyhoeddus a darparu a rhai diwydiannau penodol ynghyd â'r farchnad dai anwastad yn cyfrannu at yr heriadau sy'n wynebu siaradwyr Cymraeg i aros yn eu cymunedau.

Gall y lleihad mewn trosglwyddiad iaith o fewn y teulu fod yn ffactor arall dros y dirywiad ac mae'n allweddol bod yr elfen hon yn derbyn y sylw dyledus. Yn ogystal, mae angen camau rhagweithiol i gynyddu nifer y disgyblion sy'n derbyn asesiad drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen gan fod hyn yn greiddiol i feithrin hyder i ddefnyddio'r Gymraeg o'r cychwyn cyntaf. Bydd y strategaeth hon yn ymdrin yn rhagweithiol â'r elfen hon.

## Gwlad geni

Cynyddodd canran y boblogaeth a anwyd tu allan i Gymru o 32.4% yn 2001 i 33.6% yn 2011. Yn 2011, o'r rhai a anwyd yng Nghymru, gallai 78.2% siarad Cymraeg o'i gymharu â 80.8%. Yn 2011, o'r rhai anwyd tu allan i Gymru, gallai 17.6% siarad Cymraeg o'i gymharu â 18.7% yn 2001.

## Wardiau Etholiadol

Mae'r gyfran o siaradwyr Cymraeg yn amrywio ar Ynys Môn fesul ward etholiadol. Gwelir y cyfraddau uchaf o siaradwyr Cymraeg yn yr ardaloedd mwyaf canolog, tra bod y gyfradd yn dueddol o ostwng yn is tua gorllewin yr ynys, yn enwedig o amgylch ardal Caergybi.

Mae'r tablau isod yn dangos y deg ward uchaf a'r deg ward isaf yn ôl cyfran y bobl 3 oed a throsodd oedd yn gallu siarad Cymraeg yn 2001 a 2011:

<b>Cyfran y bobl (3 oed a throsodd) yn gallu siarad Cymraeg, fesul ward, 2001 a 2011 – y deg uchaf:</b>					
Enw Ward	2001		2011		Newid
	Safle	Canran	Safle	Canran	
Cyngar	1	84.7%	1	80.8%	-3.9%
Tudur	2	83.6%	2	80.7%	-2.9%
Cefni	3	83.1%	3	80.5%	-2.6%
Llanfihangel Ysgeifiog	4	78.3%	4	75.8%	-2.5%
Bodffordd	5	77.9%	5	73.3%	-4.6%
Braint	6	77.1%	6	73.2%	-3.9%
Bryngwran	7	76.1%	7	71.2%	-4.9%
Gwyngyll	8	73.9%	8	70.5%	-3.4%
Bodorgan	9	72.7%	10	68.3%	-4.4%
Llannerch-y-medd	10	72.3%	9	69.9%	-2.4%

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 a Chyfrifiad 2011*

**Cyfran y bobl (3 oed a throsodd) yn gallu siarad Cymraeg, fesul ward, 2001 a 2011 – y deg isaf:**

Enw Ward	2001		2011		Newid
	Safle	Canran	Safle	Canran	
Biwmares	1	39.7%	4	39.5%	-0.2%
Rhosneigr	2 (cydradd)	42.6%	1	36.0%	-6.6%
Trearddur	2 (cydradd)	42.6%	2	38.1%	-4.5%
Caergybi – ward y Dref	4	43.2%	3	39.1%	-4.1%
Maeshyfyd	5	43.7%	7	40.6%	-3.1%
Morawelon	6	45.3%	6	40.4%	-4.9%
Llanbedrgoch	7	45.5%	9	43.9%	-1.6%
Porthyfelin	8	45.7%	5	39.7%	-6.0%
Kingsland	9	48.0%	8	42.9%	-5.1%
Moelfre	10	51.4%	10	52.3%	0.9%

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 a Chyfrifiad 2011*

Yn 2001 roedd 10 o wardiau Ynys Môn gyda dros 70% o'u poblogaeth yn siarad Cymraeg ond, erbyn 2011 roedd y nifer wedi gostwng i 8 ward. Cafodd pwysigrwydd cymunedau sydd â 70% a mwy o'r boblogaeth dros 3 oed yn siarad Cymraeg ei nodi yn *Iaith Pawb*, sef Cynllun Gweithredu Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer creu Cymru Ddwieithog a gyhoeddwyd yn 2003. Roedd atal y dirywiad yn y nifer o gymunedau sydd yn cynnal lefel cymharol uchel o hyfywedd ieithyddol yn un o dargedau allweddol y strategaeth. Pwysleisir yn *Iaith Pawb* mai'r nod erbyn 2011 yw:-

- Bod y lleihad yn nifer y cymunedau lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad gan dros 70% o'r boblogaeth yn cael ei atal

Cyfeiriwyd yn y ddogfen bolisi at y ffaith bod nifer y cymunedau â dros 70% yn siarad Cymraeg wedi gostwng dros y degawdau diwethaf a bod perygl y gallai'r lleihad fygwth dyfodol y Gymraeg fel iaith gymunedol, fyw:-

'Gellid dadlau pe bai'r dirywiad yn parhau y gallai fygwth bodolaeth yr iaith Gymraeg gan na fyddai ganddi fwyach amgylchedd naturiol lle câi'r iaith ei siarad yn arferol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd cymdeithasol.'

Gan fod sefyllfa'r Gymraeg yn fwy bregus erbyn hyn mae 70% wedi cael ei dderbyn fel 'pwynt tipio'. Fel mae'r term yn ei awgrymu mae arbenigwyr ym maes cymdeithaseg iaith o'r farn bod y broses o encilio yn cyflymu wrth i ganran y siaradwyr ostwng dan y lefel hwn. Mae'r dirywiad wedyn yn sydyn ac yn digwydd am lawer o resymau gwahanol - yn bennaf oherwydd cynnydd mewn priodasau cymysg eu hiaith, lleihad yn amllder y defnydd, diffyg hyder, ymlediad cynyddol y Saesneg i beuoedd cymdeithasol y Gymraeg a chanfyddiad o ddiffyg gwerth yr iaith mewn byd sydd yn raddol ddatblygu'n fwyfwy unfurf ac Eingl-Americanaid.

Yn 2011, roedd tair ward gyda dros 80% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg a lleolir y dair ward yma yn Llangefni. Ward Cyngar oedd y ward gyda'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg (80.8%), wedi'i ddilyn gan wardiau Tudur (80.7%) a Chefni (80.5%).


Roedd y gyfran isaf o siaradwyr Cymraeg yn 2011 yn ward Rhosneigr, gydag ond 36.0% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Gwelwyd y dirywiad mwyaf yn y gyfran o siaradwyr Cymraeg yn Aberffraw, lle bu gostyngiad o 69.4% yn 2001 i 60.4% yn 2011.

Wrth edrych ar ddsbarthiad holl wardiau'r ynys yn ôl cyfran y bobl 3 oed a throsodd oedd yn gallu siarad Cymraeg, yn 2001 roedd 27 o wardiau lle roedd dros hanner y boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg ond mae'r niferoedd yn gostwng wrth i ni edrych ar ardaloedd o gwmpas y glannau a threfi glan y môr. Mae'r 27 o wardiau (67.5%) lle'r oedd dros hanner y boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg yn Ynys Môn yn 2011 yn is na'r 31 o wardiau (77.5%) yn 2001.

DRAFT



## Canran y Siaradwyr –Rhanbarthau Etholiadol Proportion of Speakers – Electoral Divisions



### Siaradwyr Cymraeg fesul oedran

Mae canran y siaradwyr Cymraeg ar Ynys Môn yn amrywio fesul categori oedran ac mae Ffigwr 1 yn dangos cyfran y boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg, yn ôl grwpiau oedran, yn 2001 a 2011. Mae Tabl 1 ar y dudalen nesaf hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y niferoedd o siaradwyr Cymraeg fesul grŵp oedran ar gyfer y ddau gyfnod.

Fel y gwelir yn Ffigwr 1, yn 2011 gallai cyfrannau cymharol uwch o'r boblogaeth yn y grwpiau oedran iau siarad Cymraeg, gyda'r gyfran uchaf yn y grŵp oedran 5-15 oed. Mae cynnydd yng nghyfran y plant 5-15 mlwydd oed sy'n gallu siarad Cymraeg o 77.8% yn 2001 i 80.1% yn 2011, sef cynnydd o 2.3 pwynt canran. Mae'n debyg y

gellir priodoli'r cynnydd bychan yn y grŵp oedran hwn i lwyddiant Polisi Addysg y Sir. Er y cynnydd yma yn y gyfran sy'n gallu siarad Cymraeg, gwelwyd gostyngiad o 924 o unigolion (12.6%) yn nifer y siaradwyr Cymraeg 5-15 mlwydd oed. Dyma'r dirywiad mwyaf o ran nifer y siaradwyr Cymraeg o blith pob grŵp oedran. Mae'n debyg bod y ffaith fod 1,426 yn llai o blant 5-15 oed yn 2011 nag yn 2001 yn cyfrannu'n sylweddol at y sefyllfa.


Gwelwyd cynnydd o 1.3 pwynt canran yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg ymysg y grŵp oedran 25-39, gan newid o 59.0% yn 2001 i 60.3% yn 2011. Unwaith eto, nid yw'r cynnydd yma o ran cyfran o siaradwyr Cymraeg yr un sefyllfa o ran y nifer o siaradwyr Cymraeg. Gwelwyd gostyngiad o 496 o unigolion (7.0%) yn nifer y siaradwyr Cymraeg 25-39 mlwydd oed dros gyfnod o ddeg mlynedd. Mae yn yn arwyddocaol iawn o safbwynt cynllunio iaith gan mai dyma'r grŵp oedran sydd fwyaf tebygol o fagu teuluoedd dros y blynyddoedd nesaf. Mae allfudo'r ifanc i ddilyn gyrfaedd ynghyd â cholli sgiliau iaith ar ôl gadael y gyfundrefn addysg yn ffactorau tebygol dros y gostyngiad hwn.

O'r grŵp oedran yma ymlaen, mae'r gyfran sy'n gallu siarad Cymraeg yn gostwng yn barhaus gan gyrraedd isafswm o 46.8% ymysg y boblogaeth 60-64 mlwydd oed. Awgryma hyn bod mewnfudiad o bobl hŷn di-Gymraeg wedi digwydd yn y grŵp oedran hwn. Gwelir nifer o'r canolfannau arfordirol ar yr ynys yn ddeniadol i ymddeol iddynt.

Mae'r gyfran yn cynyddu'n raddol, gan gyrraedd 51.8% ar gyfer y boblogaeth 75 oed a throsodd.

Oni bai am y ddau grŵp oedran 5-15 a 25-39 mlwydd oed, mae pob grŵp oedran arall wedi gweld lleihad yn y gyfran o siaradwyr, fel y gwelir yn Nhabl 1 (colofn 'Mewn pwynt canran').

**Ffigwr 1: Cyfran y bobl (3 oed a throsodd) sy'n gallu siarad Cymraeg, yn ôl grŵp oedran, 2001 & 2011**



Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 - Tabl CS146; Cyfrifiad 2011 - Tabl DC2203WA

**Tabl 1: Nifer a chyfran y bobl (3 oed a throsodd) sy'n gallu siarad Cymraeg, yn ôl grŵp oedran, 2001 & 2011**

Grŵp Oedran	2001		2011		Newid 2001-2011		
	Nifer	%	Nifer	%	Mewn nifer	Mewn nifer (%)	Mewn Pwynt Canran
3-4	797	54.5%	827	54.1%	30	3.8%	-0.4%
5-15	7,318	77.8%	6,394	80.1%	-924	-12.6%	2.3%
16-19	2,371	76.8%	2,196	71.3%	-175	-7.4%	-5.5%
20-24	2,306	69.8%	2,467	63.9%	161	7.0%	-5.9%
25- 39	7,131	59.0%	6,635	60.3%	-496	-7.0%	1.3%
40- 49	4,854	55.6%	4,992	53.2%	138	2.8%	-2.4%
50- 59	5,105	51.4%	4,755	50.4%	-350	-6.9%	-1.0%
60- 64	2,144	52.8%	2,557	46.8%	413	19.3%	-6.0%
65- 74	3,693	54.6%	4,080	47.6%	387	10.5%	-7.0%
75+	3,174	54.4%	3,665	51.8%	491	15.5%	-2.6%
Pob oedran (3+)	38,893	60.1%	38,568	57.2%	-325	-0.8%	-2.9%

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 - Tabl CS146; Cyfrifiad 2011 - Tabl DC2203WA

Mae **Atodiad 1** ac **Atodiad 2** yn dangos yn sydyn y prif dueddiadau ar gyfer Ynys Môn a Chymru gyfan.

## Mudo

Bu cynnydd ym mhoblogaeth Ynys Môn o 2,922 yn ystod y cyfnod rhwng 2001 a 2011. Nid oedd y cynnydd yn seiliedig ar dwf naturiol yn unig (h.y. genedigaethau a marwolaethau). Roedd y newid yn bennaf oherwydd effaith mewnfudo.

Dros y ddegawd ddiwethaf (canol 2001 i ganol 2011) mae ar gyfartaledd 2,350 o bobl bob blwyddyn wedi mewnfudo i Ynys Môn o weddill y DU. Mae hyn yn cyfateb i boblogaeth y Fali. Mae pobl wedi bod yn allfudo hefyd, ond gan fod hyn yn nifer llai bob blwyddyn na'r nifer sy'n mewnfudo, yn gyffredinol bu mudo net positif o oddeutu 150 o bobl bob blwyddyn.

Ym Môn mae'r allfudo ar ei uchaf ymysg y grŵp oedran 15-29 gydag ar gyfartaledd oddeutu 180 mwy o bobl o'r grŵp oedran yma yn symud allan o'r sir nag yn symud i mewn iddi.<sup>2</sup> Ymysg y rhesymau tebygol am hyn yw myfyrwyr llawn amser yn symud i astudio a graddedigion diweddar a phobl ifanc yn symud o Fôn i ddilyn gyrfaoedd.

Mae mewnfudo a rei uchaf ymysg yr oedran 45-59 gydag ar gyfartaledd 130 yn fwy o bobl o'r grŵp oedran hwn yn symud i'r sir nac yn symud allan. Mae'n debyg mai'r prif reswm am hyn yw bod pobl yn dewis symud i Fôn i ymddeol<sup>3</sup>.

<sup>2</sup> Llywodraeth Cymru, Cyflwyniad i Fforwm Iaith Strategol Ynys Môn 24/09/13

<sup>3</sup> Cyngor Gwynedd ar ran Cyngor Sir Ynys Môn (2014), *Darlun o sefyllfa'r Gymraeg yn Ynys Môn* (tudalen 25)

Nod y Cyngor yw ceisio denu'n ôl y siaradwyr Cymraeg sydd wedi allfudo, efallai i astudio neu i ddilyn gyrfaoedd ac i fagu teuluoedd. Er mwyn llwyddo, rhaid sicrhau cyfleon gwaith cadarnhaol, cyfleoedd cymdeithasol amrywiol a safonau addysg uchel gyda'r Gymraeg yn elfen hanfodol o'r ffordd hon o ddysgu, gweithio a byw.

Mae cynlluniau blaenorol sydd wedi'u cynnal gan y Fenter Iaith a phartneriaid eraill yn dangos effaith positif cynlluniau sy'n helpu newydd ddyfodiaid a mewnfudwyr i gymhathu yn llawn i'w cymunedau newydd. Drwy gynlluniau arloesol sy'n cyflwyno cyd-destun a hanes y Gymraeg, traddodiadau a diwylliant lleol a sicrhau cefnogaeth Cymry Cymraeg lleol i arddel eu Cymraeg a'u Cymreictod, gellir dylanwadu a chefnogi ymdrechion newydd ddyfodiaid i ddysgu Cymraeg a bod yn rhan o'r ardal y maent yn ymgartrefu ynddi.

## **Ffocws y Strategaeth**

Mae meysydd blaenoriaeth y strategaeth hon wedi'u llunio fel eu bod yn cyd-fynd gyda meysydd strategol 'Iaith fyw: iaith byw - Strategaeth y Gymraeg 2012-2017' sef strategaeth Llywodraeth Cymru. Fe wnaed hyn er mwyn sicrhau bod rhoadru strategol a chysondeb o'r lefel uchaf i'r lefel lleol. Mae rhai o feysydd blaenoriaeth strategaeth y Llywodraeth wedi'u cyplysu yn y strategaeth hon, er hwylustod, ac fe adnabyddir tri maes blaenoriaeth:

Maes Blaenoriaeth 1 - **Plant a Phobl Ifanc / Y Teulu**

Maes Blaenoriaeth 2 - **Y Gweithle, Gwasanaethau Cymraeg, Y Seilwaith**

Maes Blaenoriaeth 3 - **Y Gymuned**

## Maes Blaenoriaeth 1 - Plant a Phobl Ifanc / Y Teulu

Mae maes blaenoriaeth cyntaf y Strategaeth Iaith yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc a'r teulu gan bod trosoglwyddiad iaith o un genhedlaeth i'r llall, ynghyd ag addysg yn cael eu hystyried yn ddau o'r meysydd pwysicaf o ran cynllunio ieithyddol. Mae ffocws y strategaeth yn ogystal ar sicrhau cyfleon i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.

### Nod:

**Cynnydd yn nifer y teuluoedd lle defnyddir y Gymraeg fel prif iaith gyda'r plant gyda chynnydd yn y cyfleon a'r gefnogaeth i'w defnyddio'n gymdeithasol**

**Sicrhau fod pob plentyn yn cael yr hawl i fod yn gwbl ddwyieithog erbyn cyrraedd 16 oed**

**Cynyddu'r gallu a'r defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebu a dysgu ymysg plant a phobl ifanc mewn addysg a thrwy gweithgareddau cymdeithasol**

### Y canlyniad a ddymunir:

Cynnydd yn nifer y plant a phobl ifanc sy'n defnyddio'r iaith bob dydd yn yr ysgol ac yn gymdeithasol yn drawsgwricwlaidd

Cynnydd yn nifer y teuluoedd sy'n defnyddio'r Gymraeg fel prif iaith gyda'u plant

### Dangosyddion

100% Ysgolion wedi adnabod blaenoriaeth i'r Gymraeg a'r Siarter Iaith o fewn eu Cynlluniau Datblygu ac yn profi cynnydd

Isafswm % derbyn asesiad Cymraeg iaith gyntaf o Fai 2017:

Cyfnod Sylfaen	CA2	CA3	CA4
76%	76%	68%	66%

Cynyddu'r canran o 10% mewn 3 blynedd o ddisgyblion sy'n astudio Cymraeg iaith gyntaf

Cynyddu o 5% y canran y ddysgwyr sy'n astudio o leiaf 5 pwnc arall heblaw y Gymraeg trwy gyfrwng y Gymraeg i TGAU erbyn 2020

Cynyddu o 5% y canran o ddysgwyr 16-19 oed sy'n astudio cyrsiau addysg bellach trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog erbyn 2020

Cynyddu'r niferoedd plant yn cymryd rhan yn y gwersi nofio cyfrwng Cymraeg

Nifer o weithgareddau chwareon a hamdden sy'n prif lifo'r Gymraeg

**Gweler y cynllun gweithredu ar gyfer blwyddyn 1. Bydd yn cael ei ddiweddarau'n flynyddol.**

## Trosglwyddiad iaith

Mae strategaeth Llywodraeth Cymru iaith *Fyw: iaith byw 2012-2017* yn nodi pwysigrwydd trosglwyddiad iaith o un genhedlaeth i'r llall fel elfen greiddiol yn y broses o gynnal iaith. Mae cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd yn un o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru ar gyfer diogelu dyfodol y Gymraeg. *"Nid yw'r Gymraeg yn debygol o ffynnu fel iaith gymunedol a chymdeithasol os yw'n dibynnu ar y system addysg yn unig fel ffordd o alluogi siaradwyr newydd i ddysgu'r iaith. Mae angen iddi fod yn iaith y cartref i gynifer o blant â phosibl, ac yn ddiamau, mae caffael yr iaith yn y modd hwn yn ffordd naturiol ac effeithiol o ddatblygu'n siaradwr Cymraeg rhugl"*<sup>4</sup>

Nodir yn adroddiad *Cynyddu nifer y cymunedau lle defnyddir y Gymraeg fel prif iaith* (Llywodraeth Cymru, Rhagfyr, 2013) y gall proffil a statws iaith o fewn cymuned fod yn ffactorau pwysig yng nghyd-destun trosglwyddo iaith. Ategir hyn gan adroddiad *Asesiad Effaith: Twf ac Ymlaen (Prifysgol Bangor, 2008)* sy'n awgrymu fod cysylltiad rhwng y ffactorau hyn ac awydd rhieni i drosglwyddo'r iaith i'w plant.

Dengys ffigyrau Cyfrifiad 2011 yn Nhabl 11 isod bod 80.1% o blant 3-4 yn Ynys Môn yn siarad Cymraeg pan fo 2 riant yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd. Mae'r canran hwn yn gostwng i 47.5% pan mai dim ond un o'r ddau riant sy'n siarad Cymraeg. Gwelir gostyngiad pellach i 20% mewn cartrefi lle nad oes unrhyw un o'r ddau riant yn siarad Cymraeg.

Mae ffigyrau'r Cyfrifiad yn Nhabl 11 hefyd yn dangos bod gostyniad rhwng 2001 a 2011 o 49.1% i 47.5% o blant 3-4 oed yn siarad Cymraeg ar aelwydydd 2 riant sy'n siarad Cymraeg a gostyngiad o 69.8% i 60.8% ar aelwydydd un riant sy'n siarad Cymraeg. I'r gwrthwyneb, ac yn unol â'r duedd genedlaethol, dengys y ffigyrau bod cynnydd o 15.5% i 20.6% yn y nifer o blant 3-5 oed sy'n siarad Cymraeg ar aelwydydd dau riant lle nad ydynt yn siarad Cymraeg.

Dengys y ffigyrau hyn ei bod yn bwysig argyhoeddi rhieni sy'n siarad Cymraeg o werth trosglwyddo'r iaith i'w plant a bod angen cefnogaeth arnynt i'w galluogi i sicrhau bod eu plant yn cael y profiadau angenrheidiol i ddatblygu sgiliau iaith plant o oedran cynnar. Ar nodyn cadarnhaol, gellir dod i gasgliad bod dylanwad y gyfundrefn addysg ym Môn wedi llwyddo i gynyddu sgiliau cyfrwng Cymraeg plant 3-4 oed ar aelwydydd dau riant sydd ddim yn gallu siarad Cymraeg o 5% dros y ddegawd rhwng y ddau Gyfrifiad.

---

<sup>4</sup> Llywodraeth Cymru (2012), iaith fyw: iaith byw – Strategaeth y Gymraeg 2012 -2017 (tudalen 25)

**Tabl 11: Cyfraddau trosglwyddo'r Gymraeg, 2001 & 2011**

Aelwydydd un teulu â phlant 3-4 oed	Ynys Môn		Cymru	
	2001	2011	2001	2011
Pâr – Dau oedolyn yn gallu siarad Cymraeg	79.0%	80.1%	82.0%	82.2%
Pâr - Un oedolyn yn gallu siarad Cymraeg	49.1%	47.5%	39.9%	45.4%
Pâr - Dim oedolyn yn gallu siarad Cymraeg	15.5%	20.6%	8.6%	13.2%
Un rhiant – Oedolyn yn gallu siarad Cymraeg	69.8%	60.8%	55.3%	53.3%
Un rhiant - Oedolyn ddim yn gallu siarad	25.2%	25.4%	9.8%	14.4%

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 –C0156; Cyfrifiad 2011 - Tabl DC2601WA*

### **Cynllun Addysg Gymraeg Ynys Môn**

Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae 11,861 o blant a phobl ifanc dan 16 oed yn byw yn Ynys Môn sy'n cyfateb i 17% o'r boblogaeth. O'r rhain mae 54.1% o blant 3-4 oed yn siarad Cymraeg ac 80.1% o blant rhwng 5-15 oed yn siarad Cymraeg. Mae cynnydd o 2.3% yn y grŵp oedran 5-15 oed ers Cyfrifiad 2001 sy'n adlewyrchiad o ddylanwad positif Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y Sir i ddatblygu sgiliau iaith.

Ers mis Medi, 2004 mae pob plentyn 3 oed wedi cael y cynnig o addysg hanner amser am ddim. Gall yr addysg honno gael ei darparu un ai mewn ysgol a gynhelir neu mewn lleoliadau a gyllidir (Jones, 2012, tud 64). Mae'r lleoliadau a gyllidir yn cynnwys oddeutu 50 o gylchoedd Mudiad Ysgolion Meithrin ar yr ynys. Amcan penodol addysg feithrin Cyngor Sir Ynys Môn yw sicrhau y rhoddir i bob plentyn sylfaen gadarn yn y Gymraeg er mwyn ei alluogi i gyrraedd y nod o ddwyieithrwydd llawn maes o law .

Mae Polisi Iaith Addysg y Sir yn gosod y nod uchelgeisiol o "sicrhau bod holl ddisgyblion y Sir yn meddu ar y sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni". Er mwyn sicrhau gall yr holl ysgolion gyflawni'r nod, bydd angen adolygu'r polisi erbyn Medi 2016. Nid yw'r Sir yn diffinio ysgolion cynradd yn ôl categorïau iaith gan fod yr un Polisi iaith ar waith ymhob ysgol. Ceir 47 ysgol gynradd, pum ysgol uwchradd ac un ysgol arbennig ym Môn.

Bydd y mwyafrif o blant sy'n dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf yn yr ysgol yn cael eu hasesu mewn Cymraeg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1 neu'r Cyfnod Sylfaen ers 2011 (sef diwedd blwyddyn 2).<sup>5</sup>

Dangosir isod nifer disgyblion yng ngharfan CA1 (CS o 2012 a'r nifer a aseswyd yn y Gymraeg fel iaith Gyntaf:

<sup>5</sup> Cyngor Gwynedd ar ran Cyngor Sir Ynys Môn (2014), Darlun o sefyllfa'r Gymraeg yn Ynys Môn (tudalen 35)

	2010	2011	2012	2013	2014	2015
CA1	456/650	469/682	510/678	468/671	520/721	539/755
	<b>70%</b>	<b>69%</b>	<b>75.2%</b>	<b>69.7%</b>	<b>72.1%</b>	<b>71.4%</b>
*/nifer a asesir/nifer yn y garfan						

Dengys ystadegau 2015 bod 539 o ddisgyblion saith oed Ynys Môn wedi derbyn asesiad Cymraeg. Llwyddodd 89.8% o'r disgyblion hynny gyrraedd Deilliant 5 neu well yn eu hasesiad:

Deilliant 5+	484 / 539	89.8%
--------------	-----------	-------

Mae amrywiaeth yn lefel yr her mae dalgylchoedd yn wynebu i lwyddo gyda dwyieithrwydd disgyblion ac mae data cyfrifiad CYBLD yn dangos faint o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg adref yn rhoi syniad da o dasg yr ysgolion.

Mae'r Gwasanaeth Addysg yn adnabod yr angen o fewn y strategaeth hon i gefnogi ysgolion cynradd ble mae'r her yn uchel i gynyddu'r nifer o ddisgyblion sy'n derbyn asesiad Cymraeg a chynyddu'r canrannau'n sy'n cael eu hadrodd i'r Llywodraeth.

Mae targed wedi'i osod erbyn 2017 i sicrhau bod 76% o blant saith oed yn derbyn asesiad (iaith gyntaf) Cymraeg. Wrth gyd-weithio i newid sefyllfa ysgolion ble mae'r her ieithyddol uchaf, anelir at gynyddu'r nifer o ddysgwyr a adnabyddir fel dysgwyr iaith gyntaf Cymraeg fel a ganlyn:

	2017	2019	2021
CS	99.5%	94.8%	
CA2	99.9%	99.5%	99.5%
CA3		100.0%	99.7%

### Addysg Bellach

Ffurfiwyd Grŵp Llandrillo Menai yn Ebrill 2012 pan unwyd Coleg Llandrillo a Choleg Menai. Mae'r Grŵp yn gweithredu fel darparwr addysg bellach bennaf o fewn pedair sir yn y gogledd, sef Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych a Gwynedd.

Mae'r sefydliad yn wynebu nifer o heriadau mewn perthynas â darpariaeth addysgol cyfrwng Cymraeg megis:

- cryfhau canfyddiadau positif myfyrwyr o'r sefydliad fel darparwr dwyieithog; codi hyder myfyrwyr i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg;
- Grymuso capasiti a sgiliau staff i ddarparu trwy gyfrwng y Gymraeg;
- Pwyso ar fyrdau dyfarnu i gynnig cymwysterau'n Gymraeg;
- Cynyddu ymwybyddiaeth am fanteision y Gymraeg fel sgil cyflogaeth.

Isod ceir manylion am nifer a chanran y myfyrwyr llawn amser sy'n astudio a'u hasesu ar gyfer o leiaf un modiwl o'u cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg ar draws y tri choleg sy'n rhan o Grŵp Llandrillo Menai (Coleg Meirion-Dwyfor (CMD), Coleg Menai (CM), Coleg Llandrillo (CLI):



	2014-2015 Rh/N	2014-2015 %
Nifer o fyfyrwyr llawn-amser yn y coleg	Grŵp 6137	Grŵp 100%
	C LI 3199	C LI 52%
	CMD 1207	CMD 20%
	CM 1731	CM 28%
Nifer a chanran o fyfyrwyr llawn-amser sy'n astudio o leiaf un modiwl o'u cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg	Grŵp 2503	Grŵp 41%
	C LI 15	C LI 0.5%
	CMD 1154	CMD 95.6%
	CM 1334	CM 77.07%

	2014-2015 Rh/N	2014-2015 %
Nifer a chanran o fyfyrwyr sy'n cael eu hasesu mewn o leiaf un modiwl o'u cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog?	Grŵp 26	Grŵp 0.42%
	C LI 1	C LI 0.03%
	CMD 814	CMD 67.4%
	CM 206	CM 11.9%

Mae Grŵp Llandrillo Menai wedi sefydlu trefn mesur a thracio dysgwyr yn y cyfnod ôl-16 sy'n parhau i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog er mwyn cynyddu a chynnal defnydd o'r Gymraeg ymysg dysgwyr ôl 16 yn y sector Addysg Bellach. Mae'r drefn yma'n golygu mai ar lefel Coleg a maes rhaglen mae'r tracio'n digwydd sy'n golygu nad oes modd rhannu data ar fyfyrwyr sy'n byw yn Ynys Môn yn unig, fodd bynnag, mae'n berthnasol edrych ar ddata'r tri coleg ac yn enwedig Coleg Menai gan mai dyma ble mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr sy'n byw ar yr ynys yn astudio'u cyrsiau Addysg Bellach.

Bwriedir gosod targedau ar gyfer cynnydd darpariaeth dwyieithog ar lefel pob maes rhaglen erbyn Medi 2016 fydd yn arwain at ddatblygu'r cynnydd mewn darpariaeth dwyieithog.

### **Defnydd cymdeithasol plant a phobl ifanc o'r Gymraeg**

Er llwyddiant Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y Sir i ddatblygu sgiliau iaith ymhlith plant a phobl ifanc, cydnabyddir ei bod yn anodd bob amser i fesur defnydd o'r Gymraeg y tu allan i awyrgylch ystafell ddosbarth ac mewn sefyllfaoedd cymdeithasol.

Mae'r Siarter Iaith, sydd wedi'i fabwysiadu yn ysgolion Môn, yn darparu strwythur i arwain at gynnydd yn nefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg. Mae'r Siarter yn gofyn am gyfranogiad gan bob aelod o gymuned yr ysgol sef y cyngor ysgol, y disgyblion, y gweithlu, rhieni, llywodraethwyr â'r gymuned ehangach er mwyn sicrhau perchnogaeth lawn ohoni. Mae'r ysgolion yn gweithio tuag at wobrau efydd, arian ac aur gan anelu am y wobr aur dros gyfnod o dair blynedd. Ar gychwyn y broses sefydlir gwaelodlin gyda thystiolaeth bendant o sefyllfa ieithyddol o fewn cymuned yr ysgol dan sylw fel bod modd datblygu gweledigaeth unigol ar gyfer yr ysgol honno maes o law. Mae gosod targedau a mesur cynnydd yn angenrheidiol wrth weithredu'r Siarter Iaith a bydd pob ysgol yn gallu llunio camau eu hunain sy'n addas ar eu cyfer. Ceir 5 cam tua'r 'copa' sef y nod y mae'r ysgol yn ei hadnabod o fewn ei gweledigaeth bersonol. Yn ddibynnol ar gefndir ieithyddol y disgyblion, gall y targedau amrywio o sefydlu'r arfer siarad Cymraeg, newid agweddau, codi hyder ieithyddol i ddylanwadu ar niferoedd siaradwyr Cymraeg tu hwnt i furiau'r ysgol a'r buarth i loywi a sicrhau cywirdeb ieithyddol.

Mae nifer o fudiadau yn darparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar yr ynys a nod y strategaeth iaith yw cynllunio'n fwriadus i normaleiddio a phrif lifo'r Gymraeg i weithgareddau cymdeithasol sy'n digwydd eisoes ac i rai o'r newydd. Ceir chwe chlwb Ffermwyr Ifanc mewn mannau daearyddol amrywiol ar yr ynys sef Bodedern, Dwyran, Llangefni, Llangoed, Penmynydd a Rhosybol. Mae'r Cyngor Sir yn gyfrifol am gynnal 26 Clwb Ieuenctid, pum Canolfan Wobr Agored yn nalgylch pob ysgol uwchradd a Chlwb Achredu Amser Cinio yn Ysgol Uwchradd Caergybi.

Mae gan yr Urdd 58 o ganhennau ar yr ynys gyda 11 adran gymunedol yn darparu ystod o gyfleoedd cymdeithasol i blant a phobl ifanc yr ynys. Nodir yn Adroddiad Blynyddol Urdd Gobaith Cymru ar gyfer Ynys Môn am 2015-2016 bod 4801 o unigolion wedi cofrestru ar gyfer cystadleuthau eisteddfodol a 1477 o unigolion wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau chwareon dros y cyfnod adrodd dan sylw. Mae'n nod gan y mudiad yn lleol i gynyddu ei gyrhaeddiad trwy'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol.

Ceir chewch clwb Ffermwyr Ifanc mewn mannau daearyddol amrywiol ar yr ynys sef, Bodedern, Dwyran, Llangefni, Llangoed, Penmynydd a Rhosybol. Mae'r Ffermwyr Ifanc yn fudiad ieuenctid gwledig i bobl Ifanc 10-26 oed sy'n gweithredu ledled y wlad, er mwyn diwallu anghenion pobl ifanc cefn gwlad.

Mae'r Ffermwyr Ifanc yn cynnig amrywiaeth o raglenni addysgol, hyfforddiant a chymdeithasol, sy'n annog datblygiad personol, gweithgarwch cymunedol, pryder am yr amgylchedd a rhyngweithiadau cymdeithasol. Prif bwrpas y mudiad yw creu cyfleoedd i allu'r aelodau ddisgleirio.

Ceir staff ieuenctid arbenigol o fewn Menter Iaith Ynys Môn sy'n gweithio mewn gwahanol feysydd i ddatblygu gweithgareddau, cynnal gweithdai a sesiynau a darparu cyfleoedd cymdeithasol amrywiol. Mae'r rhain yn cynnwys gweithdai wythnosol o dan arweiniad tiwtoriaid drama proffesiynol o fewn Theatr Ieuenctid Môn, prosiect creu cerddoriaeth '*Bocsŵn*', y '*Rhwydwaith Perfformwyr Ifanc*' sy'n cynnig cyfle i bobl ifanc trefnu gigs eu hunain a'r '*Prosiect Radio*' sydd wedi lleoli offer radio ymhob un o'r pum ysgol uwchradd ar yr ynys ar gyfer darlledu rhaglenni. Ceir hefyd y prosiect '*Cyfle:Creu=Cofio*' sy'n brosiect digidol lle gall pobl ifanc greu eitemau ffilm a radio eu hunain yn olrhain ac egluro elfennau o dreftadaeth y Gymraeg ar yr ynys. Mae'r Fenter Iaith hefyd yn darparu cyflwyniadau ymwybyddiaeth iaith i annog pobl ifanc i fynegi eu barn am y Gymraeg ynghyd â dysgu am fanteision cymdeithasol ac economaidd yr iaith.

Mae'r Siarter Iaith hefyd yn annog rhieni i ddysgu Cymraeg oherwydd y manteision amlwg a geir, nid yn unig o fedru cynorthwyo eu plant a gwerthfawrogi eu cynnydd, ond hefyd er mwyn cymhathu'n gymunedol, gwella cyfleoedd gyrfaol ac o ran agweddau hunaniaeth. Yn hynny o beth, bydd cydweithio agos gyda Chonsortium Dysgu Cymraeg y gogledd-orllewin er mwyn cynllunio a chynnig hyfforddiant pwrpasol i rieni.

## Maes Blaenoriaeth 2 – Y Gweithle, Gwasanaethau Cymraeg, Y Seilwaith

Mae ail faes blaenoriaeth y Strategaeth Iaith yn canolbwyntio ar y gweithle, gwasanaethau Cymraeg a'r seilwaith. Yr amcan yma yw adnabod cyfleoedd i gynllunio'n fwriadus i brif-lifo'r Gymraeg yn naturiol i'r meysydd blaenoriaeth yma.

### Nod

**Hybu a chynyddu argaeledd gwasanaethau Cymraeg, cynyddu cyfleoedd/disgwyliadau i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle a chydweithio i adnabod cyfleoedd i brif-lifo'r iaith i ddatblygiadau a gweithgareddau.**

### Y canlyniad a ddymunir:

Cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg fel iaith weinyddol y Cyngor Sir  
Cynnydd ym mhroffil y Gymraeg fel sbardun ar gyfer newid gan Gyngor Sir Ynys Môn a Chynghorau Tref a Chymuned

### Dangosydd

Cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg yng ngweinyddiaeth y Cyngor Sir fel iaith lafar ac ysgrifenedig

100% o asesiadau effaith iaith yn cael eu cyflawni ar unhyw ddatblygiadau tai, economaidd/busnes

Nifer y polisïau iaith gan ddatblygwyr ac effaith gweithredu'r polisi mewn \* mis % cynnydd yn nifer y rhai sy'n dilyn cyrsiau dysgu Cymraeg

Nifer y rhai sy'n dilyn cyrsiau dysgu Cymraeg

Cynnydd yn y gwaith i bobl leol yn y datblygiadau mawr

**Gweler y cynllun gweithredu ar gyfer blwyddyn 1. Bydd yn cael ei ddiweddarau'n flynyddol.**

### Y Gymraeg yn y gweithle

Y gweithle yw un o'r meysydd allweddol sy'n pennu pa iaith y mae pobl yn ei ddefnyddio. Bu i nifer sylweddol o ymatebwyr yr ymgynghoriad gan Llywodraeth Leol ar *Iaith Fyw: Iaith Byw – Strategaeth y Gymraeg 2012-17* gytuno "bod gan y gweithle rôl allweddol o ran ennyn hyder ymhlith siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith mewn agweddau eraill yn eu bywydau ... a bod datblygu statws yr iaith yn y gweithle yn bwysig o safbwynt pwysleisio gwerth addysg cyfrwng Cymraeg" (Llywodraeth Cymru, 2012, tud 37).<sup>6</sup>

<sup>6</sup> Cyngor Gwynedd ar ran Cyngor Sir Ynys Môn (2014), Darlun o sefyllfa'r Gymraeg yn Ynys Môn (tudalen 39)

Yn 2013, cynhaliwyd arolwg<sup>7</sup> ymhlith dros 4,000 o gyflogwyr yng Nghymru a weithredai mewn wyth sector i ddarparu gwybodaeth fanwl gywir a dibynadwy am anghenion cyflogwyr o ran sgiliau Cymraeg. Yn ôl yr arolwg, roedd 81% o siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'r Gymraeg gyda chydweithwyr o leiaf weithiau lle y bo'r cyflogwr yn gefnogol i'r defnydd o'r Gymraeg yn y rhan fwyaf o agweddau ar waith y busnes. Roedd y ganran ychydig yn is ymhlith gweithwyr nad oedd eu cyflogwyr yn gefnogol i'r defnydd o'r Gymraeg mewn amgylchiadau anffurfiol, tra'r oedd 51% yn dweud eu bod yn siarad Cymraeg â'u cydweithwyr ond nad yw'r cyflogwr yn gefnogol i'r iaith.

Yng Ngwynedd ac Ynys Môn, dywedodd naw o bob 10 siaradwr Cymraeg sydd mewn gwaith eu bod yn siarad Cymraeg gyda chydweithwyr o leiaf weithiau.

Mae'n ymddangos hefyd bod yr unigolion hynny sydd yn gweithio i gyflogwyr sydd yn gefnogol i'r defnydd o'r Gymraeg yn y rhan fwyaf o agweddau'r busnes lawer yn fwy tebygol o ysgrifennu rhywbeth yn y Gymraeg. Roedd 64% yn ysgrifennu rhywbeth yn Gymraeg yn y gwaith o leiaf weithiau. Er hyn, roedd bron i draean yn dweud eu bod yn ysgrifennu rhywbeth yn y Gymraeg yn eu gwaith o leiaf weithiau, er nad oeddent o'r farn bod eu cyflogwr yn gefnogol i'r iaith. Roedd bron i dri chwarter y gweithwyr yn y sector cyhoeddus o'r farn fod eu cyflogwr yn gefnogol i ddefnydd ffurfiol ac anffurfiol o'r Gymraeg o fewn y busnes o'i gymharu â 41% yn y sector preifat.

Os am gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, mae codi ymwybyddiaeth am y gwasanaethau Gymraeg sydd ar gael a'u hamlygrwydd yn rhan ganolog o'r defnydd a wneir ohonynt. Yn ôl yr arolwg o gyflogwyr yng Nghymru a gynhaliwyd yn 2013, roedd gweithwyr a oedd yn siarad Cymraeg yn y sector cyhoeddus bron i dair gwaith yn fwy tebygol na gweithwyr yn y sector preifat o gael cynnig rhywbeth gan eu cyflogwyr i ddangos eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Mae canlyniadau Adroddiad Ymchwil ar Wasanaethau Cymraeg Awdurdodau Lleol (Beaufort Research Cyf 2015), yn cefnogi'r angen i godi ymwybyddiaeth, hy bod 80% o'r siaradwyr Cymraeg rhugl yng Ngogledd Cymru yn cytuno â'r datganiad *"Os ydw i'n gwybod y gallaf ymwneud ag adran berthnasol yn yr awdurdod lleol yn Gymraeg, byddaf yn gwneud hynny bob amser"*.

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn ymrwymedig i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn ei weinyddiaeth fewnol, yn llafar ac yn ysgrifenedig, a phenderfynodd y Cyngor Sir yn ei gyfarfod ar 12 Mai, 2016 i fonitro cynnydd yn flynyddol trwy gyhoeddi adroddiad arno i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini ar yr un pryd â'r adroddiad blynyddol ar weithrediad y Polisi Iaith Gymraeg. Bydd y broses yn cychwyn trwy sefydlu gwaelodlin o'r nifer sy'n gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg o fewn y sefydliad. Mae'n fwriad hefyd i adolygu Polisi Iaith y Cyngor erbyn Mai, 2018.

---

<sup>7</sup> Llywodraeth Cymru (2015), Y Defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru, 2013-15.

Fel rhan o'r broses cynllunio ieithyddol, bydd y Cyngor yn dynodi pa sgiliau ieithyddol llafar ac ysgrifenedig sydd eu hangen ar gyfer pob swydd ac fe asesir sgiliau iaith y gweithlu er mwyn monitro nifer y siaradwyr Cymraeg. Darperir yn ogystal, cyrsiau addas, ar bob lefel, yn ystod oriau gwaith i gyflogeion y Cyngor rymuso eu sgiliau Cymraeg.

### **Argaeledd gwasanaethau Cymraeg**

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 wedi creu newid sylfaenol tuag at ddarparu dewis iaith ac angen iaith gan symud y cyfrifoldeb am sicrhau gwasanaethau addas oddi ar ysgwyddau'r defnyddiwr i'r darparwr. Mae'r Safonau Iaith ddaeth yn sgil y Mesur yn arwain at greu hawliau fel y gall siaradwyr Cymraeg dderbyn gwasanaethau yn Gymraeg. Yn ogystal, cyhoeddwyd *'Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol - Mwy na Geiriau'* yng nghyd-destun gofynion cyfreithiol y Mesur. Mae'r Safonau Iaith a Mwy na Geiriau ynghlwm i'r egwyddor o ddarparu'r 'cynnig rhagweithiol' o ddewis iaith i'r defnyddiwr.

Mae'r Cyngor Sir bellach yn ddarostynedig i'r Safonau Iaith a bydd nifer o gyrrff partneriaethol yn derbyn hysbysiadau cydymffurfio gan Gomisynydd y Gymraeg maes o law. Bydd y strategaeth hon yn nodi'r camau gweithredu gogyfer gweithredu egwyddorion Mwy na Geiriau.

## Maes Blaenoriaeth 3 – Y Gymuned

Mae trydydd maes blaenoriaeth y Strategaeth Iaith yn canolbwyntio ar hyrwyddo'r Gymraeg ar lefel cymunedol.

Mae *Strategaeth Llywodraeth Cymru Iaith Fyw:Iaith Byw 2012-2017* yn nodi fod heriau penodol yn amrywio o ardal i ardal ond maent yn debygol o gynnwys rhai materion cyffredin. Mae'r farchnad dai yn anwastad ar yr ynys gyda diffyg tai fforddiadwy ar gyfer y boblogaeth leol. Yn ogystal, mae diffyg swyddi sefydlog sy'n talu'n dda a gorddibyniaeth ar y sector gyhoeddus/darparu ynghyd â rhai diwydiannau penodol megis twristiaeth ac amaeth. Mae'r rhain yn heriau gwirioneddol o ran cadw pobl ifanc a theuluoedd ar yr ynys.

Mae cyfraddau trosglwyddiad iaith hefyd yn her o fewn y gymuned gyda nifer isel o rieni/gofalwyr yn trosglwyddo'r Gymraeg i'w plant, statws isel yr iaith o fewn y gymuned, diffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar lefel cymunedol ac effaith lefelau mewnfudo ac allfudo ar ddemograffeg yr ynys. Er mwyn i gymunedau ffynnu, mae'n bwysig hefyd bod cyfleoedd i drigolion yr ynys a mewnfudwyr i ddefnyddio'r Gymraeg a'i defnyddio'n gymdeithasol.

Cydnabyddir bod yn rhaid i'r gwaith adnewyddu ieithyddol fynd law yn llaw â'r gwaith o wella'r seilwaith cymdeithasol ac economaidd.

### Nod

**Hyrwyddo a marchnata gwerth a phwysigrwydd y Gymraeg**

**Hyrwyddo ac adnabod cyfleoedd i gryfhau'r Gymraeg o fewn y cymunedau ac adnabod bylchau mewn darpariaeth.**

### Y canlyniad a ddymunir

Cynnal y wardiau gyda 70% o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg a chynyddu canrannau gweddill y wardiau eraill.

### Dangosydd

cynnydd yn y wardiau sydd â dros 70% yn siarad Cymraeg  
cynnydd yn y wardiau sydd â dros 50% yn siarad Cymraeg  
nifer y gweithgareddau a gynhelir i gymhathu dysgwyr y Gymraeg  
nifer y dosbarthiadau Cymraeg yn y gymuned neu Cymraeg i'r teulu  
cynnydd yn y nifer sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddoli cyfrwng Cymraeg  
cynnydd yn y defnydd o'r ap cyfieithu  
cynnydd yn nifer y cyfarfodydd y Cyngor Sir a gynhelir trwy gyfrwng y Gymraeg  
Nifer yr ymweliadau i'r safle we sy'n hysbysebu gweithgareddau cyfrwng Cymraeg  
Nifer datblygiadau sy'n cyd-fynd gyda pholisiau'r Cynllun Datblygu Lleol  
Nifer o dai gwag ar yr ynys sy'n dod yn ôl i ddefnydd fel tai parhaol  
Nifer pecynnau croeso a ddsbarthwyd i fewnfudwyr/a lawrlwythwyd

**Gweler y cynllun gweithredu ar gyfer blwyddyn 1. Bydd yn cael ei ddiweddar'u'n flynyddol.**

## **Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ar lefel gymunedol**

Mae Menter Iaith Môn yn weithredol ar hyd a lled yr ynys gan sicrhau bod dewis amrywiol o weithgareddau a digwyddiadau cyfrwng Cymraeg cadarnhaol yn cael eu cynnig i bob oedran fel bod cydnabyddiaeth o werth cymdeithasol ac economaidd i'r Gymraeg. Mae'r Fenter Iaith yn gweithio yn yr ardaloedd hynny sydd â niferoedd uchel o siaradwyr Cymraeg er mwyn sicrhau bod yr ardaloedd hyn sydd o bwys strategol i'r Gymraeg yn cael eu cynnal ac yn ffynnu.

Mae'r Fenter Iaith hefyd yn cydnabod er mwyn i'r Gymraeg barhau i ffynnu, bod hefyd angen adnabod cyfleoedd i godi hyder trigolion i ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus yn yr ardaloedd sydd â niferoedd is o siaradwyr Cymraeg. Yn ôl canlyniadau Cyfrifiad 2011, mae bron i 20% o drigolion Caergybi yn nodi eu bod nhw'n deall Cymraeg llafar yn unig a 60% o bobl yn nodi eu bod yn deall Cymraeg ond yn peidio â'i defnyddio. I ymateb i'r her hon, mae'r Fenter wedi cychwyn gweithio'n ddwys yn ardal Caergybi gan leoli swyddog yn y dref er mwyn cydweithio gyda theuluoedd, plant a phobl ifanc a'r gymuned i adnabod cyfleoedd i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar lefel cymdeithasol.

Er mwyn cynllunio'n fwriadus i'r dyfodol, adnabyddir yr angen i greu proffiliau ieithyddol o holl ardaloedd Ynys Môn. Byddai proffiliau o'r fath yn adnabod y bylchau mewn darpariaeth, yr awydd ymysg cymunedau i geisio sicrhau gwasanaethau Cymraeg yn lleol a chryfhau'r ddarpariaeth yn gymdeithasol i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r iaith. Byddai'r ymarferiad hefyd yn gyfle i hyrwyddo'r Gymraeg gyda'r sector fusnes a phwysigrwydd trosglwyddiad iaith o fewn y teulu. O gydweithio i adnabod cyfleoedd i godi hyder trigolion i siarad Cymraeg, ac adnabod a dylanwadu ar gyfleoedd er mwyn creu bwrlwm cymdeithasol Cymraeg a Chymreig, gallwn weithio tuag at yr amcan fod y Gymraeg yn cael ei harddel fel rhan o wead ac isadeiledd y gymuned gan greu cymunedau byw, a chreu cyswllt pwerus rhwng iaith-tai-gwaith.

Mae ymweliad yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2017 yn cynnig cyfle euraidd i hyrwyddo gweithgareddau Cymraeg sy'n codi arian tuag at ei chynnal, a thrwy gyfnod y strategaeth hon, byddwn am sicrhau bod effaith a gwaddol yr Eisteddfod yn bell gyrhaeddol.


## **Y Cynllun Datblygu Lleol**

Mae Canllaw Cynllunio Atodol Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (Medi 2007) yn amlinellu bod sefydlogrwydd neu dwf cymedrol y boblogaeth, wedi'i gyfuno ac ansawdd bywyd da, economi gref, seilwaith o safon uchel a bywyd cymdeithasol a diwylliannol byrlymus, i gyd yn greiddiol i gynladwyedd ac unoliaeth y gymuned. Lle mae'r iaith Gymraeg yn rhan o wead cymdeithas yn y gymuned, mae ei thynged a'i lles yn anochel yn annatod wrth ffyniant ehangach y gymuned honno. Os yw datblygiad yn debygol o fod yn andwyol i unrhyw un o'r agweddau hyn, gall gael effaith niweidiol ar yr iaith Gymraeg hefyd. Fodd bynnag, os yw'n sensitif i'r cyd-destun lleol, e.e. mae'n cynnal yr economi leol, yna mae'r effaith yn llawer mwy tebygol o fod yn gadarnhaol. Mae adeiladu a gweithredu prosiectau a datblygiadau mawr yn waith sylweddol a allai sicrhau buddsoddi a buddion ehangach i'r ynys a'i chymunedau.



Fel yr amlinellir yng Nghynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Môn (sydd yn y cyfnod Archwiliad), i sicrhau bod cymunedau'n datblygu mewn ffordd gynaliadwy, mae'n hanfodol, wrth ystyried unrhyw newidiadau, i ystyried yr holl ffactorau sy'n dylanwadu ar y sefyllfa a bod y datblygiad newydd sy'n cael ei gynllunio yn briodol a pherthnasol.

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn cydweithio efo Cyngor Gwynedd i lunio Cynllun Datblygu Lleol (CDLI). Mae'r CDLI yn canolbwyntio ar faterion ac amcanion lleol, gan wneud hynny yn unol â strategaethau lleol a sylfaen o dystiolaeth. Mae'n ofynnol o dan Adran 61 Deddf Cynllunio Pryniant Gorfodol bod Awdurdodau Cynllunio Lleol yn cadw tystiolaeth ar lefel defnyddio'r Gymraeg yn yr ardal yn gyfredol. Casglwyd a dadansoddwyd gwybodaeth o sawl ffynhonnell, gan gynnwys Cyfrifiad 2011. Mae'r diagram canlynol yn rhoi trosolwg o'r prif negeseuon:



Ar sail dadansoddiad o'r dystiolaeth un o'r pynciau ystyriwyd wrth baratoi'r CDLI yw sut y bydd ein strategaeth a'r polisïau'n debygol o effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg a chynaliadwyedd cymunedau. Bydd dyfodol yr iaith yn dibynnu ar nifer fawr o ffactorau, yn enwedig addysg, newid demograffig, gweithgareddau cymunedol a sylfaen economaidd gadarn i gynnal cymunedau ffyniannus, cynaliadwy. Heb anghofio nad all y CDLI wahaniaethau ar sail gallu ieithyddol unigolion, gall y system cynllunio defnydd tir gyfrannu at les y Gymraeg yn y dyfodol trwy greu'r amodau fyddai'n caniatáu i gymunedau cynaliadwy ffynnu. Felly, mae'n bwysig bod y CDLI yn atgyfnerthu strategaethau fel y Strategaeth Iaith i hyrwyddo'r isadeiledd (tai, llefydd gwaith a chyfleusterau allweddol) i gynnal cymunedau'r Sir.

Mae Adran 70 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn ei gwneud yn glir y gellid ystyried effeithiau ar ddefnyddio'r Gymraeg, lle bo'n berthnasol i gais cynllunio, wrth benderfynu ar gais am ganiatâd cynllunio. Nid yw'r ddarpariaeth hon yn rhoi mwy o bwys ar yr iaith Gymraeg nag ar unrhyw ystyriaeth berthnasol arall adeg cais cynllunio. Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol yn rhoi arweiniad i sicrhau datblygiad sy'n ddigon da i'w caniatáu, gan gynnwys defnyddio mesurau lliniaru effeithiau croes a mesurau hyrwyddo effeithiau cadarnhaol. Gellir defnyddio amodau cynllunio a chytundebau Adran 106, lle mae'n briodol ar gyfer darparu seilwaith sy'n cefnogi'r iaith Gymraeg.

## Tai

Un o'r prif heriau sydd gennym yma ym Môn yw sicrhau cyflenwad digonol o dai fforddiadwy ar gyfer ein trigolion, tai o ansawdd bydd yn gosod sylfaen gadarn iddynt i'w galluogi i weithio yma ym Môn a chynnal y defnydd o'r iaith Gymraeg.

Yn 2011 roedd poblogaeth Ynys Môn yn 69,751 gyda'r boblogaeth hyn yn cael eu cartrefu mewn 34,183 eiddo annedd. Y prif ffactor sy'n diffinio fforddiadwyaeth cartref yw incwm. Yn ystod 2015 yr incwm canol rigol i drigolion Môn oedd mewn swyddi llawn amser oedd £24,721 sydd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o £29,016 yn ôl y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol.

Pe bawn yn edrych ar bris canol rigol o eiddo annedd yma ym Môn mae hyn yn £186,229 sydd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o £162,904. Mae prisiau tai wedi cynyddu 21.7% yn ystod y cyfnod rhwng 2011 - 2015 o'i gymharu ag ychydig dan 10% fel cyfartaledd cenedlaethol. Golyga hyn bod prisiau tai ar y farchnad agored yma ym Môn sydd yn 7.5 gwaith yr incwm canol rigol wrth gymharu gyda'r cyfartaledd cenedlaethol o 5.6 gwaith yr incwm.

Wrth edrych ar yr ystadegau uchod gwelir yn glir iawn bod rhaid cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy yma ar yr ynys er mwyn sicrhau bod ein pobl ifanc sy'n cychwyn eu gyrfaedd a bywyd gweithio yn gallu fforddio i gael cartref fforddiadwy o fewn eu cynefin ar yr ynys fel bod cyflogwyr yn gallu cyflogi siaradwyr Cymraeg o fewn eu gweithlu a bod hyn yn cynyddu'r defnydd o Gymraeg o fewn busnes a masnach. Dengys y rhagolygon demograffig ar gyfer y cyfnod 2015 - 2026 bydd angen 2420 o dai ychwanegol sy'n gyfartal i 220 y flwyddyn.

Fel rhan o'r datrysiad ar gyfer cyflenwi'r angen ychwanegol am dai, byddwn yn cymryd camau pellach i sicrhau ein bod yn dychwelyd cymaint ag y gallwn o dai gwag yn ôl i ddefnydd yn ogystal ag adeiladu tai newydd rheoli tai a rhent sy'n eiddo i berchnogion preifat.

Wrth adeiladu tai newydd tuag allan i'r ardaloedd mwyaf trefol o'r sir byddwn yn cynnal arolwg am anghenion tai fforddiadwy o fewn ardaloedd mwyaf gwledig y sir ac yn rhoi ystyriaeth i ddefnyddio tir eithriedig ar gyfer datblygu tai fforddiadwy byddai ar gael gyda nifer o wahanol ddeiliadaeth i gyfarch y galw, fel tai rhent cymdeithasol, rhent canolraddol yn ogystal â darpariaeth o dai fforddiadwy i bobl byddai'n dymuno bod yn hunan berchnogion.

I'r pwrpas o sicrhau bod trigolion Môn yn ymwybodol o'r ardaloedd lle bydd tai fforddiadwy ar gael byddwn yn defnyddio gwefan TaiTeg i'w marchnata.

### **Materion economaidd-cymdeithasol**

Cydnabyddir bod angen cefnogi cymunedau Cymraeg i ffynnu. Yn sgil hyn, dylid hyrwyddo datblygiadau economaidd priodol a darparu cyfleoedd economaidd, gan gynnwys ardaloedd gwledig, i sicrhau eu bod yn ddeniadol i'r boblogaeth bresennol a'r rhai a fyddai'n dymuno dychwelyd i'r ardal.

Wrth ystyried sefyllfa'r iaith i'r dyfodol, mae ffactorau economaidd, addysgol a diwylliannol a phenderfyniadau cynllunio ar ddefnydd tir i gyd yn chwarae rhan allweddol. Er mwyn gwella'r sefyllfa mae angen manteisio ar y cyfleoedd gwaith i wrth-droi allfudo, ac felly cryfhau'r defnydd o'r iaith. Gall pobl o holl gefndiroedd ieithyddol gyfrannu at ateb yr her economaidd hon.

Mae angen agwedd gadarnhaol at alluogi datblygu economaidd cynaliadwy mewn cymunedau ar draws yr Ynys. Y nod yw sicrhau cydbwysedd rhwng ffyniant economaidd cynaliadwy a chryfhau'r nifer o siaradwyr Cymraeg ymysg y cenedlaethau i ddod.

Ceir yr heriau economaidd-gymdeithasol isod ar Ynys Môn:

- dadleoli llafur rhanbarthol
- cyfyngiadau cynhwysedd isadeiledd
- lefelau gostyngol o GVA
- lefelau uchel o ddiweithdra ieuencid
- lefel uchel o anweithgarwch economaidd
- llawer o wardiau mwyaf difreintiedig Cymru
- lefelau uchel o allfudo pobl ifanc
- colledion swyddi sylweddol

Ceir y cyfleon economaidd-gymdeithasol isod ar Ynys Môn:

Dros y 10-15 mlynedd nesaf mae Ynys Môn yn mynd i elwa'n fawr o fuddsoddiadau posibl o hyd at £12 biliwn, drwy fuddsoddiadau megis:

- Adeiladu Gorsaf Niwclear Newydd yn Wylfa a fydd yn creu 9,200 o swyddi yn ystod y cyfnod adeiladu a nifer o gyfleoedd cadwyn gyflenwi leol;
- Seilwaith newydd cysylltiad Grid Cenedlaethol i gysylltu'r datblygiadau carbon isel a gynigir ar Ynys Môn i rwydwaith tir mawr;
- Datblygu Pentref Twristiaeth a Chyfleusterau Hamdden gan Land and Lakes.

Er mwyn manteisio ar y cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r datblygiadau posibl, sefydlodd Cyngor Sir Ynys Môn Raglen Ynys Ynni yn 2010. Mae'r RHYY yn bartneriaeth rhwng sefydliadau cyhoeddus a'r sector breifat, gan gynnwys DECC, Llywodraeth Cymru a datblygwyr mawr, gyda'r bwriad o roi Ynys Môn ar flaen y gad o ran ymchwil a datblygu ynni, cynhyrchu a gwasanaethu, gan ddod â manteision economaidd a allai fod yn enfawr.

Gan ddefnyddio'r RHYY fel cerbyd, mae Cyngor Sir Ynys Môn yn anelu at:

- Roi cymorth i leihau risgiau buddsoddiadau sylweddol yn y sector breifaf
- Gwneud pobl yn fwy cystadleuol o ran addysg a sgiliau i sicrhau cyfleoedd swyddi;
- Datblygu busnesau cystadleuol i allu cystadlu am gytundebau cadwyn gyflenwi;
- Datblygu isadeiledd cystadleuol (safleoedd, adeiladau, cyfleusterau, cludiant ac ati)
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol i hysbysu a diweddarau, adborth diogel ac ymateb i faterion a chyfleoedd.

## Twristiaeth

Mae twristiaeth yn sector sy'n gallu ac sydd wedi cyfrannu at ffyniant lleol ac ansawdd bywyd ym Môn. Yn dilyn Strategaeth Croeso Cymru, '*Partneriaeth ar gyfer TWF 2013-2020*', bydd llwyddiant yn dibynnu ar weithio mewn ffordd sy'n arwain at greu partneriaethau cryf a chynhyrchiol. Bydd Croeso Cymru yn gweithio gyda'r diwydiant er mwyn cynorthwyo i ddatblygu a chyflwyn cynnyrch yn unol ag anghenion y farchnad a chreu llwyfannau i fusnesau hyrwyddo eu hunain.

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wrthi'n cynllunio Cynllun Rheoli Cyrchfan 2016-2020 sy'n ddatganiad o fwriad ar y cyd i reoli cyrchfan dros gyfnod penodol o amser gan ddifinio rôliau'r gwahanol randdeiliaid a nodi'r camau gweithredu. Bydd y cynllun, mewn rhannau yn canolbwyntio ar hyrwyddo'r iaith, diwylliant a hanes. Trwy gydweithio, gellir datblygu diwydiant twristiaeth llwyddiannus a chynaliadwy sy'n creu cyfoeth i'r ynys ac sy'n defnyddio ac yn cynnal ei hamgylchedd a'r diwylliant arbennig.

Mae twristiaeth yn rhoi £260.45 miliwn (blwyddyn 2014) i mewn i'r economi, arian mae angen mawr amdano, ac yn cefnogi dros 4,000 o swyddi ar yr Ynys. Yn ogystal, mae'r sector dwristiaeth yn:

- denu 330,000 o gerddwyr ar Lwybr yr Arfordir gan gynhyrchu £14 miliwn
- denu 1.58 miliwn o ymwelwyr yn flynyddol
- yn profi 2.0 miliwn o ymwelwyr yn teithio drwy borthladd Caergybi yn flynyddol
- cefnogi gwasanaethau ac isadeiledd sy'n rhedeg ar draws ffiniau ac o fudd i bobl leol e.e. cysylltiadau cludiant, yr amrediad o siopau a gwasanaethau a chyfleusterau diwylliannol
- helpu i hyrwyddo delwedd gadarnhaol o'r Ynys i'r byd tu allan sydd, yn ei dro, yn gallu denu buddsoddiad a gwneud i bobl deimlo'n well am y lle maen nhw'n byw ynddo
- disgwyl targed twf cronus o 10% erbyn 2020

## Y Rhaglen Ynys Ynni

Dros y 10-15 mlynedd nesaf mae Ynys Môn yn mynd i elwa'n fawr o fuddsoddiadau posibl o hyd at £12 biliwn, drwy fuddsoddiadau megis:

- Adeiladu Gorsaf Niwclear Newydd yn Wylfa a fydd yn creu 10,000 o swyddi yn ystod y cyfnod adeiladu a nifer o gyfleoedd cadwyni cyflenwi leol;

- Seilwaith Trosglwyddo Newydd y Grid Cenedlaethol i gysylltu'r datblygiadau carbon isel a gynigir ar Ynys Môn i rwydwaith tir mawr;
- Bwriad i ddatblygu Pentref Twristiaeth a Chyfleusterau Hamdden gan Land and Lakes (gweler y map isod)

Er mwyn manteisio ar y cyfleoedd na welwyd mo'u tebyg o'r blaen ac sy'n gysylltiedig â'r datblygiadau posibl, sefydlodd Cyngor Sir Ynys Môn Raglen Ynys Ynni yn 2010. Mae'r Rhaglen Ynys Ynni yn bartneriaeth rhwng sefydliadau cyhoeddus a'r sector breifat, gan gynnwys DECC, Llywodraeth Cymru a datblygwyr mawr, gyda'r bwriad o roi Ynys Môn ar flaen y gad o ran ymchwil a datblygu ynni, cynhyrchu a gwasanaethu, gan ddod â manteision economaidd a allai fod yn enfawr.

Nod Rhaglen Ynys Ynni yw:

- Rhoi cymorth i leihau risgiau buddsoddiadau sylweddol yn y sector breifat
- Gwneud pobl yn fwy cystadleuol o ran addysg a sgiliau i sicrhau cyfleoedd swyddi;
- Datblygu busnesau cystadleuol i allu cystadlu am gytundebau cadwyni cyflenwi;
- Datblygu isadeiledd cystadleuol (safleoedd, adeiladau, cyfleusterau, cludiant ac ati)
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol i hysbysu a diweddarau, sicrhau adborth ac ymateb i faterion a chyfleoedd.

Cydnabyddir bod angen cefnogi cymunedau Cymraeg i ffynnu. Yn sgil hyn, dylid hyrwyddo datblygiadau economaidd priodol a darparu cyfleoedd economaidd, gan gynnwys ardaloedd gwledig, i sicrhau eu bod yn ddeniadol i'r boblogaeth bresennol a'r rhai a fyddai'n dymuno dychwelyd i'r ardal.

Wrth ystyried sefyllfa'r iaith i'r dyfodol, mae ffactorau economaidd, addysgol a diwylliannol a phenderfyniadau cynllunio ar ddefnydd tir i gyd yn chwarae rhan allweddol. Er mwyn gwella'r sefyllfa mae angen manteisio ar y cyfleoedd gwaith i wrth-droi allfudo, ac felly cryfhau'r defnydd o'r iaith. Gall pobl o holl gefndiroedd ieithyddol gyfrannu at ateb yr her economaidd hon.

Mae angen agwedd gadarnhaol at alluogi datblygu economaidd cynaliadwy mewn cymunedau ar draws yr Ynys. Y nod yw sicrhau cydbwysedd rhwng ffyniant economaidd cynaliadwy a chryfhau'r nifer o siaradwyr Cymraeg ymysg y cenedlaethau i ddod.

Trwy'r Rhaglen Ynys Ynni, mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi ymrwymo i:

- Sicrhau fod gan bobl leol y sgiliau a'r cyfleoedd angenrheidiol i gymryd mantais o'r cyfleoedd gwaith a ragwelir (yn ystod y gwaith adeiladu a gweithredu)
- Darparu addysg, hyfforddiant a sgiliau gwell er mwyn sicrhau y gall pobl leol gymryd mantais o'r holl gyfleoedd i'r dyfodol
- Denu pobl yn ôl i Ynys Môn sydd wedi gadael yr ynys i chwilio am addysg a/neu gyflogaeth
- Sicrhau nad yw lleoliad a math o lety'r adeiladwyr, a nifer y gweithwyr, yn cael effaith andwyol ar yr iaith Gymraeg

- Sicrhau fod gan gwmnïau lleol y dystysgrif/ cymwysterau angenrheidiol fel bod modd iddynt gystadlu am gyfleoedd cadwyni cyflenwi a chymryd mantais ohonynt
- Sicrhau fod gan Ynys Môn safleoedd ac eiddo digonol (yn y lleoliadau mwyaf priodol) i ddenu buddsoddiad mewnol a chaniatáu i gwmnïau lleol dyfu.

DRAFFET

# Datblygiadau Arfaethedig Cysylltiedig â Ynys Ynni



**Stena Line**  
Porthladd Caergybi –  
Porth Rhyngwladol Strategol

Tudalen 157

**LAND & LAKES**  
Environments for life  
1100 Uned Arfaethedig ar gyfer  
defnydd cymysg Pentref  
Twristiech Preswyl a  
Cyfeusterau Hamdden. Cam 1  
– Llety Gweithwyr Wylfa

**morlais** **Minesto**  
DATBLYGIADAU AR Y MŌR -  
Parth Arddangos Cerrynt  
Llanw Gogledd Môn  
38km<sup>2</sup> o wely'r môr

**Orthios**  
Parc Biomas / Eco Arfaethedig  
299 MW yn darparu ynni a  
stêm ar gyfer Hydroponic a  
mentrau dyframaethu



**Coleg Menai**  
hangu y campws I gynnwys  
ystyniad y Ganolfan Ynni

**MagnaX**  
Gorsaf Pŵer Bresenol Wylfa –  
460 MW o Ynni Carbon Isel  
Diwedd cynhyrchu 2015

**PŴER NIWCLEAR  
HORIZON  
NUCLEAR POWER**  
Gorsaf Ynni Niwclear Newydd  
Arfaethedig gyda'r gallu i  
gynhyrchu oddeutu 2.7 GW  
o Ynni Carbon Isel

**SP ENERGY  
NETWORKS**  
Gweithredwr Rhwydwaith  
Dosbarthu Trydan yng Ngogledd  
Cymru - Cysylltu Cynhyrchwyr  
Trydan Llai

**MagnaX** **SPARC**  
Parc Gyddoniaeth Arfaethedig  
yn denu ymchwilwyr  
academaidd ac arbenigwyr  
masnachol at eu gilydd  
7.8 Hectar

**nationalgrid**  
Cysylltu Ynni Carbon Isel  
newydd Arfaethedig ar  
Ynys Môn

Mae'r Gymraeg yn rhan annatod o hunaniaeth a threftadaeth ddiwylliannol yr ynys ac uchelgais clir Cyngor Sir Ynys Môn yw annog a chefnogi mwy o gymunedau a thrigolion yr ynys i ddefnyddio'r iaith yn rhan o'u bywyd beunyddiol.

Rhydd y prosiectau mawr arfaethedig gyfle unigryw na welwyd mo'i debyg o'r blaen i gyfrannu'n gadarnhaol i drawsffurfiad economaidd-gymdeithasol yr ynys (a rhanbarth ehangach Gogledd Cymru). Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gweld gwaith datblygu, gweithredu'r prosiectau mawr hyn a'u gwaddol (a'u datblygiadau cysylltiedig) yn allweddol i drawsnewid cynaliadwyedd, llesiant ac 'ymdeimlad o le' tymor hir yr ynys a'i chymunedau.

Mae'r cyfleoedd a'r manteision economaidd-gymdeithasol a ddangosir yn sgil y prosiectau mawr arfaethedig o bwys tyngedfennol i adfywiad, bywiogrwydd ac amrywiaeth Ynys Môn, ei thrigolion, ei heconomi a'i diwylliant. Mae'n hanfodol fod y prosiectau'n cael eu datblygu, eu hadeiladu a'u gweithredu'n gydlynol, yn integredig ac yn gytbwys er mwyn dylanwadu orau ar ddyfodol tymor hir Ynys Môn, a'i lunio a'i gefnogi. Cred y Cyngor Sir yn gryf fod cyflawni 'gwaddol' cadarnhaol a holl gynhwysol yn sylfaenol/hanfodol i lwyddiant a derbynioldeb y prosiectau mawr arfaethedig.

Bydd cael 'gwaddol' cadarnhaol o'r datblygiadau arfaethedig yn ddibynnol ar:

- Darparu cyfleoedd i bobl ifanc leol aros ar yr ynys i fyw a gweithio
- Nifer, math a graddfa cyfleoedd cadwyni cyflenwi i fusnesau lleol gymryd mantais ohonynt
- Darparu addysg, hyfforddiant a sgiliau gwell o ansawdd uchel i bobl leol gymryd mantais o'r cyfleoedd gwaith
- Denu pobl yn ôl i Ynys Môn sydd wedi gadael yr ynys i chwilio am waith yn rhywle arall
- Denu buddsoddiad fel bod modd i gwmnïau newydd weithio o Ynys Môn/ Gogledd-orllewin Cymru er mwyn darparu cyfleoedd gwaith ychwanegol i bobl leol
- Sicrhau y cymerir mantais o'r holl gyfleoedd i gofleidio, hyrwyddo a chefnogi treftadaeth ddiwylliannol falch yr ynys a'r Gymraeg.



Blwyddyn 1						
Maes Blaenoriaeth	Nod Cyffredinol	Amcan i'w gyflawni erbyn diwedd blwyddyn 1	Cyfrifoldeb	Ffynhonnell Gyllidol	Dangosydd Perfformiad	Statws RAG
Plant a Phobl Ifanc/Y Teulu (e.e. Cymraeg yn y blynyddoedd cynnar, cyfnod statudol addysg, cymdeithasol)						
Siarter Iaith	Codi statws y Siarter Iaith ar draws gwasanaethau Cyngor Sir Ynys Môn nid yn unig o fewn yr Ysgolion ond ymysg rhieni a'r gymuned ehangach	Pob gwasanaeth cyhoeddus o'r cyngor yn hyrwyddo'r Siarter Iaith mewn dulliau gweledol	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Swyddog Siarter Iaith, Cyngor Sir Ynys Môn</li> <li>- (Uwch Rheolwr Safonau Ysgol a Chynhwysiad) Cyngor Sir Ynys Môn</li> <li>- Menter Iaith Môn</li> <li>- Penaethiaid Gwasanaeth Cyngor Sir Ynys Môn</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Dysgu Gydol Oes Cyngor Sir Ynys Môn</li> <li>- Grant y Gymraeg mewn Addysg</li> <li>- Grant uniongyrchol LIC 2016-17- lledaenu'r Siarter Iaith</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>100% gwasanaethau cyhoeddus Cyngor Sir Ynys Môn yn hyrwyddo y Siarter Iaith mewn dulliau gweledol a gweithredol</li> <li>90% ysgolion yn derbyn achrediad gwobr efydd erbyn Medi, 2016</li> </ul>	
	Sicrhau bod pob ysgol yn cynnwys blaenoriaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg a'r Siarter Iaith yn eu Cynllun Gwella Ysgol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Polisi Iaith pob ysgol yn datgan 'Cymraeg yw iaith gymdeithasol yr ysgol hon'</li> <li>Ysgolion wedi gwneud arfarniad trylwyr o berfformiad yn erbyn y gwe iaith ac wedi gweithredu arno</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Swyddog Siarter Iaith, Cyngor Sir Ynys Môn</li> <li>- (Uwch Rheolwr Safonau Ysgol a Chynhwysiad) Cyngor Sir Ynys Môn</li> <li>-Penaethiaid</li> <li>- Gwasanaeth GwE</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Cyllidebau ysgolion</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- GwE yn monitro Cynlluniau Gwella Ysgolion</li> <li>- 100% Ysgolion wedi adnabod blaenoriaeth ac yn profi cynnydd erbyn Mai, 2017</li> <li>-90% o ysgolion yn datblygu i'r wobwr arian yn 2016/17</li> <li>-Fframwaith arolygu Estyn yn cynnwys y defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg</li> </ul>	

Maes Blaenoriaeth	Blwyddyn 1					
	Nod Cyffredinol	Amcan i'w gyflawni erbyn diwedd blwyddyn 1	Cyfrifoldeb	Ffynhonnell Gyllidol	Dangosydd Perfformiad	Statws RAG
			<ul style="list-style-type: none"> <li>- Cydlynwyr iaith dalgylchoedd</li> <li>- Fforwm iaith Strategol</li> <li>- Fforwm iaith Addysg</li> </ul>			
	Sicrhau cefnogaeth i'r ysgolion ddatblygu sgiliau Cymraeg cymorthyddion a staff ategol	Hyfforddiant uwchsgilio, 18 diwrnod, i grŵp o 15 o gymorthyddion yn rhymor y Pasg 2017. Cyrsiau iaith, mewn dalgylchoedd ysgolion, i gymorthyddion	-Cyngor Sir Ynys Môn/Fforwm iaith Strategol Ynys Môn/Canolfan Bedwyr/Prifysgol Bangor	Cyllid Llywodraeth Cymru trwy grant i Ganolfan Bedwyr. Cyllid grant hyrwyddo'r Siarter iaith, Llywodraeth Cymru	15 cymhorthydd derbyn hyfforddiant dwys (Ionawr, 2017). Sesiynau gwyll ar gael i gymhorthyddion eraill	
	Sicrhau bod paratoi'r ffordd yn digwydd ar gyfer y Gymraeg yn Ysgol Cybi	Ysgolion y dalgylch yn cydweithio ar flaenoriaethu'r Gymraeg a blaenoriaethu'r Siarter iaith y Cynllun Gwella Ysgol	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Swyddog Siarter iaith, Cyngor Sir Ynys Môn</li> <li>- (Uwch Rheolwr Safonau Ysgol a Chynhwysiad) Cyngor Sir Ynys Môn</li> <li>- Gwasanaeth GwE</li> <li>- Holl bartneriaid allweddol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Cyllidebau ysgolion</li> <li>- Grant Y Gymraeg mewn Addysg</li> </ul>	- 76% disgyblion Cyfnod Sylfaen yn derbyn asesiad Cymraeg Mai 2017	

Blwyddyn 1						
Maes Blaenoriaeth	Nod Cyffredinol	Amcan i'w gyflawni erbyn diwedd blwyddyn 1	Cyfrifoldeb	Ffynhonnell Gyllidol	Dangosydd Perfformiad	Statws RAG
	Sicrhau cyfleoedd i rieni ddysgu Cymraeg er mwyn cefnogi eu plant ond hefyd er mwyn hwyluso cymhathu cymdeithasol a chyfleoedd gyrfaoel	Rhaglen hyfforddiant ar gael a fydd yn cael ei hyrwyddo'n glir ac effeithiol ymysg rhieni	-Consortiwm Dysgu Cymraeg y Gogledd-Orllewin	Consortiwm Dysgu Cymraeg y Gogledd-Orllewin a'r rhieni eu hunain	Dangosyddion cydnabyddedig y Consortiwm a fydd yn cynnwys agweddau meintiol ac ansoddol	
<b>Trosglwyddo iaith o fewn y teulu</b>	Cynyddu cyfraddau defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd cymysg eu hiaith a di-Gymraeg	Cynyddu nifer o rieni sy'n siarad Cymraeg efo'u plant, ac a ddaw o gartrefi ble mae un rhiant yn medru siarad Cymraeg	- Menter Iaith Môn - Mudiad Meithrin	- Llywodraeth Cymru - Cyngor Sir Ynys Môn	250 o rieni yn nodi eu bod yn gweithio ar newid eu harferion iaith yn y cartref (dewis un ardal i ganolbwyntio arni yn y flwyddyn gyntaf)	
	Gwella gwybodaeth i deuluoedd am fanteision y Gymraeg gan brif ffyrddio'r negeseuon drwy wasanaethau statudol a phreifat (gan gynnwys meithrinfeydd  Codi ymwybyddiaeth rhieni/gofalwyr am fanteision y Gymraeg	Sicrhau bod swyddogion maes, Gofalwyr plant ac ymwelwyr iechyd yn hyrwyddo pwysigrwydd trosglwyddiad iaith o fewn y teulu. Adnabod anghenion hyfforddiant priodol  Dosbarthu taflen i bod darpar riant/gofalwr erbyn Mawrth, 2017	- Llywodraeth Cymru - Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr - Mudiad Meithrin - Dechrau'n Deg - Cyngor Sir Ynys Môn -Menter Iaith Môn  - Mudiad Meithrin		Sicrhau targedu 500 o deuluoedd  Cynnydd yn nifer y mynychwyr	

Tudalen 161

Maes Blaenoriaeth	Blwyddyn 1					
	Nod Cyffredinol	Amcan i'w gyflawni erbyn diwedd blwyddyn 1	Cyfrifoldeb	Ffynhonnell Gyllidol	Dangosydd Perfformiad	Statws RAG
	Sicrhau bod arweinydd pob cylch yn ddwyieithog	Rhesymoli cylchoedd ardal Caergybi erbyn Medi, 2017	- Mudiad Meithrin		100% o arweinyddion cylchoedd Mudiad Ysgolion Meithrin yn ddwyieithog	
	Cydweithio gyda phartneriaid sy'n denu unigolion yn ôl i Fôn i weithio	Adnewyddu gwefan Ynys Ynni a chynnwys gwybodaeth reolaidd am gyfleoedd gwaith yn sgil datblygiadau mawr	-Swyddogion Rhaglen Ynys Ynni		Sefydlu gwaelodlin am y nifer o bobl	
<b>Addysg</b>	Adolygu Polisi Iaith Gymraeg mewn Ysgolion, Cyngor Sir Ynys Môn	Polisi cadarn y Sir yn gosod disgwyliadau pendant ar yr holl Ysgolion a'u cyrff llywodraethol ac yn sicrhau cysondeb gweithredu rhwng Ysgolion.	- Cyngor Sir Ynys Môn - Aelodau Etholedig - Menter Iaith Môn - Dysgu Gydol Oes Cyngor Sir Ynys Môn	Cyllid i hyrwyddo/lansio	- Cyrff Llywodraethu'r holl Ysgolion yn gweithredu'r Polisi Iaith  - 100% rhieni yn derbyn yr un neges am statws yr Iaith Gymraeg yn yr ysgol, fel ymhob ysgol	
	Sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei phrif lifo ymhob agwedd yn y Cyfnod Sylfaen ac mewn canran gyfartal neu uwch yng Nghyfnod Allweddol 2 ymhob ysgol	Cynnydd yn y nifer o ddisgyblion sy'n dilyn trac Cymraeg iaith gyntaf drwy eu cyfnod yn ysgolion uwchradd y Sir	- Cyngor Sir Ynys Môn  - Menter Iaith Môn  - Dysgu Gydol Oes Cyngor Sir Ynys Môn	- Grant y Gymraeg mewn Addysg	- 76% o ddisgyblion Cyfnod Sylfaen yn cael eu hadnabod fel disgyblion Cymraeg yn y Cyfrifiad CYBLD Ionawr, 2017  -76% o ddisgyblion pob ysgol yn derbyn asesiad Cymraeg Mai, 2017	

Maes Blaenoriaeth	Blwyddyn 1					Statws RAG
	Nod Cyffredinol	Amcan i'w gyflawni erbyn diwedd blwyddyn 1	Cyfrifoldeb	Ffynhonnell Gyllidol	Dangosydd Perfformiad	
	Sicrhau bod dilyniant ieithyddol o'r ysgolion cynradd i'r uwchradd yn unol â Pholisi Iaith Addysg y Sir	Cynnydd yn y nifer o ddisgyblion sy'n trosglwyddo i Ysgol Uwchradd Caergybi ac Ysgol Uwchradd Bodedern wedi derbyn asesiad Cymraeg ar ddiwedd CA2	- Aelodau Etholedig  - Holl benaethiaid Ysgolion Cynradd ac Uwchradd			
Tudalen 163	Cryfhau'r gefnogaeth i'r ysgolion gyflwyno addysg Gymraeg i ddisgyblion yn yr ardaloedd ble mae'r her i'r iaith yn uchel	Sefydlu tîm o Athrawon Cefnogi Iaith, CS, CA2 a CA3, dan oruchwyliaeth y Canolfannau Iaith, i gefnogi disgyblion 3 – 14 oed ac i hyfforddi athrawon a chymorthyddion mewn dulliau trochi iaith  Sefydlu Canolfan Iaith ym mhob dalgylch Ysgol Uwchradd	-Holl bartneriaid allweddol	- Grant y Gymraeg mewn Addysg  - Wedi cyflwyno cais i Horizon i gyflogi cyfwerth â 6 athro llawn amser	- Yr holl ysgolion yn llwyddo i ddysgu Cymraeg. % derbyn asesiad Cymraeg Mai 2017: CS – 76% CA2 – 76% CA3 – 68% CA4 – 66%  - Disgyblion ail iaith yn cael eu trochi mewn Cymraeg yn unol â Pholisi Iaith y Sir	
	Cynyddu a chynnal defnydd y Gymraeg ymysg dysgwyr ôl 16 yn y sector Addysg Bellach	Sefydlu trefn mesur a thracio dysgwyr yn y cyfnod ôl-16 yn y sector addysg bellach sy'n parhau	-Cyfarwyddwr Dwyieithrwydd a Chydraddoldeb Grŵp Llandrillo Menai		Trefn wedi'i sefydlu  Gwaelodlin wedi'i rannu erbyn Rhagfyr, 2016	

Maes Blaenoriaeth	Blwyddyn 1					
	Nod Cyffredinol	Amcan i'w gyflawni erbyn diwedd blwyddyn 1	Cyfrifoldeb	Ffynhonnell Gyllidol	Dangosydd Perfformiad	Statws RAG
		<p>i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog</p> <p>Rhannu gwaelodlin darpariaeth ddwyieithog Coleg Menai gyda'r Fforwm Iaith</p> <p>Cynnydd o 4% mewn darpariaeth ddwyieithog yng Ngholeg Menai</p>			Cynnydd o 4% o ddarpariaeth ddwyieithog yng Ngholeg Menai yn ystod y flwyddyn gyntaf (erbyn Gorffennaf, 2017)	
	Datblygu cyfleusterau hyfforddi lleol ar gyfer pynciau STEM a phynciau/sgiliau megis adeiladwaith/trydanwyr	Sicrhau adnoddau gwell yn yr ysgolion a cholegau (e.e. offer labordai/staffio ac ati)	<p>-Cyngor Sir Ynys Môn</p> <p>-Datblygwyr prosiectau mawr</p>		<p>-Defnyddio adroddiad 'Cyflwr cyfleusterau dylunio, technoleg a gwyddoniaeth yn ysgolion uwchradd Môn' ar gyfer gwaelodlin am gyflwr adnoddau labordai/ystafelloedd DT fel ac y maent ym Mehefin, 2016 ac amcangyfrif o gostau gwella'r adnoddau</p> <p>-Defnyddio holiadur sgiliau a hyder STEM ymysg staff cynradd am eu gallu/agwedd tuag at gyflwyno pynciau STEM yn llwyddiannus o fewn y sector. Yn dilyn buddsoddi mewn hyfforddiant ac adnoddau, ail-gyflwyno'r holiadur a mesur gwahaniaeth</p>	

Maes Blaenoriaeth	Blwyddyn 1					Statws RAG
	Nod Cyffredinol	Amcan i'w gyflawni erbyn diwedd blwyddyn 1	Cyfrifoldeb	Ffynhonnell Gyllidol	Dangosydd Perfformiad	
Tudalen 165 Y Gymraeg yn gymdeithasol	Cynyddu cyfranogiad a chyrhaeddiad yn y maes STEM, sgiliau adeiladwaith a thrydanwyr gan sicrhau dilyniant i'r byd gwaith	Dylanwadu pobl ifanc i wneud penderfyniadau gyrfa. Hyrwyddo pynciau STEM a chreu cysylltiad amlwg rhwng y pynciau a'r potensial swyddi yn y pen draw er mwyn eu gwneud yn gystadleuol am gyfleon cyflogaeth	-Cyngor Sir Ynys Môn  -Datblygwyr prosiectau mawr		Mesur niferoedd disgyblion sydd yn dewis pynciau STEM ac ati/lefel cyrhaeddiad/ynghyd â dilyniant (ydynt yn parhau gyda phynciau STEM/galwedigaethol)	
	Cynyddu'r defnydd a phrif lifo'r Gymraeg i weithgareddau chwaraeon	- Darparu mwy o wersi nofio yn y Gymraeg. 70% ar hyn o bryd.  - Canolbwyntio mwy ar gefnogi a chynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yng Nghanolfan Hamdden Caergybi  - Ymchwilio i'r posibilïadau o ddarparu cyrsiau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg e.e. ffitrwydd	-Rheolwr Masnachol Hamdden, Cyngor Sir Ynys Môn		- Lleihad yn nifer y cwynion o 50%  -Sefydlu gwaelodlin ar gyfer y flwyddyn gyntaf	

Maes Blaenoriaeth	Blwyddyn 1					Statws RAG
	Nod Cyffredinol	Amcan i'w gyflawni erbyn diwedd blwyddyn 1	Cyfrifoldeb	Ffynhonnell Gyllidol	Dangosydd Perfformiad	
		- Sicrhau bod yr holl hysbysiadau cyhoeddus a llenyddiaeth o fewn y canolfannau hamdden yn ddwyieithog				
	Cynyddu'r defnydd a phrif lifo'r Gymraeg i weithgareddau'r Clybiau Ieuencid	Datblygu sgiliau staff i ddefnyddio'r Gymraeg trwy ddarparu sesiynau penodol i'w cyflwyno yn y Clybiau Ieuencid	-Prif Swyddog Ieuencid (Cyngor Sir Ynys Môn)	Grant Strategaeth Gwaith Ieuencid	Cynyddu nifer y staff sy'n defnyddio'r Gymraeg wrth ddarparu gweithgareddau	
	Cynyddu cyrhaeddiad y cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth am arlwy'r Urdd yn lleol	Cynyddu ymwybyddiaeth am ddigwyddiadau'n lleol	-Swyddogion yr Urdd	Cyllideb yr Urdd	Nifer o 'hoffwyr' a dilynwyr	
	Sefydlu clwb i ddysgwyr yn Ysgol Uwchradd Caergybi	Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith disgyblion uwchradd yn nalgylch Caergybi	-Urdd/Menter Iaith Môn/Gwasanaeth Ieuencid/Ffermwyr Ifanc	Cyllideb Clybiau Ieuencid	Nifer y mynychwyr	



Maes Blaenoriaeth	Blwyddyn 1					
	Nod Cyffredinol	Amcan i'w gyflawni erbyn diwedd blwyddyn 1	Cyfrifoldeb	Ffynhonnell Gyllidol	Dangosydd Perfformiad	Statws RAG
	Y Gweithle Gwasanaethau Cymraeg Y Seilwaith (e.e. datblygiadau mawr, Cymraeg mewn busnesau, twristiaeth, technoleg)					
Tudalen 167  Codi hyder staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle/codi ymwybyddiaeth am botensial technoleg	Sicrhau cyfleoedd i staff gweithleoedd ddysgu Cymraeg er mwyn hwyluso eu gallu i weithio'n ddwyieithog, ond hefyd er mwyn hwyluso cymhathu cymdeithasol a chefnogi'r teulu	Rhaglen hyfforddiant ar gael a fydd yn cael ei hyrwyddo'n glir ac effeithiol ymysg gweithleoedd ynghyd â gwasanaeth ymgynghorol rhad ac am ddim i weithleoedd er mwyn cynllunio hyfforddiant effeithiol yn y gweithle	-Consortiwm Dysgu Cymraeg y Gogledd-Orllewin	Consortiwm Dysgu Cymraeg y Gogledd-Orllewin a'r rhieni eu hunain	Dangosyddion cydnabyddedig y Consortiwm a fydd yn cynnwys agweddau meintiol ac ansoddol	
Sicrhau bod y Gymraeg yn cael proffil ac yn yrrwr gan gyflogwyr a busnesau	Sicrhau bod y Gymraeg yn cael sylw priodol mewn unrhyw: (a) ddatblygiad mawr ble mae mesurau lliniaru drwy brosesau cynllunio a chydlynio (b) unrhyw ddatblygiadau llai yn y gymuned	Cynnal ymwybyddiaeth o faterion iaith wrth weithredu polisiâu cynllunio lleol a chenedlaethol	-Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu'r Economi, Cyngor Sir Ynys Môn  -Cynrychiolwyr lleol e.e. Aelodau Etholedig, cynrychiolwyr Cyngorau Tref a Chymuned		Pob cais cynllunio am ddatblygiadau manwerthu, diwydiannol neu fasnachol lle mae adroddiad i'r Pwyllgor Cynllunio yn rhoi sylw llawn am effaith y datblygiad i les yr iaith Gymraeg	

Maes Blaenoriaeth	Blwyddyn 1					
	Nod Cyffredinol	Amcan i'w gyflawni erbyn diwedd blwyddyn 1	Cyfrifoldeb	Ffynhonnell Gyllidol	Dangosydd Perfformiad	Statws RAG
	Ymroddiad datblygwyr mawr tuag at Bolisiau iaith	Sicrhau bod datblygwyr yn mabwysiadu polisiau a chynlluniau iaith er mwyn sicrhau statws cyfartal rhwng y Gymraeg a'r Saesneg	-Datblygwyr mawr -Cyngor Sir Ynys Môn		Nifer y polisiau iaith gan ddatblygwyr ac effaith gweithredu'r polisi mewn *mis	
	Cynyddu cyfleon gwaith i bobl leol	Sicrwydd bod canran o weithwyr Wylfa Newydd yn bobl leol (lleihau allfudo a sicrhau plant i'r ysgolion lleol)	-Horizon -Cyngor Sir Ynys Môn		-Data cyflogaeth/diweithdra/anweithgarwch economaidd	
	Datblygu 'pecyn manteision y Gymraeg mewn busnes' i gwmnïau sydd yn buddsoddi ar yr Ynys (i gynnwys deunydd marchnata budd dwyieithrwydd o fewn y sector breifat ac yn adeiladu ar waith Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg), hyn yn cynnwys cwmnïau twristiaeth	Dosbarthu pecynnau i bob busnes sy'n dod i gyswllt â'r Cyngor (busnesau sy'n rhentu unedau busnes)	- Llywodraeth Cymru - Busnes Cymru - Uned Datblygu Economaidd Cyngor Sir Ynys Môn		Nifer y pecynnau sy'n cael eu dosbarthu yn y flwyddyn gyntaf	

Maes Blaenoriaeth	Blwyddyn 1					
	Nod Cyffredinol	Amcan i'w gyflawni erbyn diwedd blwyddyn 1	Cyfrifoldeb	Ffynhonnell Gyllidol	Dangosydd Perfformiad	Statws RAG
Tudalen 169	Datblygu Cynllun Gweithredu Twristiaeth ddiwylliannol	Creu fideos 'you tube' trwy gydweithio gyda Chynghorau Tref a Chymuned a haneswyr lleol  e.e. hyrwyddo'r prosiect enwau caeau	-Menter Iaith Môn/Cyngor Sir gan ddefnyddio pobl ifanc i fynd allan i ffilmio	Cronfa RDP	- Nifer o bobl ifanc sy'n cymryd rhan yn y prosiect  Nifer yr ymweliadau ar 'you tube'	
	Gweithredu Polisi Iaith y Cyngor Sir (Mai, 2016) a'i adolygu yn 2018  Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yng ngweinyddiaeth fewnol y Cyngor Sir	Sefydlu gwaelodlin o'r nifer sy'n gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg, yn llafar ac ysgrifenedig, trwy ddatblygu holiadur i'w ddsbarthu  Ymchwilio i'r potensial o ddefnyddio cof cyfieithu o fewn y Cyngor  Ymateb i ddarganfyddiadau'r siopwr cudd ar weithredu'r Safonau Iaith	-Cyngor Sir Ynys Môn		Nifer o ddogfennau sy'n cael eu drafftio trwy gyfrwng y Gymraeg  Nifer o benodiadau 'Cymraeg hanfodol'	

Maes Blaenoriaeth	Blwyddyn 1					Statws RAG
	Nod Cyffredinol	Amcan i'w gyflawni erbyn diwedd blwyddyn 1	Cyfrifoldeb	Ffynhonnell Gyllidol	Dangosydd Perfformiad	
	Hyrwyddo egwyddorion 'Mwy na Geiriau'	Darparu hyfforddiant ar y 'Cynnig Rhagweithiol' i staff Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ynys Môn	-Cyngor Sir Ynys Môn	Cyllideb y gwasanaeth	50% o staff Gwasanaethau Cymdeithasol yn derbyn hyfforddiant ar y 'Cynnig Rhagweithiol'	
Tudalen 170 Hyrwyddo'r Gymraeg yn weledol yn gymunedol	Cynhyrchu gwefan a phecynnau croeso am hanes a diwylliant/addysg ddwyieithog/manteision y Gymraeg/cyfleoedd i'w dysgu ac i'w defnyddio ar gyfer mewnudwyr	Sicrhau bod gwybodaeth ar gael i gynorthwyo mewnudwyr mewn ffordd positif	- Llywodraeth Cymru - Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd Cyngor Sir Ynys Môn		Nifer sy'n ymweld â'r wefan yn y flwyddyn gyntaf	
	Addasu gwefan y Cyngor Sir i gyfleu'r weledigaeth am y Gymraeg i fewnudwyr	Sicrhau bod gwybodaeth ar gael i gynorthwyo mewnudwyr mewn ffordd positif	-Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd. Cyngor Sir Ynys Môn			
	Adnabod pencampwyr iaith mewn Cyngorau Tref a Chymuned	Sefydlu'r egwyddor	-Fforwm Cyngorau Tref a Chymuned		Sefydlu gwaelodin yn y flwyddyn gyntaf	

Blwyddyn 1						
Maes Blaenoriaeth	Nod Cyffredinol	Amcan i'w gyflawni erbyn diwedd blwyddyn 1	Cyfrifoldeb	Ffynhonnell Gyllidol	Dangosydd Perfformiad	Statws RAG
	Cynnal ymgyrch farchnata ar y cyd gyda'r Eisteddfod Genedlaethol a sicrhau gwaddol cymunedol	Cynnal deialog rhwng y Fforwm Strategol Iaith a Phwyllgor Gwaith Eisteddfod 2017 er mwyn adnabod blaenoriaethau ar gyfer cynllun gweithredu	-Asiantaethau perthnasol		I'w llunio ar sail datblygu blaenoriaethau a chynllun gweithredu	
Y Gymuned (e.e. tai, broses cynllunio, diwylliant)						
Hyrwyddo a hwyluso dysgu Cymraeg ymysg oedolion	Sicrhau cyfleoedd dysgu Cymraeg yn eang ar draws y Sir	Rhaglen o gyrsiau cymunedol a fydd yn cael ei hyrwyddo'n eang ledled y sir	-Consortiwm Dysgu Cymraeg y Gogledd-Orllewin	Consortiwm Dysgu Cymraeg y Gogledd-Orllewin a'r dysgwyr eu hunain	Dangosyddion cydnabyddedig y Consortiwm a fydd yn cynnwys agweddau meintiol ac ansoddol	
Pecyn codi ymwybyddiaeth am y cyfleon gwirfoddoli trwy gyfrwng y Gymraeg	Creu pecyn gwybodaeth am gyfleoedd i wirfoddoli trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer siaradwyr Cymraeg a dysgwyr	Cwblhau'r pecyn yn ystod blwyddyn 1 a'i ledaenu	-Medrwn Môn		Cynnydd yn nifer a defnydd y pecyn	

Blwyddyn 1						
Maes Blaenoriaeth	Nod Cyffredinol	Amcan i'w gyflawni erbyn diwedd blwyddyn 1	Cyfrifoldeb	Ffynhonnell Gyllidol	Dangosydd Perfformiad	Statws RAG
Hwyluso'r defnydd o offer cyfieithu ar gyfer mudiadau gwirfoddol a chynghorau tref a chymuned	Codi ymwybyddiaeth am yr ap ffôn i gyfieithu ar y pryd	Hyrwyddo a pharhau i dreialu'r ap cyfieithu, "Glust i Glust ", gyda'r nod o fabwysiad ehangach gan sefydliadau, grwpiau ac unigolion	-Cyfarwyddwr Busnes - Menter Môn		Sefydlu gwaelodlin yn y flwyddyn gyntaf	
	Codi ymwybyddiaeth o'r posibiladau/dulliau amrywiol i ateb y galw am gyfieithu ar y pryd mewn Cynghorau Tref a Chymuned	Adnabod iaith Cynghorau Tref a Chymuned/cyff llywodraethu ysgolion a sefydlu gwaelodlin o'r angen	-Unllais Cymru		Nifer y sefydliadau sy'n ei ddefnyddio	
Hyrwyddo Technoleg i normaleiddio'r Gymraeg yn gymunedol	Codi ymwybyddiaeth am waith a gweithgareddau Cymraeg ymysg trigolion Môn drwy sefydlu cyfrif trydar a Facebook, a defnyddio gwefan y Fenter Iaith	Partneriaid allweddol i adnabod pwynt cyswllt ym mhob sefydliad.  Creu cyswllt gyda darparwyr cymunedol	-Menter Iaith Môn i gyd-gordio a holl bartneriaid eraill i fwydo gwybodaeth		- Nifer o bobl yn ymweld â'r wefan  - Nifer o bobl yn defnyddio cyfrif trydar  - Nifer o bobl yn defnyddio cyfrif Facebook	
Sicrhau bod y Gymraeg yn ystyriaeth mewn materion cynllunio a defnydd tir perthnasol	Mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol sy'n parhau i gynnal polisiau er lles yr iaith Gymraeg, gan gynnwys asesu effaith ieithyddol cynigion datblygu perthnasol adeg ceisiadau cynllunio	Cynllun Datblygu Lleol wedi cael ei fabwysiadu	- Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu'r Economi, Cyngor Sir Ynys Môn		Cynllun Datblygu Lleol wedi cael ei fabwysiadu gan y Cyngor 2016/2017	

Maes Blaenoriaeth	Blwyddyn 1					Statws RAG
	Nod Cyffredinol	Amcan i'w gyflawni erbyn diwedd blwyddyn 1	Cyfrifoldeb	Ffynhonnell Gyllidol	Dangosydd Perfformiad	
Cyfleusterau Cymunedol	<p>Hyrwyddo datblygiadau sydd o fudd i ddyfodol cymunedau a rhwydweithiau</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Tai marchnad leol</li> <li>Tai fforddiadwy</li> <li>Cyfleoedd gwaith</li> </ul>	<p>- Mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol Cynnal Cymunedau Cynaliadwy</p> <p>- Cynnal ymwybyddiaeth o faterion iaith wrth weithredu polisiau'r Cynllun Datblygu Lleol</p>	<p>-Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu'r Economi, Cyngor Sir Ynys Môn</p>		<p>Canllaw Cynllunio Atodol Cynnal Cymunedau Cynaliadwy wedi cael ei fabwysiadu gan y Cyngor</p>	
	<p>Creu proffiliau ieithyddol o holl ardaloedd Ynys Môn i adnabod y bylchau mewn darpariaeth o'r cyfleoedd yn gymunedol</p>	<p>Creu proffil ieithyddol o'r ynys</p>	<p>-Menter Iaith Môn/swyddogion ymgysylltu cymunedol</p>	<p>Horizon yn cyllido'r swyddogion ymgysylltu cymunedol</p>	<p>Trosolwg cyffredinol yn ei le</p>	
	<p>Sicrhau cyflenwad digonol o dai fforddiadwy i drigolion yr Ynys</p> <p>Cymryd camau pellach i fynd i'r afael â nifer o dai gwag ar yr ynys er mwyn eu dychwelyd i ddefnydd lleol</p>	<p>Sicrhau bod yr Aseiad o'r Farchnad Dai Leol yn datgan beth yw'r angen am dai fforddiadwy ac ym mha ardaloedd o'r Ynys</p> <p>Sicrhau bod y data ar nifer y tai gwag ar yr ynys yn gywir</p>	<p>-Rheolwr Strategol Tai - Cyngor Sir Ynys Môn</p> <p>-Gwasanaeth Tai</p>	<p>Dyletswydd Statudol yn cael ei ariannu drwy'r Gronfa Cyffredinol y Cyngor</p>	<p>Cyrraedd targedau'r Cytundeb Deilliannau</p>	

Maes Blaenoriaeth	Blwyddyn 1					Statws RAG
	Nod Cyffredinol	Amcan i'w gyflawni erbyn diwedd blwyddyn 1	Cyfrifoldeb	Ffynhonnell Gyllidol	Dangosydd Perfformiad	
	Sicrhau cyflenwad ychwanegol o dai cyngor ar yr ynys	30 o dai dros 3 blynedd		Cyllid y Gwasanaeth Tai	Lleoliad 10 tŷ wedi'i adnabod yn y flwyddyn gyntaf	
	Marchnata tai fforddiadwy ar yr ynys i drigolion lleol drwy ddefnyddio gwefan Tai Teg	Ein bod yn marchnata 10 o dai fforddiadwy ar Tai Teg	-Swyddog Datblygu Strategol Tai, Cyngor Sir Ynys Môn	Dim angen cyllidol, sefydlu'r system eisoes wedi ei gyflawni	Mesur yn erbyn y targed sydd wedi ei bennu fel yr amcan (adnabod ffigur penodol)	



## **PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO**

Cadeirydd: Y Cyngorydd Derlwyn Hughes  
Is-Gadeirydd: Y Cyngorydd Alun Mummery

Y tabl isod yw Rhaglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio o Mai 2016 at Mai 2017. Adroddir ar y Rhaglen Waith i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini i bwrpas adolygu ei chynnwys, ystyried eitemau newydd neu i ohirio/tynnu eitemau yn ôl.

Cyswllt: Geraint Wyn Roberts (Swyddog Sgriwtini)  
Ffôn: 01248 752039  
E-bost: gwrce@ynysmon.gov.uk

### **PWRPAS YCHWANEGU'R EITEM AR RAGLEN Y PWYLLGOR SGRIWTINI:**

- Trawsnewid Gwasanaethau- Llyfrgelloedd ac Ieuenctid
- Monitro Perfformiad, Cyllideb a Partneriaethau
- Pre-decision Scrutiny/ Sgriwtini cyn penderfyniad
- Datblygu Polisi / Ymgynghoriadau
- Cais gan Pwyllgor / Aelod

### **PANELI CANLYNIAD SGRIWTINI**

(1) Grŵp Adolygu Cynnydd Ysgolion (yn parhau)

070716V8

1

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

## (2) Sgrwtini ar y Cyd o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (yn parhau)

Dyddiad Cyfarfod	Eitem	Pwrpas	Lleoliad / Amser Cychwyn
12 Mai 2016	Ethol Cadeirydd Pwyllgor	Penodi Cadeirydd	Ystafell Pwyllgor 1 / 3.30 yh
	Ethol Is-Gadeirydd y Pwyllgor	Penodi Is-Gadeirydd	
13 Mai 2016	Safleoedd Sispsiwns a Theithwyr	Sgrwtini cyn penderfyniad	Siambr y Cyngor /3.30 yh
19 Gorffennaf 2016	Safleoedd Sispsiwn a Theithwyr dros dro	Sgrwtini cyn penderfyniad	Siambr y Cyngor / 2 yh
	Strategaeth Iaith Gymraeg	Sgrwtini cyn penderfyniad	
	Datblygu sgrwtini o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus	Perfformiad partneriaeth	
26 Medi 2016	Partneriaeth Diogelwch Cymunedol	Perfformiad partneriaeth	Ystafell Pwyllgor 1 / 2 yh
	GwE –Dysgu o wella ysgolion. Herio a'r gefnogaeth a ddarperir i ysgolion, gan ganolbwyntio ar y rhai oren a choch yn y categori fframwaith perfformiad cenedlaethol.	Perfformiad partneriaeth	
	Protocol Gogledd Cymru ar gyfer y Gymuned Sipsiwn a Theithwyr	Sgrwtini cyn penderfyniad	

Tudalen 176

Dyddiad Cyfarfod	Eitem	Pwrpas	Lleoliad / Amser Cychwyn
<b>Tachwedd 2016</b> <b>Cyfarfod arbennig, dyddiad i'w gadarnhau</b>	Trawsnewid Gwasanaethau Llyfrgelloedd	Trawsnewid	Ystafell Pwyllgor 1 / 2 yh
	Trawsnewid Gwasanaethau Ieuenctid (Posibilrwydd angen ychwanegu Trawsnewid Gwasanaethau Diwylliant)	Trawsnewid	
<b>22 Tachwedd 2016</b>	Cydweithio rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chyngor Sir Ynys Môn. (dyddiad i'w gadarnhau)	Perfformiad partneriaeth	Ystafell Pwyllgor 1 / 2 yh
	Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru (dyddiad i'w gadarnhau)	Gwybodaeth cefndirol / Perfformiad partneriaeth	
	Allanoli – Cyfleusterau Cyhoeddus	Sgriwtini cyn penderfyniad	
<b>16 Chwefror 2017</b>	Grŵp Adolygu Cynnydd Ysgolion	Monitro perfformiad	Ystafell Pwyllgor 1 / 2 yh
	Anableddau Dysgu - Phartneriaeth gyda Cyngor Gwynedd a Bwrdd Iechyd	Perfformiad partneriaeth	
	Iechyd- Meddwl - Phartneriaeth gyda Cyngor Gwynedd a Bwrdd Iechyd	Perfformiad partneriaeth	
	Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	Perfformiad partneriaeth	
<b>20 Ebrill 2017</b>	Partneriaeth Cymunedau Gyntaf	Monitro perfformiad	Ystafell Pwyllgor 1 / 2 yh
	Galw Gofal- Partneriaeth rhwng Cyngorau Gogledd Cymru	Perfformiad partneriaeth	
	Casglu Gwastraff Cartref - diweddariad ar gasglu gwastraff pob 3 wythnos	Monitro perfformiad	
	Lleoedd Llewyrchus, Llawn Addewid	Perfformiad Partneriaeth	
	Adolygiad o sut mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn monitro Partneriaethau Allweddol Strategol	Perfformiad Partneriaeth	

Tudalen 177

This page is intentionally left blank